This is a reproduction of a library book that was digitized by Google as part of an ongoing effort to preserve the information in books and make it universally accessible.

Google books

https://books.google.com

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# COF NT

AM Y DIWEDD.

# BARCH. HUGH PUGH, MOSTYN.

GAN Y

PARCH. W. REES, D.D., LIVERPOOL;

PARCH. T. OBE ORPION).

---

LIVERPOOL:
FWYD YN SWYDDFA'R "TYST CYMREIG," OLD POST OFFICE PLACE.

1870.

Digitized by Google

Digitized by Google

# AT Y DARLLENYDD.

Yr ydym gyda hyfrydwch yn cyflwyno y gyfrol a ganlyn i'ch sylw fel teyrnged o barch i goffadwriaeth un a garem yn fawr, gan hyderu y bydd iddi ateb dybenion uchaf bywgraffiad. Gadewir i'r adroddiad o'i hanes, a'r nodiadau ar ei gymeriad a'i athrylith sefyll neu syrthio ar eu teilyngdod eu hunain. Carasem roddi ychwaneg o ddyfyniadau o'i ysgrifeniadau i mewn yn y rhifyn cyntaf, ond ceir cyfle i wneud hyny yn y ddau rifyn a ddygir allan ar ol hyn, lle y cyhoeddir ei brif draethodau a'i ddarlithiau, yn nghyd ag amryw o'i bregethau yn gyflawn ac mewn amlinelliad, fel y gwelir mewn hysbysiad ar yr amlen.

Y CYHOEDDWYR.

LIVERPOOL, *Tachwedd* 1870.

Digitized by Google

Digitized by Google

# COFIANT

AM Y DIWEDDAR

# BARCH. HUGH PUGH, MOSTYN.

## PENNOD I.

UN o brif golledion bywyd daearol dyn ydyw colli ei gyfeillion mynwesol drwy eu symudiad oddiwrtho gan angau. Po hwyaf y byddo efe byw teimla fod y byd hwn yn myned yn fwyfwy oerllyd ac anial iddo ef, fel y mae y naill ar ol y llall o gyfeillion ei fywyd yn cael eu cymeryd ymaith. Ni all dyn wedi iddo gyraedd oedran henafgwr wneyd cyfeillion newyddion i lenwi lle y rhai a gollodd. "Nid oes neb gwedi iddo yfed gwin hen, a chwenych y newydd yn y fan, canys efe a ddywed, Gwell yw yr hen."

Y mae llawer o ddynion yn gallu myned trwy y byd megys ar eu penau eu hunain, yn bobl lonydd a diofal, heb fawr o negesau na chymdeithas rhyngddynt â neb; y maent yn yn byw ynddynt eu hunain, a'u serch arnynt eu hunain, ac heb le na llety i neb arall yn eu mynwesau. Ni theimlant hwy na cholled na galar ar ol neb, ac ni theimla neb golled na galar ar eu hol hwythau. Hebryngir hwynt i'r bedd, ac y maent wedi eu hanghofio yn nhir y rhai byw, cyn y'mron i briddellau tir anghof orchuddio eu heirch. Bywyd sychlyd fuasai eu bywyd, a chladdedigaeth sychlyd a fu yn derfyn iddo. Ac yn wir, byd sych diffaith iawn fuasai y byd hwn i fyw ynddo pe buasai y rhan fwyaf o'i breswylwyr o'r un ysbryd ac anian a'r cyfryw ddynion. Trwy drugaredd nid felly y mae—nid rhyw gerig celyd ac oerllyd yw plant dynion bawb oll. Y mae elfenau cyfeillgarol a chymdeithasgarol yn fyw a gweithgar yn y byd er ei holl aflwydd a'i drueni, ac yn ffynonellau gwerthfawr o gysur a mwynhad yn nghanol ei holl ddrain a'i ofidiau.



Digitized by Google

Yn marwolaeth gwrthddrych ein cofiant, collasom gyfaill—cyfaill nad oes neb ar ei ol a all lanw ei le neillduol ef yn mynwesau ei gyfeillion. Gwir pruddaidd a ddywedodd Scorpion yn ei angladd:—"*Ni chawn ni byth yr un Mr. Pugh etto.*" Na chawn, na chawn, canys nid oes yr un *Mr. Pugh i'w* gael. Yr oedd *individuality* arbenigol yn perthyn iddo ef. Dywedai rhywun am rywun arall, ddarfod i'r Creawdwr dori y *fold* y bwriasai efe ef iddi, ar ol ei dynu ef allan, fel nad oedd *un fel hwnw* yn mhob peth i gael ei gynyrchu drachefn, er na olygid na buasai o'i flaen, ac na ddeuai ar ei ol rai cystal ag ef, a dodi pobpeth at eu gilydd. Y mae yn mynwes ein cyfeillgarwch ei ystol a'i gongl neillduol ei hun i bob un o gyfeillion y galon, a phan elo un o'r ystolion yn y gongl hono yn wag, nid oes neb a all ei llenwi, fel yr hwn a'i meddiannodd hi gyntaf. Yr oedd Mr. Pugh yn gyfryw gyfaill mewn gwirionedd—cyfaill llawn o holl wir elfenau cyfeillgarwch—un galluog mewn synwyr a barn i fod yn gyngnorwr doeth, tyner ei galon i gydymdeimlo mewn trallod, a chysuro mewn galar, cywir a ffyddlawn i bob ymddiried a ro'id ynddo, cyfaill y teimlid mwy o'i werth bob tro wedi bod yn ei gyfeillach.

Nid oes llawer o bethau hynod yn hanes gyrfa bywyd Mr. Pugh i'w cofiâu. Yn y dyn yr oedd yr hynodrwydd, ac nid yn gymaint yn amgylchiadau ei fywyd. Dyn anghyffredin mewn amgylchiadau cyffredin bywyd oedd efe. Treuliodd y rhan foreuol o'i fywyd cyhoeddus yn mro dawel neillduedig Edeyrnion, sir Feirionydd; a'r rhan olaf o honi, mewn unigedd a neillduedd, yn enwedig ei flynyddau diweddaf, yn Heol Mostyn, sir Fflint.

Digwydda i ambell un allu ymwthio, neu gael ei wthio i sefyllfa uwch mewn bywyd cyhoeddus, nac oedd ei alluoedd a'i gymwysderau yn eu hawlio iddo, tra y gadewir eraill ar hyd eu hoes mewn sefyllfaoedd llawer islaw eu gwir deilyngdod. Y mae "gweision yn marchogaeth ar feirch, a thywysogion yn cerdded ar draed," i'w gweled yn y byd, ac yn yr eglwys hefyd, o ddyddiau Solomon hyd heddyw. Tywysog yn cerdded ar ei draed oedd Mr. Pugh yntau, trwy ei oes, mewn rhyw ystyr. Nid oedd dim rhithyn o ysbryd ymwthio, ac o awydd ymddyrchafu, nac o eiddigedd am boblogrwydd iddo ei hun, ac at boblogrwydd eraill ynddo. Ni allasai fod yn anymwybodol ei hunan (cystal ag y gwyddai pob dyn call oedd yn ei adnabod) o'r ffaith, fod aml i un pell iawn

Digitized by Google

islaw iddo mewn teilyngdod, yn fwy poblogaidd gan y werin nac ef; ond ni chlybuwyd mo hono erioed yn achwyn oblegid hyny: mewn gair, yr oedd yn un o'r dynion mwyaf dihunangais yn y byd. Dywedai un tro mewn cellweiriaith ddiniwed, fod arno yntau chwant i fod yn bregethwr poblogaidd, a'i fod wedi meddwl gosod bwrdd i fyny uwch ben drws y capel yn Mostyn, ac yn argraffedig arno "*Hugh Pugh, Minister equal to any in London!*" Pe gwnaethai hyny, gellir dywedyd yn hawdd, y gosodwyd llaweroedd o arwyddfyrddau mwy celwyddog i fyny uwch ben drysau.

Gyda'i frodyr yn eu cynnadleddau a'u cyfeillachau, yr oedd yn un o'r rhai penaf o'r tywysogion. Edrychid arno megys oracl i ymofyn ag ef ar bob cwestiwn a ddeuai dan sylw; ac megys yr oedd yn y gyfeillach neillduol, yr oedd efe hefyd yn yr areithfa mewn gwirionedd. Yr oedd ei bregethau bob un yn drysorgell o sylwedd ac addysg, synwyr ac athrawiaeth; pob brawddeg yn doreithiog o ystyr, y geiriau yn goethion a detholedig, heb na "rhy nac eisiau,"—dim yn ddiffygiol, na dim tros ben.

Ond nid gwaith priodol ysgrifenydd y gyfran hon o gofiant ein cyfaill ymadawedig ydyw traethu ar elfenau arbenigol ei nodwedd, gan fod y gyfran hono wedi ei hymddiried i bin galluog Scorpion, yr hwn yn ddiau a wna lawn cyfiawnder a'r gwaith. Anhawdd oedd i'r ysgrifenydd ymatal heb fyned rywfaint dros ei lwybr priodol ei hun i ddywedyd cymaint a hynyna, gan y bu y gwrthddrych yn un o'r cyfeillion penaf ac anwylaf a fu ganddo erioed ar y ddaear,—cyfaill deugain mlynedd o'i fywyd—cyfaill na fu cwmwl cymaint a chledr llaw gwr erioed yn tywyllu ein cyfeillgarwch yn ystod y tymor maith hwnw; cyfaill nad ymedy yr hiraeth am dano o'i fynwes tra fyddo calon yn curo o'i mewn.

GANWYD HUGH PUGH yn Mai 1803, yn Towyn, Meirionydd. Yr oedd yn nai o fab brawd i William Pugh, o Lanfihangel-y-penant, yn yr un sir, hen bregethwr parchus a chymeradwy gyda'r Methodistiaid. Ymunodd ei dad a'r fyddin pan oedd ef yn faban, yn yr hon y daliai ryw swydd yn amser y rhyfel yn Hispaen. Cymerodd ei nain ofal y plentyn, hyd nes oedd yn dair-ar-ddeg oed. Dododd ef mewn ysgol ddyddiol yn Nhowyn, dan ofal John Jones, Penyparc, yr hwn, fe ddywedir, oedd yr ysgolfeistr goreu yn yr holl fro hono: lle y dysgodd ddarllen ac ysgrifenu yn wych, a gradd dda o rifyddeg. Cawsai cyn hyny addysg deuluaidd dda gan ei

Digitized by Google

nain; rhybuddiai ef rhag byth arfer geiriau llygredig, a thyngu a rhegi, a dywedyd anwiredd, halogi y Sabboth, &c., a glynodd ei haddysgiadau yn nghof a chalon y bachgen; a rhoddid iddo air da gan y cymydogion am ymddygiad gwedd-us yn mhob peth. Soniai yn fynych am dymor ei ysgol yn Nhowyn, a'r mân gastiau a arferid gan y plant yno. Yr oedd yn ddefod ganddynt, meddai, i nodi diwrnod tua'r amser y torid yr ysgol am wyliau y Nadolig, i gau y meistr allan; deuent yn nghyd yn brydlon drwy gyd-ddealldwriaeth y bore hwnw, a chymerent feddiant o'r castell cyn i'r athraw ddyfod, yna sicrhaent y drws, ac ni thyciai nac ymbiliau na bygyth-ion i gael ganddynt agor y porth; ar yr amod sicr y torid yr ysgol y diwrnod hwnw, y gollyngid ef i mewn; safai'r athraw at ei amod yn ffyddlawn, gan ei fod fel gwr pwyllog a doeth yn gweled y buasai ei thori yn gadael argraff niweidiol ar feddyliau a moesau y plant—yn tueddu i beri iddynt edrych yn ysgafn ar wneyd ymrwymiadau heb feddwl sefyll atynt. Gallasai osod ei ofn arnynt drwy eu ceryddu a'u fflangellu, ond fel athraw call ewyllysiai osod argraff ar feddyliau ei ysgolorion ieuaingc o bwys a gwerth gwirionedd a chywirdeb trwy gadw ei amod â hwynt, yn hytrach na gosod ei arswyd arnynt trwy weinidogaeth y fflangell, a thori yr amod hono. Beth bynag gadawodd argraff ddaionus ar feddwl y bachgen Pugh, yr hwn a soniai am dano gyda pharch i'w enw a'i goffadwriaeth bob amser.

Ond yr oedd defod arall gan y to hwnw o fyfyrwyr yr athrofa hono yn Nhowyn, yr hon weithiau a droai yn achlys-ur o weithred nad oedd ganmoladwy mewn un modd. Cytun-ai yr ysgolheigion hynaf i gael ciniaw Nadolig gyda'u gilydd yn nhy rhieni un o honynt a ganiatâi y ffafr o'u derbyn. Yr oedd raid cael gwydd fras at y ciniaw, a *chlubient* gyda'u gilydd tuag at ei phwrcasu. Un tro, methwyd er hel a chrafu, a chael yn agos ddigon o arian i brynu'r wydd. Pa beth oedd i wneyd? Yr oedd raid cael yr wydd Nadolig ryw fodd, o rywle. Cadwyd pwyllgor ar y mater. Un o ferched hynaf yr ysgol oedd Miss Wallis, Mrs. Lloyd wedi hyny, diweddar briod Mr. John Lloyd, cyhoeddwr yr *Amserau* gynt. Caniata-odd tad a mam Miss Wallis i'r ciniaw Nadolig gael ei barotoi mewn ystafell yn eu ty hwy. Ond pa le, a pha fodd y ceid yr wydd? Cytunodd dau neu dri o'r llwynogod ieuaingc i fyned i chwilena am dani, a llwyddasant ryw fodd i ddal un o wyddau tad Miss Wallis, heb i neb eu gweled, a phan

Digitized by Google

wybuwyd colli yr wydd, dodwyd y bai ar y llwynog; ni ddrwgdybiodd neb y bechgyn. Y noson o flaen dydd y wledd aed a'r wydd wedi ei lladd a'i phluo i dy Mr. Wallis, a chyflwynwyd hi i ofal Susan, y ferch, i'w choginio. Datguddiwyd y gyfrinach iddi hi, a mawr y mwynhau oedd ar y ciniaw Nadolig hwnw; bychan y meddyliai y teulu fod y llwynogod bychain direidus yn gwledda yn eu ty ar wydd a ladratasent oddiar eu buarth.

Yn dair-ar-ddeg oed, symudodd i Lundain, lle y bu yn gweini fel ysgrifenydd yn swyddfa cyfreithiwr am tua chwe' blynedd. Yr oedd wedi dechreu cael blas ar ddarllen, a chwilio am wybodaeth tra yn yr ysgol yn Nhowyn; ac wedi myned i Lundain, efe a'i "ceisiai hi fel ceisio arian, a chwiliai am dani fel am drysorau cuddiedig." Yr oedd llyfrgell ei feistr, yr hwn oedd ganddo bob ymddiried ynddo, at ei wasanaeth. Yr oedd yn cyrchu i'r swyddfa bob dydd erbyn naw yn y bore, ac yn aros hyd saith yn yr hwyr. Caniateid iddo ddwy awr adeg ciniaw, y rhai a dreuliai gyda'r llyfr; ac ar ol dychwelyd i'w lety yn yr hwyr, eisteddai i fyny i ddarllen yn aml hyd un a dau yn y bore, drwy yr hyn y niweidiodd ei iechyd i gryn raddau. Yr oedd yr awyddfryd darllengar hwn yn y bachgen, yn foddion tra effeithiol i'w gadw rhag myned yn ysglyfaeth i gymdeithion ac arferion drwg. Ei lyfr oedd cydymaith ei oriau hamddenol ef tra y bu yn y brifddinas. Bwytài *Daith y Pererin*, *Robinson Crusoe*, yr *Arabian Nights*, a phob llyfrau o'r fath y medrai gael gafael arnynt, gydag awch ac awyddfryd mawr. Yn ystod y tymor hwn ymberffeithiodd mewn gwybodaeth o'r iaith Saesonaeg, yr hon a allasai siarad ac ysgrifenu yn hylithr. Yr oedd gan y cyfreithiwr, ei feistr, bob ymddiried ynddo, fel y crybwyllwyd; ymddiriedai ganoedd o bunau tan ei ofal cyn iddo fod yn ddeunaw oed, medd y byr gofiant am dano a ymddangosodd yn *Ngeiriadur Bywgraphyddol o Enwogion Cymru*, gan J. T. Jones a'i fab, Aberdar. Ystyriai ei hun un diwrnod y dyn cyfoethocaf ar heolydd Llundain, pan y cludai yn ei logell fil o bunau dros ei feistr, i'w dodi mewn Banc yn y ddinas.

Ar ben ei chweched flwyddyn yn Llundain, yn bedair-arbymtheg oed, dychwelodd yn ol i Dowyn, gan fod ei iechyd yn pallu; yr oedd golwg wael wanaidd a gwelw iawn arno y pryd hwnw, ac am flynyddau wedi hyny. Yr oedd holl hen wragedd cyfarwydd y fro, meddai ef, yn ysgwyd eu penau yn ddifrifol ar ei ol, fel un anobeithiol ei gyflwr yn

Digitized by Google

ngafael y darfodedigaeth. Yr oedd yntau ei hun hefyd yn gogwyddo i'r farn hono, ond ceisiai ddarbwyllo ei hun i'r gwrthwyneb, ac i resymu ofn y gelyn marwol hwnw allan o'i fynwes.

Yn fuan ar ol ei ddychweliad o Lundain, ymunodd a'r eglwys Annibynol yn Nhowyn, dan ofal y diweddar Barch. H. Lloyd; yr oedd hyny yn y flwyddyn 1822. Yr oedd Mr. Lloyd, fel llawer o weinidogion yn y dyddiau hyny, dan yr angenrheidrwydd i drafod cryn lawer a "negeseuau y bywyd hwn," gan nad oedd yr eglwysi oedd tan ei ofal yn alluog i wneyd ond ychydig, nac, ond odid yn gwneyd ond llai na'r gallu hwnw tuag at ei gynaliaeth. Cadwai fasnachdy yn y dref; a llwyddodd ei alwedigaeth i raddau helaeth yn ei law. Nid oedd ef yn bregethwr poblogaidd, ond yr oedd yn wr o bwyll mawr, ac o synwyr cryf; difrycheulyd ei ymarweddiad, diwyd a ffyddlon fel bugail y deadellau oedd tan ei ofal, yn barchus iawn gan ei braidd, a chan ei gymydogion oll; ac felly yn neillduol yn mysg ei frodyr yn y weinidogaeth. Yr oedd Mrs. Lloyd yn wraig gall, grefyddol, a duwiolfrydig iawn, fel ffygysen o'r "addfed ffrwyth cyntaf." Cof gan yr ysgrifenydd ei fod yn lletya yn eu ty yn fuan wedi iddynt gladdu eu hunig fab, gwr ieuangc hawddgar a gobeithiol iawn: yr oedd y tad a'r fam mewn galar trwm ar ol eu huniganedig. Adroddai Mrs. Lloyd lawer o'i phrofiad ar yr amgylchiad y noson hono, gan adrodd y geiriau a'r addewidion o'r Beibl a roddent gysur a nerth iddi yn ei thrallod. "Y mae un hen bennill," meddai, "wedi bod fel olew tyner i'm teimladau lawer gwaith cyn y tro hwn, y mae fel yn newydd i mi bob dydd er's llawer o flynyddau bellach, ni fyddaf byth yn blino meddwl am dano a'i adrodd ynof fy hun, byddaf yn cael gradd o nefoedd ynddo'n wastad, gan fel y byddaf yn teimlo ei fod yn tyneru ac yn cynhesu fy nheimladau tuag at y Brenin mawr." Y pennill oedd hwn—

"Y wybren faith sy'n llawn o fydoedd,
Etto, Seren un ni fedd—
Er mor fuan maent yn hedeg—
Hed gan gynted â dy hedd:
Myrdd weddiau a wrandewaist,
Canys mor barod yw dy ras—
Yn y foment gynta'u ffurfiwyd,
Cyn eu dod o'r genau i maes."

A oes yn mysg merched Seion yn awr lawer o'r ddelw hon o Gristionogion? Gobeithiwn fod, ond ofnwn nad ydynt mor luosog ag oeddynt yn eglwysi Cymru yn y dyddiau hyny.

Digitized by Google

Ond i ddychwelyd. Yn nechreu y flwyddyn 1823, aeth Pugh ieuangc i gadw ysgol ddyddiol yn Llanfihangel-y-penant. Gwelodd y gweinidog a'r eglwys fod yn y bachgen alluoedd a chymwysderau rhagorol, nid yn unig i fod yn ddysgawdwr i'r rhai bach, yn ngwersi addysg gyffredin, ond hefyd i fod yn athraw mwy cyhoeddus yn mhethau yr efengyl; ac anogasant ef i ddechreu pregethu; yr hyn a wnaeth tua diwedd y flwyddyn hono (1823), pan oedd efe ychydig uwchlaw ugain oed. Ei destyn cyntaf oedd Haggai i. 5, "Ystyriwch eich ffyrdd." Yn 1827, symudodd o Lanfihangel i Lwyngwril i gadw ysgol, lle yr arosodd am ddwy flynedd, ac o'r lle hwn symudodd i Bethel, gerllaw y Bala, i gadw ysgol, ac i ymgyflwyno hefyd bellach i waith cyflawn y weinidogaeth.

Yn ystod ei arosiad yn Llwyngwril, bu rai gweithiau yn gydymaith i'r hen efengylwr hynod Richard Jones, o'r lle hwnw, ar ei deithiau pregethwrol yn rhai o barthau Meirion; a llawer o droion difyr a ddigwyddai rhyngddynt ar eu teithiau. Yr oedd Richard Jones lawer o flynyddau yn hŷn nac ef, ac yn bregethwr pur adnabyddus a chymeradwy flynyddau cyn iddo ef ddechreu pregethu. Yr oeddynt i fod un noson yn Llanymawddwy, lle yr oedd achos crefydd yn isel a thlawd iawn, nid oedd neb yn y pentref a'r ardal a deimlai ar ei galon i roddi llety na phryd o fwyd i bregethwr; pan ddygwyddai pregethwr fyned yno yn yr hwyr i bregethu byddai raid iddo fyned i Ddinas Mawddwy, bump neu chwe' milldir o ffordd i letya. Wrth fyned i'r capel y noson hono, dywedai Pugh wrth ei gyfaill, "Rhaid i ni ofalu bod yn fyr heno, neu hi fydd yn hwyr iawn arnom yn cyrhaedd Dinas; gwell i mi ddechreu yr oedfa, ac i chwithau bregethu." "Taw thon fathgien, pddegetha di dodde lath, a gad hynddw i a ffeindio lodginth," ac felly fu. Tua diwedd ei bregeth sylwai Richard Jones,—"Doth dim achoth i goelio thraeon pobol. Ydd oedden nhw'n deud wtha i a mddawd yma, na chae ni ddim thety yma heno, y bathe ddaid i ni fynd i Ddinath Mowddwy bob ciam heno add ol pddegethu, i gael thety, dydw i'n coelio ddun gaidd o hyny. Dacw wddaig fach yn fan acw," (gan bwyntio ei fys at yr un fwyaf drwsiadus a welai yn y gynnulleidfa,) "ydw i'n ddigon thiwdd y daw hi aton add ddiwedd ydd odfa, i geithio gynon i fynd hefo hi ad-dde heno; a dacw ddyn yn y fan acw, dw'yn thiwdd wth ei wyneb o, bydd addno fynte eithio i ni

Digitized by Google

fynd gyda fo, ac un addath yn fan acw," &c. Nodai allan y rhai y tybiai oddiwrth eu diwyg eu bod mewn amgylchiadau y gallasent letya dyeithriaid, a'r canlyniad fu i bob un y gwnaed yr apeliad atynt, ddyfod am y cyntaf at y pregethwyr a'r ddiwedd yr oedfa i'w hymofyn gyda hwy i letya; ac ni bu prinder llety i bregethwr yn Llanymawddwy o'r dydd hwnw hyd y dydd heddyw.

Yr oedd Richard Jones drwy ei fywyd dan gaethiwed o herwydd ofn cwn a theirw; tarw peryglus oedd pob hen fuwch a gyfarfyddai, yn ei dyb ef. Un diwrnod ar y ffordd, pan oedd ef a Mr. Pugh yn myned at eu cyhoeddiad mewn capel yn y wlad, canfyddent yrr o wartheg yn dyfod i'w cyfarfod, dychrynodd Richard druan yn ddirfawr, ac edrychai am le i dori dros y clawdd. "Does dim perygl," meddai Mr. Pugh, "Buchod ydyn nhw." "Dim peddyg yn widd! Weld di fathgien, y mae cyddu add eu pene nhw, doeth dim tddutht iddyn nhw," a thros y gwrych ag ef, a Pugh ar ei ol; "Tha di yna," eb efe wrth ei gyfaill, "a dwed i mi pen foddo nhw wedi pathio," ac âi yn mlaen encyd o ffordd oddiwrth y gwrych i'r cae. "Oes, y mae yma darw," gwaeddai ei gyfaill, "yn edrych yn frwnt iawn hefyd." Yna dechreuai Richard redeg—"Tha yna, tha yna," meddai wrth fyned, "a pheltia fo a cheddig." Yr oedd yr hen greadur yn ddigon boddlon i'w gyfaill sefyll y perygl i *beltio'r* tarw a *cheddig*, tra fyddai ef ei hun yn *peltio* rhedeg o gyrhaedd y perygl.

Buom yn tybio weithiau ddarfod i angylion gael difyrwch lawer tro wrth wylio rhai o hen bregethwyr digrif-dduwiol Cymru yn eu helyntion teithiol. Od oes, fel y tybia rhai, angel gwarcheidiol yn appwyntiedig i wylio pob un o'r saint, gallem feddwl fod pob cyfryw angel yn gyfaddas o ran ei dymer a'i duedd i warchod y sant dan ei ofal yn ol tymer ac ysbryd y sant hwnw. Felly cafodd angylion dynion fel Richard Jones, Llwyngwril, Rhys Davis, John Thomas, Glynarthen, John Jones, Treffynon, Isaac James, Robert Thomas, Llidiardau, a'u cyffelyb, lawer o brofedigaethau i ymatal rhag syrthio i ysgafnder gyda hwynt; a phryd arall i dymer ddigofus hwyrach. Pe cymerai Kilsby y gorchwyl o gasglu yr holl bethau diniwed-ddigrif sydd i'w cael am danynt, a'u gosod allan yn ei ddull ei hun, a'u cyhoeddi yn llyfr, byddai yn ddiau yn un o'r llyfrau mwyaf difyrus a ysgrifenwyd erioed. Y mae cymmeriadau o fath yr hen dadau hyny, yn mron wedi llwyr ddarfod o'r tir. Coffa da am danynt,

Digitized by Google

rhoddasant lawer o ddifyrwch, a pheth annghysur hwyrach, i'w cyd-ddynion yn eu hoes a'u hamser. Yr oedd pawb yn mhob man yn hoff iawn o honynt, ac yn meddwl yn dda am danynt, a theimlid chwithdod am eu hymweliadau wedi iddynt fyned ymaith.

Cyn gadael yr hen frawd o Llwyngwril, adroddwn un chwedl ddiniwed arall, am ddygwyddiad a fu yn Mostyn un tro wedi i Mr. Pugh symud yno. Yr oedd Richard Jones yn ei flynyddau olaf wedi myned yn gorffol iawn, a'i anadl yn gaeth iawn, yn neillduol pan ddygwyddai gael ychydig anwyd. Daeth i Mostyn un nos Sabboth yn y cyflwr hwn; methodd bregethu gan gaethder a diffyg anadl. Methodd Mr. Pugh ei berswadio i gymeryd *gruel* cynes i'w swper y noson hono: "Na fyna i mo dy *gdduel* di," meddai, "fu dda geni ddioed mono fo." "Nid be sy dda genych, ond y peth a wnai dda i chwi, ddylech chwi gymeryd," ebe y llall. "Doddo i mi damaid odd cig ene," meddai Richard. Bore dranoeth aeth Mr. Pugh i alw arno i godi, a dyna lle yr oedd Richard yn dyheu am ei anadl. "Agodd y ffenetht ene fathgien," meddai. "Wedi myned yn rhy dew a chau i fyny gan frasder yr ydych," meddai Mr. Pugh, "sticio gwartheg pan fyddont wedi cau gan frasder fyddant yn wneyd." Ar hyny daeth Pierce Jones, un o aelodau yr eglwys, yr a hwn fyddai yn arferol o ladd moch i'w gymydogion, i'r ty. "Pierce Jones," galwai Mr. Pugh o'r llofft, "a ydyw'r gyllell gigydd gyda chwi?" "Nac ydyw," oedd yr ateb. "Rhedwch i'w hol hi yn union." "I beth Mr. Pugh?" "I sticio Richard Jones, mae o wedi chwyddo ac yn methu cael ei wynt." "O'r gore Mr. Pugh, mi ddof yna yn union deg," ebe Pierce; dychrynodd Richard Jones am ei fywyd, "Fathgien! fathgien! O bobol! Mwdd-dwdd! mwdd-dwdd!" gwaeddai, ac i fyny ag ef, ac ymaith gynted ag y gallai, gan dyngu yn ei lid, na ddaethai i Mostyn byth mwy, ac ni ddaeth chwaith, canys yr oedd wedi credu yn ei galon fod Mr. Pugh a Pierce Jones yn bwriadu ei sticio o ddifrif. Adroddai am y perygl y buasai ynddo yn Mostyn wrth ei gyfeillion wedi hyny, ac mai dyn ofnadwy oedd Pugh; ei fod wedi galw am fwt-thiwdd idd ty i'w thicio fo, ond tyddwy dyddigaddedd mi gafodd gymorth i godi o'i wely a dianc o'u dwylaw. Credai yr hen greadur druan ei fod mewn cymaint o enbydrwydd am ei einioes yn Mostyn y bore hwnw ag ydoedd Paul yn Damascus pan oedd Llywydd tan Aretus y brenin yn gwilio'r ddinas, gan geisio ei ladd ef.

Digitized by Google

Yr oedd yn anmheus o *gyflwdd* Pugh byth wedi hyny. Nid oedd o un dyben ceisio ei berswadio i gredu mai cellwair yr oedd Mr. Pugh a Pierce Jones, "Cethwedd yn widd," meddai, "cethwedd a bywyd dyn? Nid cethwedd oedd o i mi."

Wedi ysgrifenu o honom y dernyn hwn o'r Cofiant, derbyniasom yr adgofion a ganlyn am foreu bywyd Mr. Pugh, oddiwrth ei hen gymydog, ei gyfaill, a'i gydlafurwr, y Parch. E. Evans, o Langollen, y rhai y bydd yn ddifyr a dyddorol i'r darllenwyr eu darllen.

"Pan oeddwn oddeutu deunaw oed, newydd i mi gael y fraint o ymuno a'r Annibynwyr yn Nolgellau, clywn ddywedyd gan gyfeillion, "Mae *clerc twrne* arall o'r enw Hugh Pugh, wedi myned i'r gyfeillach eglwysig yn Nhowyn, Meirionydd, hefyd." Tybid y pryd hwnw fod hyny yn gymaint rhyfeddod ag ydoedd gweled Saul gynt yn mhlith y proffwydi. Gan fy awydd i wybod ei hanes, deallais mai llangc oedd efe wedi dyfod o Lundain, a hyny yn benaf er mwyn ei iechyd. Aeth i'r gyfeillach eglwysig yn mhlith yr Annibynwyr yn Nhowyn yn lled fuan ar ol ei ddyfodiad i'r gymydogaeth hono, yr hyn a barodd syndod nid bychan i'r frawdoliaeth; a phrin y gwyddai rhai o'r hen bobl yn eu plith pa beth i feddwl o hono: ond nid hir y buont heb gael cwbl foddlonrwydd yn ei gylch, fel y derbyniwyd ef i gyflawn aelodaeth eglwysig yn eu plith gan y diweddar Barchedig Hugh Lloyd, yr hwn a fu yn hynod o garedig wrtho yn mhob rhyw fodd. Yn mhen ychydig amser ar ol hyn, wrth gael profion o'i wybodaeth Ysgrythyrol, craffder ei feddwl, ei ddawn fel ymadroddwr, anogwyd ef i ddechreu pregethu, a'r hyn y cydsyniodd. Nis gwn pa hyd y bu efe cyn ymddangos yn gyhoeddus fel pregethwr, ond mi feddyliwn na bu efe yn hir felly.

Gan nad oedd un bwriad gan Hugh Pugh i ddychwelyd drachefn i'w hen swyddfa yn Llundain, anogwyd ef i fyned i Lanfihangel-y-penant i gadw ysgol ddyddiol, lle yr oedd capel dan ofal y Parch. Hugh Lloyd, ac i bregethu yno ac mewn lleoedd cyfagos ar y Sabbothau. Pentref bychan yw Llanfihangel, ryw bum' milldir neu chwech o Dowyn yn nghilfach y mynyddoedd. Cryn gyfnewidiad oedd i langc o gyfreithiwr ddyfod o Lundain i le felly, na welai ynddo ond mynyddoedd cribog, ac na chlywai nemawr sŵn ond brefiadau defaid a bloedd eu bugail yn adsain o ystlys y naill fynydd i'r llall; ond serch hyny, yr oedd y cyfryw sefyllfa yn llawer mwy cydnaws â meddwl myfyrgar Hugh Pugh na thrwst a chynwrf y brif ddinas.

*Yno* y gwelais fy nghyfaill gyntaf erioed. Dyn ieuangc main ydoedd, ie, teneu, gwyneblwyd, llygadlym, ac o dymer siriol dros ben. Synais yn fawr ar y cyntaf ei weled ef yn ymddangos mor foddlawn yn y fath le, yr hwn oedd mor bell oddiwrth bob tref a phentref o bwys. Nid oedd ganddo ond nifer bychan o blant tan ei ofal, gan mai anaml oedd nifer trigolion y gymydogaeth; a diau mai ychydig iawn oedd y tâl a dderbyniai am ei drafferth yn eu haddysgu. Am gydnabyddiaeth a geid y pryd hwnw am bregethu yr efengyl, na soniwch air. Gallasai ef a'i frodyr sicrhau mai nid er mwyn casglu arian yr aethant i bregethu yr efengyl, oblegid haws o lawer fuasai

Digitized by Google

casglu cyfoeth mewn swyddfa cyfreithiwr, neu mewn rhyw alwedigaeth arall, na hyny. Modd bynag, yr oedd Hugh Pugh yn nghanol yr holl anhawsderau hyn gan lawened ar gôg ar y gangen. Mae'n rhaid fod ei fwyniant yn tarddu yn fwy oddiar ei *fyfyrgarwch* nodedig, nag oddiar amgylchiadau allanol. Nid oedd ganddo y pryd hwnw ond ychydig nifer o lyfrau heblaw y rhai a fenthycai gan ei gyfeillion; ond nid oedd hyny yn tarddu oddiar ei ddifatergarwch am lyfrau, eithr yn hytrach oddiwrth annghyfleusderau i'w cyrhaedd. Cerid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenent ef, a theimlid colled ar ei ol pan yr ymadawai o'r ardal.

Yn mhen rhyw gymaint o amser symudodd ein cyfaill o Lanfihangel i bentref Llwyngwril, i gadw ysgol ddyddiol yno hefyd yn nghapel yr Annibynwyr, yr hwn y pryd hwnw oedd adeilad wael, megys yr addoldai eraill hefyd, ond etto yn lled deilwng o'r pentref a'r gymydogaeth. Llawr pridd oedd iddo, yr hwn a orchuddid y rhan fynychaf yn y gauafau â brwyn, er cynesrwydd traed y gynnulleidfa. Cof genyf i mi droi i mewn yno ar ddydd gwaith i edrych am Hugh Pugh; a chyda i mi agor y drws, gwelwn ef yn cerdded yn ol ac yn mlaen dan ganu, tra byddai plant yn dysgu eu gwersi, ac yn ymddangos mor ddedwydd ag un gwr bonheddig a sangai ar garpedau, os nid yn fwy felly. Y pryd hwn y daeth efe i gydnabyddiaeth a chyfeillgarwch neillduol â Richard Jones. Dyma gyfarfyddiad dedwydd yn ddiau. Llawer ymddyddaniad difyrus fu rhyngddynt ill dau yn ystod yr amser y bu Hugh Pugh yn Llwyngwril; a cheid ambell ddadl frwd weithiau ar ryw bwngc neu gilydd, o herwydd yr oedd y naill mor awyddus ar llall i hyny. Mae'n wir fod Richard Jones yn *hen* ddadleuydd cyn i Pugh ymddangos ar y maes; ond er hyny, cafodd brofion yn fynych fod y llangc synwyrlym a ffraeth yn llawer trech nag ef mewn ymresymiad; a chyfaddefai yr hen frawd gyda difyrwch wrth ei gyfeillion yma a thraw ei fod ef felly. Dywedai,—"Bathgien ofnadw o d-ddwm add bwngc ydi Hugh Pugh acw thydd gyda ni, ie yn widdionedd ine." Y dystiolaeth hon oedd ddigon gwir.

Mynych y gwelid y ddau yn cydrodio yn araf ar hyd ac ar draws meusydd cyfagos i'r pentref i ymgomio ar eu hoff byngciau, oblegid yr oedd hyn yn rhan o'u dedwyddwch, gan eu bod o gyd-darawiad meddwl. Aent hefyd gyda'u gilydd ar nosweithiau canol yr wythnos i bregethu yn y naill fan a'r llall yn y cymydogaethau, yn enwedig i Lanegryn. Llawer noson a dreuliwyd gan y ddau yn Ty'nyllan, lle yr oedd Mr. John Evans, tad "Elen Egryn," yn byw, i ymresymu ar byngciau duwinyddol y dydd; ac ni byddai gwledd hyfrydach gan wr y ty na chael hyny, ie, byddai wrth fodd ei galon. Llawer gwaith y deuai fy mrawd Pugh i'r Bwlchgwyn hefyd, ty tad a mam yr ysgrifenydd, lle yr oedd tylwyth lluosog. Weithiau ceid dadl rhyngddo a fy nhad; pryd arall tarewid i ganu pan y digwyddai fod y rhan fwyaf o'r teulu yn nghyd, ac mewn hamdden i hyny. Efallai mai profedigaeth Pugh, o herwydd llonder ei feddwl, a phertrwydd ei ffraethebau, oedd ymylu weithiau ar fod yn rhy lawen, yn enwedig yn nghanol teulu siriol a charedig, yr hyn oedd "dipyn allan o le" yn ngolwg hen bobl grefyddol na fedrent un amser na chwerthin na gwenu ar un amgylchiad. Boed a fyno am hyny, yr

Digitized by Google

oedd yn wir dda gan deulu Bwlchgwyn, a phob teulu arall yr elai ef i'w plith, ei weled a mwynhau ei gymdeithas; ac ar ei ymadawiad o'r ty, dywedid wrtho yn serchog,—"Brysiwch yma etto, da chwi, Hugh Pugh."

Cafodd yr eglwys fechan yn Llwyngwril freintiau rhagorol yn ystod arosiad ein cyfaill yno, yn enwedig mewn cyfeillachau eglwysig canol wythnosol, y rhai a ddygid yn mlaen ganddo ef a Richard Jones, pan na allai eu gweinidog ddyfod yno o herwydd meithder ffordd, ac amgylchiadau eraill. Llawer pwngc pwysig a drinid ganddynt, a llawer rhan o'r Ysgrythyr a eglurid, a hyny er ychwanegiad gwybodaeth, ac er meithriniad profiad crefyddol yr ychydig gyfeillion oeddynt yno. Nid llawer o gyfleusderau a gafodd yr ysgrifenydd yn y cyfnod hwn o fywyd Mr. Pugh i'w glywed yn pregethu, ond cafodd ddigon fodd bynag i'w alluogi i ddyweyd cymaint a hyn am dano fel pregethwr,—ei fod yn drefnus ei faterion—yn goethedig ei iaith—yn fyr a chynwysfawr ei ymadroddion—yn gyflym hynod yn ei draddodiad, ac yn fywiog a gwresog yn ei ysbryd. Cryn orchwyl i'r rhai mwyaf craffus o'i wrandawyr oedd gallu ei ddilyn, gan mor gyflym yr ymadroddai. Dywedai rhai o honynt wrth ddychwelyd adref o'r oedfa, "Yr oedd Hugh Pugh yn ei deud hi heddyw fel cyfri' llyfrithen." "Yr oeddwn innau weithiau," ebe un arall, "yn colli y trywydd arno yn lan." "Daw y llangc i ddweyd yn arafach bob yn dipyn," meddai y llall; "daw, daw."

Mae yn gof genyf ein bod ill dau yn pregethu ar noson ganol yr wythnos mewn ystafell fechan yn Abermaw, cyn i un o honom ymsefydlu yn un lle. Ei destyn ef y pryd hwnw oedd y geiriau hyn, "Ac fel yr oedd efe yn ymresymu am gyfiawnder, dirwest, a'r farn a fydd, Felix a ddychrynodd, ac a atebodd, Dos ymaith ar hyn o amser, a phan gaffwyf fi amser cyfaddas, mi a alwaf am danat." Gobeithir na bu y pregethiad y noson hono yn gwbl ofer. Ar ol yr oedfa ni a ddychwelasom i'r Bwlchgwyn, tua dwy filldir o'r Abermaw; ac ar ein ffordd tuag yno, gwedi i ni groesi yr afon, yr oeddym i fyned ar draws rhyw forfa brwynog, lle y llithrasom i gors, ond nid un cynddrwg a chors John Buynian; eithr daethom allan o honi yn ebrwydd, ac a gyrhaeddasom y ty yn ddyogel. Yn hytrach na grwgnach yn anniddig, a gwneyd mawr ffwdan o herwydd yr aflwydd bychan hwn, gan annedwyddu pawb o'i amgylch, adroddai Pugh yr hanes ar yr aelwyd gyda difyrwch. Gwerthfawr yw meddu ysbryd o'r fath yma hyd y byddo yn bosibl ac yn weddus wrth fyned trwy helbulon y byd; y mae ei berchenog yn llawer llai ei ofid na'r neb sydd yn gwneyd arferiad o fynegu ei ddrallodion yn ddibaid.

Yn mhen rhai blynyddau ar ol yr oedfa grybwylledig a gawsid yn Abermaw, clywais hen frawd yno yn cyfeirio ati mewn cyfrinach lawer gwaith, yn enwedig pan y dygwyddai iddo fod wedi gwrandaw ambell wr dyeithr a chanddo floedd go enwog, dywedai, "Gwell genyf fi o lawer glywed rhywun tebyg o ran ei ddull i Hugh Pugh o Lwyngwril, a fu yma gynt yn traethu am Paul yn pregethu i Felix. Yr oedd y llangc hwnw fel Paul yn *ymresymwr*." Modd bynag am hyny, yr oedd Pugh yn bur sicr o gael sylw ei wrandawyr bob amser, yn enwedig y rhai callaf o honynt.

Cyn hir, daeth tymor Mr. Pugh i ymadael o Lwyngwril. Crybwyllasai Richard Jones ryw dro wrth Mr. Jones o Lanuwchllyn, ac

Digitized by Google

with y cyfeillion yn Bethel a Llandrillo, fod ganddo ef hanes "Bathgien iawn" iddynt a wnelai y tro yn rhagorol fel cydlafurwr â Mr. Jones. Bu hyn yn arweiniad yn Rhagluniaeth i agor drws i Mr. Pugh ddyfod yno i lafurio yn eu plith.

Yn awr, dyma fy ngoachwyl i gofnodi ychydig o'm hadgofion am dano yn moreuddydd ei weinidogaeth ar ddybenu, gan fod brawd llawer galluocach na myfi wedi ymgymeryd yn ei garedigrwydd â chyfansoddi ei gofiant yn gyflawn. Ond cyn rhoddi fy ysgrifell heibio ar y testyn hwn, goddefer i mi ddyweyd gair neu ddau yn mhellach. Gan fod rhyw debygrwydd adnabyddus i lawer rhwng Mr. Pugh a minau, o ran amryw amgylchiadau y daethom ill dau drwyddynt, megys ein hymadawiad o swyddfa cyfreithwyr—dechreuad ein proffes grefyddol—ein cychwyniad a'n neillduad i'r weinidogaeth—ein mynediad i'r sefyllfa briodasol—ein profedigaeth trwy ddyfodiad angau i'n teuluoedd; (ond fy mod i *ychydig amser o'i flaen ef*), tybiais lawer gwaith y gallasai fod yn yr amgylchiadau hyn ryw led awgrymiad y byddwn *farw* o'i flaen ef! ond fel arall y bu: *efe* a groesodd yr afon *gyntaf*—faint o amser o'm blaen i nis gwn, ond caf wybod ar ol hyn.

Bydded marwolaethau ein cyfeillion yn cyffroi ein meddwl i ymestyn am wir sicrwydd a dyogelwch yn Nghrist, ac yn ein symbylu i fwy o ddiwydrwydd yn ei winllan weddill ein hoes.

## PENNOD II.

Symudodd Mr. Pugh o Lwyngwril i Bethel, ger y Bala, yn Mai 1826, a bu yno yn cadw ysgol ac yn pregethu yn nghylchoedd gweinidogaethol y Parch. M. Jones, o Lanuwchllyn, esgobaeth yr hwn, heblaw Llanuwchllyn a'i hysgoldai cylchynol, oedd yn cynwys Bethel, Llandrillo, a Rhydywernen. Wedi bod yn ei sefyllfa o brawf am ddau fis a blwyddyn, cytunodd yr eglwysi yn y lleoedd uchod gyda chydsyniad calonog eu gweinidog blaenorol, y Parch. M. Jones, yn unfrydol i roddi galwad iddo i gymeryd eu gofal fel eu bugail, ac ni chawsant byth le i edifeirwch am y dewisiad a wnaethent.

Ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth yn Llandrillo ar y trydydd o Orphenaf, 1827. Traddodwyd llith ar natur eglwys gan y Parch. C. Jones, Dolgellau; gofynwyd y cwestiynau arferol i'r gweinidog ieuangc gan y Parch. M. Jones, Llanuwchllyn; gweddiodd y Parch. D. Roberts, Dinbych; traddodwyd y siars i'r gweinidog gan y Parch. H. Lloyd, Towyn; ac i'r eglwysi gan y Parch. E. Davies, Trawsfynydd; a phregethodd

Digitized by Google

y Parch. W. Williams o'r Wern, i'r gynnulleidfa yn gyffredinol. Nid oes yr un o honynt yn aros hyd yr awr hon, ond Mr. Davies, Trawsfynydd. Yr oedd pob un o'r lleill, ond Mr. Jones o Ddolgellau, wedi marw er's amryw flynyddau o flaen Mr. Pugh.

Y gweinidogion uchod gyda rhai eraill o'u cydlafurwyr, y rhai a dybid eu bod yn golofnau yn yr enwad, oeddynt dadau a chychwynwyr ein cyhoeddiad misol y *Dysgedydd*, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am bob cofnodion am ordeiniadau a marwolaethau ein gweinidogion, a digwyddiadau cyffelyb yn hanes ein heglwysi, ar gof a chadw. Gwnaeth y tadau hyny lawer o aberth, a chymerasant lawer o boen a thrafferth yn y gorchwyl, canys nid peth bychan oedd cychwyn a sefydlu cyhoeddiad misol yn y dyddiau hyny, pan nad oedd ysbryd derbyn a darllen llyfrau ond prin a gwanaidd yn yr eglwysi, ac yn wir, ni chafodd y *Dysgedydd* o'r dyddiau hyny hyd y dyddiau hyn y derbyniad a deilyngai gan yr enwad yn gyffredinol. Arferai Mr. Pugh ddywedyd, na bu ganddo ef fawr o feddwl erioed am y dynion hyny yn yr eglwysi, na theimlent gymaint a hyny o ddyddordeb yn yr enwad ac y derbynient ei gyhoeddiad misol. "Dynion heb gymeryd gwraidd yn ein mysg ydynt," meddai, "ac ni raid wrth ond rhyw awel wan i'w chwythu ymaith oddiwrthym: nid oes dim yn fwy effeithiol i glymu dynion wrth eu henwad, ac i gynyrchu a chadw ynddynt ddyddordeb byw yn ei helyntion a'i symudiadau, na darllen ei gyhoeddiad misol. Teimla y dynion hyny *interest* personol ynddo yn ei holl amgylchiadau, ac y maent yn barod i gynnorthwyo pob achos perthynol iddo a osoder ger eu bron." Y mae llawer, oes llonaid yr ymadroddion uchod o wirionedd. A rhyngoch chwi a ninau, ddarllenwyr, ai nid gwir hefyd, bod yr Annibynwyr yn fwy difater i gefnogi eu llenyddiaeth enwadol, nac un enwad arall yn Nghymru? Ni all un enwad weithio ei ffordd yn mlaen yn y byd, heb ei lenyddiaeth briodol ei hun, ac os na chefnogir hi yn deilwng, iddo ef y bydd y golled a'r cywilydd. Cafodd y *Dysgedydd* yn Mr. Pugh, ohebydd ffyddlawn a galluog, a phleidiwr gwresog dros ei ledaeniad. Darllenid ei ysgrifau ef yn un o'r pethau cyntaf bob amser, adwaenid hwynt fel yr eiddo ef, dan ba enw bynag yr ymddangosent. Byddent yn wastad yn fyw o arabedd, yn llymion eu brathiadau, yn gryno a choethion eu cynwysiad, yn llawnion o synwyr, ac i'r pwynt a'r pwrpas i'r dim.

Yspaid blynyddoedd ei arosiad yn Bethel a Llandrillo, oedd

Digitized by Google

haf-dymor bywyd a gweinidogaeth Mr. Pugh. Yno y dringodd efe i'r safle uchel oedd iddo yn ngolwg ei frodyr, a'r eglwysi, a'r wlad, fel pregethwr, gweinidog, llenor, a diwygiwr. Yr oedd'yn mlodau eu ieuengctyd yn llawn bywiogrwydd a gweithgarwch corff a meddwl. Ymaflodd yn egniol yn ei orchwyl fel ysgolfeistr a gweinidog. Byddai ganddo ryw gyfarfod neu gilydd yn un o'r capelau dan ei ofal yn mron bob nos o'r wythnos, a llawer iawn o waith i'r traed i gerdded o'r naill i'r llall, yn Sabbothol ac wythnosol. Yr oedd ei holl feddwl ar ac yn ei waith, heb ofalu fawr iawn, llai nac a ddylasai, pa gydnabyddiaeth a dderbyniai efe am ei lafur. Sylwai yr hen oracl, Mr. Roberts, Tyddyn-y-felin, Llanuwchllyn, fod Pugh yn ddyn rhy ysprydol i'r byd daearol hwn; nad oedd yn gofalu yn agos cymaint ag a ddylasai am amgylchiadau bywyd.

Yn y tymor hwn, daeth allan fel diwygiwr; trwy ryw foddion, enillwyd ei sylw at y pwngc o gysylltu crefydd a'r Llywodraeth wladol. Nid oedd fawr iawn o son am y pwngc hwnw yn y dyddiau hyny yn Nghymru nac yn Lloegr. Yr oedd llygad eryraidd yr hen Forgan fawr o Fachynlleth, wedi craffu arno, a dygodd ef i sylw y cyhoedd yn ei *Hanes yr Eglwys*, a thrachefn mewn traethawd arweiniol i'w *Hanes Ymneillduaeth*, gan ddadleu yn egniol a grymus yn erbyn sefydliadau gwladol o grefydd. Tua'r un amser, neu wedi ymddangosiad y gwaith llafurus hwnw, ymddangosodd cyfres o lythyrau galluog iawn ar y mater yn y newyddiadur Seisnig, *The World*, gan ein cydwladwr, y diweddar Mr. H. Hughes, *Artist*. Tynodd y llythyrau hyny gryn sylw yn Lloegr ar y pryd, a mawr oedd yr ymholi yn mhlith yr Eglwyswyr ac Ymneillduwyr pwy allasai yr awdwr fod. Ond ychydig o dderbyniad oedd i athrawiaeth y llythyrau hyny hyd yn nod yn mysg Ymneillduwyr yn Lloegr. Edrychent ar awdwr y llythyrau fel un yn curo awyr, ac yn amcanu at nod rhy uchel i'w gyraeddyd.

Ymddangosodd y llythyrau hyny yn y *World*, os ydym yn cofio yn iawn, yn y fl. 1832 neu '33, a thua'r un amser daeth Mr. Pugh yntau allan i'r maes ar y pwngc. Yn 1833, sefydlodd gymdeithas "Gwyr ieuaingc Penllyn ac Edeyrnion," i ddysgu a thaenu egwyddorion Ymneillduaeth. Cyhoeddodd holwyddoreg gwerthfawr a phwrpasol i amcan y gymdeithas, dan yr enw *Catecism yr Ymneillduwr*. Prif nod y gymdeithas oedd dysgu a dangos y drwg a'r niwed o sefydliadau gwladol o

Digitized by Google

grefydd: eu bod yn wrthysgrythyrol, ac yn wrthwyneb i natur ysbrydol teyrnas Crist, &c. Mewn gair, yr un fath yn hollol o ran sylwedd ac amcan a dyben y *Liberation Society*. Yr oedd "Cymdeithas Penllyn ac Edeyrnion" wedi ei sefydlu o naw i ddeng mlynedd cyn bod son am Mr. Miall a'r *Liberation Society* yn y byd. Cynhelid cyfarfodydd y gymdeithas ar gylch yn ngwahanol gapelau yr Undeb. Y dull y dygid y cyfarfodydd hyny yn mlaen fyddai, weithiau egwyddori, bryd arall rhydd-ymddyddan, ac weithiau penodi rhyw nifer i draddodi areithiau byrion ar wahanol ganghenau y pwngc. Cynaliai'r gymdeithas hefyd gyfarfod blynyddol o'r holl ganghenau. Gwahoddwyd yr ysgrifenydd i draddodi pregeth ar y pwngc yn nghyfarfod blynyddol y gymdeithas, a gynelid yn Llandrillo yn 1835. Trefn y cyfarfod hwnw cyn belled ag y gallwn gofio yn awr, oedd cyfarfod i aelodau y gymdeithas yn y bore, cyfarfod areithio yn y prydnawn, a'r bregeth yn yr hwyr.

Yr oedd y genhedlaeth hono o wyr ieuaingc, (a henafgwyr hefyd) Penllyn ac Edeyrnion yn mhell o flaen eu cydoeswyr yn Nghymru, ac yn sicr ynte, yn Lloegr, mewn gwybodaeth yn egwyddorion Ymneillduaeth a chrefydd rydd. Yr oedd llawer o'r gwyr ieuaingc hyny yn alluog i ddadleu yn fedrus o blaid yr egwyddor wirfoddol, ac yn erbyn yr un orfodol mewn crefydd, a thros y priodoldeb a'r angenrheidrwydd o ddadgysylltu a dadwaddoli yr Eglwys Sefydledig. Athrawiaeth newydd a dyeithr iawn yn y dyddiau hyny. Goddefodd Mr. Pugh lawer iawn o erlidigaeth tafodau oddiwrth Eglwyswyr a rhai Ymneillduwyr hefyd, oblegid ei egwyddorion a'i "athrawiaethau amryw a dyeithr," fel yr edrychid arnynt yr amser hwnw. Gosodid ef allan fel dyn peryglus yn y wlad, yn derfysgwr yn erbyn y llywodraeth, yn gablwr urddas, &c., a daroganai rhai mai ei ddiwedd fyddai ei grogi. Pasiwyd penderfyniad mewn cymdeithasfa unwaith, i osod proffeswyr crefydd ar eu gocheliad, na byddai iddynt "Ymyryd a'r rhai anwastad" oedd yn llefaru yn erbyn "yr awdurdodau" a sefydliadau y wlad, &c., ac efe oedd y nod neillduol oedd mewn golwg.

Yn ystod ei dymor yn Bethel a Llandrillo, cyhoeddodd y llyfr rhagorol a elwir "Drych y Cymunwr," llyfr y byddai yn dda iawn pe gellid perswadio pob cymunwr o bob enwad trwy Gymru ei feddu a'i ddarllen, ni fedd ein iaith lyfryn mwy buddiol ac addysgiadol na'r llyfryn hwn; gobeithiwn y dygir

Digitized by Google

ail argraffiad o hono allan yn fuan. Cyhoeddodd hefyd draethodyn, dan y teitl *Hawl a chymwysder dyn i farnu drosto ei hun*, yr hwn sydd yn llawn o'r arabedd a'r gallu ymresymiadol yr oedd efe mor nodedig ynddynt; ac hefyd, *Catecism yr Ymneilldüwr*, yn yr hwn y gosodir allan egwyddorion Ymneillduaeth gyda'r eglurder mwyaf, ac amddiffynir hwynt gyda nerth ac effeithioldeb. Yr oedd Mr. Pugh wedi ei gynysgaethu a doniau a chymwysderau i fod yn athraw a dysgawdwr dynion i fesur helaeth iawn. Meddai ar ddealltwriaeth cyflym o chraff iawn, a gallu i osod ei feddwl allan yn y modd mwyaf cryno ac eglur. Disgynai ei frawddegau oddiwrtho fel *marbles* yn gnapiau crynion a thlysion a llawn bywyd. Y mae y *marbles* hyn, os goddefir y gair, yn werth eu casglu at eu gilydd; a'u cadw gyda'u gilydd, i'r oes hon a'r oesau a ddeuant, a hyderwn y bydd genym nifer dda o honynt i'w cyfleu mewn rhan arall o'r cofiant hwn.

Treiliodd un mlynedd ar ddeg o fywyd llafurus iawn, defnyddiol a chysurus iawn yn nghylch eang ei weinidogaeth yn Llandrillo; yr oedd yn hoff iawn o bobl ei ofal yn y gwahanol ganghenau, a hwythau yn hoff iawn o hono yntau. Yr oedd y bobl yn mhob lle yn adnabod ei fawr werth fel gweinidog a dysgawdwr, derbynient ef i'w tai, a pharchent ef fel angel Duw: byddai ymryson am dano i'w groesawi a'i letya yn mhob man yr elai ar ei ymweliadau; nid oedd perygl yn y byd y buasai raid iddo byth ddyoddef yn ei gylla tra byddai yno, ond nid oedd y dyn oddiallan—y cefn, hwyrach, mor ddyogel, ond ni bu un diffyg ar hwnw chwaith, er mai ychydig a dderbyniai y llogell tuag at gyflawni ei angenrheidiau. Yr oedd bob amser yn gryno a gweddus ei drwsiad, ac er yr ystyrid ef, fel y sylwyd o'r blaen, braidd yn ddiofal a diddarbod yn y pethau a berthynent i fywyd a bywioliaeth. Yr oedd yn bur ofalus i ymgadw rhag bod yn nyled neb o ddim.

Yr oedd Mr. Pugh yn y blynyddoedd hyny, wedi iddo roi i fyny gadw ysgol ddyddiol yn neillduol, yn llafurio llawer iawn o'r tu allan i derfynau maes ei lafur gweinidogaethol. Anaml y byddai yn absenol o gyfarfodydd chwarterol siroedd Dinbych a Fflint, na byth yn absenol, os na ddigwyddai rhyw rwystr anorfodol, o gyfarfodydd ei sir ei hun, Meirionydd. Rhyfedd fel y mae "dull y byd hwn yn myned heibio," yn mhob ystyr. Y mae dull a defod cynal cyfarfodydd pregethu yn wahanol iawn y dyddiau hyn ragor oeddynt y dyddiau hyny. Ni feddyliai yr eglwysi am wahodd neb yn neillduol i'w cyf-



Digitized by Google

arfodydd, neu am dalu ond y nesaf peth i ddim tuag at draul y gweinidogion a ddeuent i'w gwasanaethu; ac ni ddisgwyliai y gweinidogion hwythau am wahoddiad, nac am ddim teilwng o'r enw tal am eu hamser a'u llafur; etto, anaml iawn y digwyddai cyfarfod yn un man, na byddai yno gyflawnder o weinidogion i'w gynnal. Yr oedd y profiad o "Mor ddaionus a hyfryd oedd cyfarfod o frodyr yn nghyd," yn ddigon o gymelliad i bob un a allai i fyned i bob cyfarfod y byddai alluadwy iddo. Disgwylid yn arbenig ar Williams o'r Wern, i fod yn mhob un, ac anaml iawn y siomid y disgwyliad hwnw; a mawr oedd awydd ei frodyr, yn gystal a'r eglwysi a'r gwrandawyr yn gyffredinol, am ei glywed yn pregethu, a mawr fyddai y siomedigaeth pan ddigwyddai iddo fod yn absenol. Pa beth bynag a enillwyd drwy newid yr hen ddull, am y drefn bresenol o ddewis a gwahodd tri neu bedwar o weinidogion i gynnal cyfarfod, fe gollwyd llawer o bethau y mae gwir golled am danynt o'n plith. Gwahoddir, yn fynychaf, frodyr dyeithr o bell ffordd, i gynal cyfarfodydd; ac esgeulusir brodyr cyfagos, ac ni welir un o honynt hwy ond anfynych yn bresenol, ac y mae yn ammheus genym pe deuai un o'r prophwydi neu o'r apostolion gynt i bregethu mewn cyfarfod, a ddeuai y gweinidogion agosaf i'r lle yno i'w wrando. Adwaenai'r ysgrifenydd weinidog a ddigwyddasai fod am gryn dymor heb gael cyfleustra i wrando Mr. Williams o'r Wern yn pregethu, yr hwn wedi cael ar ddeall fod cyfarfod i gael ei gynnal yn Nghonwy, ac y disgwylid Mr. Williams iddo, a aeth ar ei draed ddeunaw milldir o ffordd er mwyn cael ei glywed, rhag ofn na chawsai hwyrach byth gyfleusdra drachefn; a byth ni anghofiai, meddai, y mwynhad a brofasai yn yr oedfa hono; y testyn oedd, "Pe buasem ni yn nyddiau ein tadau, ni buasem gyfranogion a hwy yn ngwaed y proffwydi." Maddeued darllenwyr y dyddiau hyn i ni am wyro fel yma oddiar ein llwybr i groniclo cymaint a hynyna o hen adgofion y dyddiau gynt: etto, ni fynwn haeru fod "y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn," ond er hyny, ar y cyfan, yr oeddynt yn well *genym* ni er eu holl ddiffygion.

Yr oedd Mr. Pugh yn deneu, eiddil, a gwanaidd o gorff, yn y tymor hwn o'i oes; dywedai yn fynych mai cyngor meddygol Paul i Timotheus, "Arfer ychydig win," oedd y goreu a'r mwyaf cyfaddas iddo ef o'r un a allasai byth gael, pe buasai ganddo fodd i'w ddilyn, yr oedd *receipt* yr Apostol, meddai, yn rhy gostus iddo: canys yr oedd mynych wendid yn

Digitized by Google

ei logell, yn gystal ag yn ei gyfansoddiad. Oddiar yr ymdeimlad o wendid a llesgedd ei gyfansoddiad, yr oedd y llafur gofynol i lenwi dyledswyddau cylch eang ei weinidogaeth yn peri iddo feddwl yn aml mai ei ddyledswydd fuasai symud i gylch llai, pan agorai drws o'i flaen, er mor galed fuasai iddo ymadael a chyfeillion a garai mor bur.

Un o'r blynyddau diweddaf iddo yn Llandrillo, aeth gyda'i gyfaill, y Parch. M. Jones, Llanuwchllyn, ar daith trwy ranau o'r Deheudir. Yr oedd ar hen eglwys gref, luosog, a pharchus Henllan, sir Gaerfyrddin, angen am wr ieuangc yn gynnorthwywr i'w hybarch weinidog, y Parch. Mr. Lloyd, yr hwn oedd yn wan a methedig. Wedi gwrando Mr. Pugh yn pregethu, ymgynghorodd lluaws o'r brodyr a'u gilydd, ac a'u gweinidog, yn ei gylch, ac yr oeddynt oll yn awyddus iawn am ei gael yno, od oedd modd. Penderfynasant ymgynghori yn gyntaf a'r Parch. M. Jones, ond ni chawsant fawr o gefnogaeth ganddo ef, gan na fynasai ar un cyfrif golli Mr. Pugh o'r Gogledd ac o sir Feirionydd yn neillduol. Teimlodd Mr. Pugh beth anfoddlonrwydd yn y tro hwnw. Yr oedd ardal Henllan, a chymeriad uchel yr eglwys yno, ar gyfrif ei gwybodaeth, ei heddychlonrwydd, a'i chrefyddolrwydd wedi enill ei serch yn fawr; a phe cawsai alwad y mae yn ddiau genym yr ufuddhasai iddi.

Cyn pen hir, daeth ef a Mr. Jones ar dro trwy sir Fflint. Yr oedd yr ysgrifenydd wedi derbyn galwad oddiwrth yr eglwys yn Ninbych y pryd hwnw, ac wedi cydsynio a hi. Gofynodd i Mr. Pugh, a fuasai efe yn derbyn galwad o Fostyn, ond ni chafodd un ateb penderfynol ganddo y pryd hwnw.

Caiff byrnodion a ysgrifenodd efe ei hun, derfynu y bennod hon o hanes ei fywyd yn Llandrillo.

"Tymor fy arosiad yn y lle hwn oedd o Mai 1826 hyd Mai 1837, ystod o un mlynedd ar ddeg. O fewn cylch y blynyddau hyny, adeiladwyd pedwar o gapeli, sef 1, Llandrillo. 2, Rhydywernen, lle y buasai pregethu er's llawer o flynyddau cyn i mi ddyfod i'r ardal. 3, Llandderfel; a'r 4, Soar. Myfi a ddechreuodd yr achosion yn y ddau olaf. Yn nghanol llawer o anhawsderau hefyd, dechreuais achos yn Nghorwen, mewn llofft perthynol i dafarndy, a ffurfiais eglwys yno; yr oedd yno olwg obeithiol am gynnulleidfa. Llafuriais yno am ddeng mlynedd. Fynychaf, pregethwn yn Soar y bore Sabboth, Corwen am ddau, a Llandrillo am chwech; yr hwyr, pregethu dair gwaith, a cherdded uwchlaw ugain milldir. Wedi i mi symud i Fostyn yr adeiladwyd y capel yn Nghorwen.

"Codwyd pump o wyr ieuaingc i'r weinidogaeth o'r eglwysi oeddynt dan fy ngofal. Sef,

Digitized by Google

1. William Jones, diweddar o Hawen.
2. Robert Ellis, yn awr o'r Brithdir.
3. John Parry, gynt o'r Wern, a fu farw yn America.
4. John Griffith, diweddar o Rhydywernen.
5. Robert Fairclough, gynt o Ffestiniog, bu farw."

Dodwn yma ei gyffes o'i ffydd, ar ei ordeiniad yn Llandrillo, Gorph. 3ydd, 1827, yr hon a gafwyd yn mysg ei bapurau.

"I. Pa beth yw eich golwg arnoch eich hun, a'ch teimladau fel Cristion?

"Ateb. Ystyriaf fy hun yn sefyll yn yr amgylchiad pwysfawrocaf a'm cyfarfu erioed. Er nad wyf ond ieuangc o ran oed, etto cyfarfyddais ag amrywiol amgylchiadau ar wahanol amserau o'm bywyd a ystyrid genyf o bwys mawr; ond gorfodir fi yn awr i dystio ger eich bron, a cher bron y Barnwr cyfiawn, na theimlais yr un amgylchiad mor bwysig a'r un yr ydwyf ynddo yn awr.

"Yr wyf er's rhai blynyddau bellach ar enw Crist trwy ymuniad gwirfoddol a'r eglwys mewn proffes gyhoeddus o hono.* Nis gallaf briodoli fy ysgogiad cyntaf at grefydd i unrhyw odfa neu amgylchiad penodol; ond meddyliaf mai yn raddol iawn a thrwy amryw foddion y dygwyd hyny oddiamgylch. Bernais yn nechreuad fy ngyrfa grefyddol mai gwasanaeth Duw oedd y mwyaf pwysig, gwerthfawr, ac anrhydeddus, ac y mae yr ychydig flynyddau a dreiliais gyda chrefydd, wedi cadarnhau a sefydlu y farn hon. Gallaf dystio trwy brofiad bod "ei ffyrdd hi yn ffyrdd hyfrydwch;" ac yr wyf yn gweled beunydd fod genyf achos mawr i ddiolch i'r Arglwydd am ei ddaioni tuag ataf, yn fy nhywys ar y cyntaf i ymarfer a phethau crefydd, ac yn fy nghynal gyda hwynt hyd heddyw. Meddyliaf mai prif ddymuniad fy enaid yn bresenol ydyw, ar i mi gael fy nghynal i *fyw* fel Cristion, i *lafurio* fel Cristion, i *gynyddu* fel Cristion, i fod yn *ddefnyddiol* fel Cristion, ac yn y diwedd i *farw* fel Cristion.

"II. *Pa beth yw eich golwg ar waith y weinidogaeth.*

"Ateb. Ystyriaf bod sefyllfa pob Cristion yn un pwysig, a bod angen gwastadol arno am ysbryd gwyliadwriaeth i reoli ei holl dymer a'i fuchedd mewn ufudd-dod i ewyllys Crist. Ond barnaf bod sefyllfa gweinidog yr efengyl yn llawer iawn mwy pwysig, yn gymaint a'i fod yn gyhoeddus, dylanwadol a chyfrifol. Pan ystyriwyf bwysfawredd y swydd, y llafur a berthyn iddi, y profedigaethau a ymesyd arni, a phan ystyriaf fy llesgedd fy hunan, y mae y naill ystyriaeth gyda'r llall yn peri i mi waeddi, 'Arglwydd pwy sydd ddigonol i'r pethau

* Yn mysg y byr nodion a ysgrifenodd am ei fywyd boreuol, cawsom yr un a ganlyn, yn Saesneg:—"The first serious impression of religion that I have any recollection of, took place when I was about twelve years old. Doubtless my feelings had often been excited on the subject before, when attending the ministrations of the gospel, but now the matter became more home to my heart, and I felt it to be something personal. I was then on a visit to my paternal aunt, Susanah Watkins, at Aberystwith. She placed in my hand a Welsh translation of *Pilgrim's Progress*, and I cannot describe the interest I felt in reading it. I read it over two or three times, and the impressions were never altogether effaced. The fact is, I felt an intense longing to be a Christian."

Digitized by Google

hyn?' a bron i ddywedyd mewn digalondid, 'Pwy ydwyf fi, fel yr awn at Pharaoh, ac y dygwn blant Israel allan o'r Aifft?' O'r tu arall, pan ystyriwyf y cyflawnder gras sydd yn Nuw, ei anfeidrol barodrwydd i'w gyfranu, a phan ystyriwyf hefyd mai dylod pawb hyd eithaf eu dawn a'u gallu ydyw dywedyd yn dda am Grist, ac anog dynion ato, gwelaf yn eglur mai fy nyledswydd ydyw ymwroli ac ymnerthu yn y 'gras sydd yn Nghrist Iesu.' Dymunwn ar i mi gael bod yn fwy *yn* y byd o ran fy llafur, ac yn fwy *o'r* byd o ran fy myfyrdod. Chwenychwn ar fod fy ymarweddiad yn fwy ar y ddaear, o ran serch at eneidiau dynion, ac yn fwy yn y nefoedd o ran serch tuag at ogoniant Crist Iesu fy Arglwydd.

"III. *Paham yr ydych am gyflawni eich gweinidogaeth yn mhlith yr Ymneillduwyr Cynnulleidfaol?*

"Ateb. Nid am fy mod yn meddwl eu bod hwy yn rhagori mewn duwioldeb a llafur ar enwadau eraill, ond am y barnaf fod eu trefn a'u llywodraeth eglwysig yn fwy ysgrythyrol, ac athrawiaeth yr efengyl yn cael ei chyhoeddi yn fwy cyflawn yn eu plith hwy. Barnaf fod niwed mawr yn deilliaw oddiwrth athrawiaethu unochrog, sef Penarglwyddiaeth heb lywodraeth, neu lywodraeth heb Benarglwyddiaeth. Meddyliaf fod yr Ymneillduwyr Cynnulleidfaol yn ymgadw rhag cyhoeddi gras er dinystr i ddyledswydd, a rhag cyhoeddi dyledswydd er dinystr i ras, ond y naill mewn cysylltiad a chysondeb a'r llall.

"IV. *Pa beth ydych yn ei feddwl osod allan fel sylwedd eich gweinidogaeth?*

"Cyn y gallaf ateb hyn, rhaid i mi draethu fy nghred:

"1. Credaf yn modolaeth un gwir tragwyddol anfeidrol Dduw; Creawdwr, Cynaliwr, a Llywodraethwr pawb a phob peth.

"2. Credaf bod yr Ysgrythyrau, yr Hen Destament a'r Newydd, yn wir air Duw, wedi eu hysgrifenu gan ddynion santaidd o dan ysbrydoliaeth Duw.

"3. Credaf yn Nuw Dad, Mab, ac Ysbryd. Nid wyf yn cymeryd arnaf amgyffred y dirgelwch, ond yr wyf yn ei dderbyn yn ostyngedig fel gwirionedd datguddiedig.

"4. Credaf fod yr Arglwydd wedi creu dyn ar y cyntaf yn berffaith, santaidd, a dedwydd, iddo ei osod yn y sefyllfa hono, fel cynrychiolydd ei hiliogaeth. Troseddodd Adda, ac mewn canlyniad i'r trosedd hwnw, fod pawb yn dyfod i'r byd yn amddifad o bob daioni; ac i'r trosedd cyntaf hwnw, osod terfyn ar oruchwyliaeth, yr hyn a elwir yn gyfamod gweithredoedd.

"5. Credaf fod Duw er tragwyddoldeb wedi trefnu ffordd i adferu a chadw dyn; bod Iesu Grist, Mab Duw, wedi ymddangos yn y cnawd, wedi dyoddef, marw, adgyfodi, ac esgyn i'r nef i eiriol dros droseddwyr.

"6. Credaf mai marwolaeth Iesu Grist ydyw sail a chyfrwng gweinyddiad pob trugaredd i bechaduriaid, ac iachawdwriaeth y saint.

"7. Credaf mai bedydd a Swper yr Arglwydd ydyw y ddwy ordinhad i'w gweinyddu o dan yr efengyl, y naill yn ordinhad oruchwyliaethol yn cynwys pawb, a'r llall yn ordinhad eglwysig, i saint yn unig.

"8. Credaf hefyd yn adgyfodiad y meirw, a sefyllfa ddigyfnewid y byd a ddaw.

Digitized by Google

"Dyna'n fyr y gwirioneddau a fwriadaf eu traethu. Ymdrechaf gadw yn fy ngolwg brif athrawiaethau yr efengyl, 'Felly y carodd Duw y byd,' &c. 'Yr hwn sydd yn credu ynddo ef,' &c., &c.

"V. *A ydych yn ymroddi i'r bobl hyn yn ol eu galwad?*

"Ateb. Barnaf mai fy nyledswydd ydyw cydsynio a'u galwad; a dymunwn ras yn y swydd, i 'gadw cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion yn wastadol.' Amen."

Y mae ei gyffes uchod yn dwyn delw holl gyfansoddiadau Mr. Pugh, *byr*, *cryno*, *cynwysfawr*. Teimlwn rai prydiau, ar rai pethau, ei fod yn hytrach yn *rhy* fyr a chynil—y chwenychasem iddo helaethu ychydig arnynt. Tystiolaethai yr eglwysi dan ei ofal ddarfod iddo gyflawni ei weinidogaeth tra bu yn eu plith, yn ysbryd y gyffes dda a dystiolaethodd, pan yn ymaflyd ynddi, fel y tystia y llythyr canlynol oddiwrthynt wedi iddo roddi eu gofal i fyny, cyn symud i Fostyn:—

"Anwyl Frawd,

"Yr ydym ni, swyddogion yr Eglwysi Cynnulleidfaol yn Llandrillo, Bethel, Soar, Rhydywernen, Llandderfel, a Chorwen, drosom ein hunain yn bersonol, a thros yr eglwysi y perthynwn iddynt, yn dymuno traethu wrthych y dwys alar a deimlasom yn wyneb yr hysbysiad a gawsom am eich bwriad i ymadael oddiwrthym, wedi bod am ysbaid un mlynedd ar ddeg yn llafurio yn ein plith, ac yn y cyfryw amser wedi bod yn ffyddlon, gwrol, a gwresog i daenu ac amddiffyn egwyddorion teyrnas Crist, rhyddid, cariad, ac ewyllys da, ac wedi llwyddo i raddau helaeth i fagu a meithrin egwyddorion yn meddyliau llawer sydd yn teimlo eu colled ar eich ol, fel y mae yr achos yn awr yn ein plith wedi ei sefydlu ar egwyddorion yn hytrach nag ar fympwy a thraddodiad.

"Wrth ystyried hyn mewn cysylltiad â phethau eraill, nis gallwn lai na gofidio o herwydd eich ymadawiad, ac ystyriwn ein hunain dan rwymau i roddi y dystiolaeth hon o'n parch tuag atoch, yn nghyd a'n cymeradwyaeth a honoch fel Cristion, ac fel gweinidog yr efengyl. Hyderwn y bydd ein colled ni yn enill i'n brodyr a'n chwiorydd yn Mostyn, ac y bydd eich llafur o fawr fendith iddynt. Nyni a deimlwn dros eich cysur, a lawenhawn yn eich llwyddiant, ac a weddiwn am eich diogelwch.

Ebrill 1837.

| | |
|---|---|
| THOMAS DAVIES,<br>WILLIAM ROBERTS. | Llandrillo. |
| DAVID OWENS,<br>JOHN JONES,<br>DAVID DAVIES,<br>JOHN EDWARDS. | Bethel a Soar. |
| OWEN MOSES,<br>JOHN GRIFFITHS. | Rhydywernen. |
| JOHN ROBERTS.<br>JOHN JONES,<br>JOSEPH JONES. | Llandderfel, Corwen." |

Digitized by Google

# PENNOD III.

Derbyniodd Mr. Pugh yr alwad ganlynol oddiwrth yr Eglwys Gynnulleidfaol yn Mostyn, dyddiedig Rhagfyr 18ed, 1836:—

"Barchedig Frawd,

"Yr ydym ni, aelodau yr Eglwys Gynnulleidfaol yn Heol Mostyn, o herwydd y byddwn yn fuan yn cael ein gadael yn amddifad o weinidog, gan ei fod yn symud oddiwrthym, ac wedi ymgynghori a'r Arglwydd, ac a'n gilydd, a chan eich bod yn symudol o'r man yr ydych, —wedi cyduno oll o unfryd i anfon yr alwad hon i chwi, i daer erfyn arnoch i ddyfod atom i weini yn ein mysg mewn pethau santaidd, ac i'n bugeilio a'n llywodraethu yn yr Arglwydd; gan obeithio, ac ymrwymo na chaiff dim o'n tu ni, mewn cyfraniadau, gweddiau, ac ymddygiad trosoch a thuag atoch, fod yn fyr er eich gwneuthur yn gysurus eich amgylchiadau a'ch teimladau yn ein plith.

"Arwyddwyd ar gais ac yn enw yr eglwys:

WILLIAM EDWARDS,<br>
EDWARD JONES,<br>
PIERCE JONES,<br>
JOHN JONES. } Diaconiaid."

## YR ATEB.

"*At yr Eglwys Gynnulleidfaol yn Heol Mostyn.*

"Anwyl Frodyr a Chwiorydd,

"Mewn atebiad i alwad a ysgrifenasoch ataf, wedi ei harwyddnodi gan William Edwards, Edward Jones, Pierce Jones, a John Jones, diaconiaid, yn enw, ac ar gais yr Eglwys Gynnulleidfaol yn Heol Mostyn, ac wedi ei dyddio y 18ed dydd o Ragfyr, 1836, yn erfyn arnaf i ddyfod atoch i weini yn eich mysg mewn pethau santaidd; yr wyf yn dymuno hysbysu fy mhenderfyniad i gydsynio a'ch cais, gan hyderu y bydd ein hundeb yn foddlon gan yr Arglwydd, yn lles a chysur i mi a chwithau, ac yn cael ei ddilyn gan arwyddion helaeth fod Pen mawr yr eglwys yn gwenu yn siriol arnom.

Ionawr 7fed, 1837. HUGH PUGH."

Symudodd yr ysgrifenydd i Ddinbych yn nechreu Chwefror 1837; a symudodd Mr. Pugh i Fostyn yn Mai yn yr un flwyddyn, ar ben ei unfed flwyddyn ar ddeg yn Llandrillo.

Yn fuan wedi ei symudiad i Fostyn, cynaliwyd cyfarfod yno ar achlysur ei sefydliad, yn yr hwn y gweinyddai Williams o'r Wern; Morgans o Fachynlleth, a Rees o Ddinbych. Pregethai un ar y *gweinidog da,* arall ar *eglwys dda,* a'r llall i'r gwrandawyr. Yr oedd yn bresenol amryw o frodyr cymydogaethol yn cynnorthwyo yn ngwasanaeth y cyfarfod.

Digitized by Google

Yr oedd colled eglwysi Edeyrnion, a chyfundeb sir Feirionydd, drwy symudiad Mr. Pugh, yn enill gwerthfawr i gyfundeb siroedd Dinbych a Fflint. Byddai ef yn bresenol yn nghyfarfodydd undebol y ddwy sir, pell ac agos; ac edrychid ato fel cynghorwr doeth ar bob achos a ddeuai dan ystyriaeth. Dewiswyd ef yn fuan i'r swydd o ysgrifenydd yr Undeb, dyledswyddau yr hon a gyflawnai yn effeithiol a ffyddlawn.

Yn mhen tair blynedd wedi ei symudiad i Fostyn, efe a ymbriododd a Miss Elizabeth Williams, merch henaf Mr. Thomas Williams, Ochr-y-gop, Newmarket, a chwaer i'r diweddar Barch. Edward Williams, a aeth yn genhadwr i Hankey, yn neheubarth Affrica. Yr oedd ef yn briod a Miss Roberts (yn ol ei henw morwynol) o'r Rosafawr ger Dinbych. Wedi rhai blynyddau o lafur ffyddlawn a llwyddianus ar ei faes cenhadol yn Affrica, gwaelodd iechyd Mr. Williams, a gorfu iddo ef a'i briod a'i ferch ddychwelyd yn ol adref; ond ni bu hyny er adferiad ei iechyd iddo, fel y gobeithid; parhaodd i waelu a nychu yn y darfodedigaeth, a bu farw mewn tangnefedd a hyder, yn Llundain, ar y 15fed o Fehefin, 1844. Ymddangosodd cofiant iddo gan Mr. Pugh yn y *Dysgedydd.*

Cafodd Mr. Pugh yn ei briod un a fu iddo megis, "ewig gariadus, neu iyrches hawddgar." Ganwyd iddynt dri o feibion a merch, yr hon sydd briod a'r Parch. J. M. Thomas, Wyddgrug.

Ni pharhaodd y briodas ond wyth mlynedd; yn mysg ei bapurau cawsom y byrnodiad canlynol am farwolaeth a chladdedigaeth Mrs. Pugh:—"Bu farw fy anwyl wraig ar y 26ain o Fehefin, 1848, (20 munud wedi tri yn y bore) yn yr 28 flwyddyn o'i hoedran; a chladdwyd hi y dydd Mawrth canlynol, y 29ain, yn mynwent capel Sion, ger Treffynon. Cymerasid hi yn glaf dydd Llun y Sulgwyn; ar fwrdd yr agerles a redai rhwng Mostyn a Liverpool, lle yr oeddwn i a hithau yn myned ar ymweliad a chyfeillion. Dychwelasom yn ol adref brydnawn y dydd hwnw, trymhaodd ei chystudd yn brysur, a gorphenodd ei waith arni yn fuan. Cyflawnwyd gwasanaeth y claddedigaeth fel y canlyn: yn y capel cyn cychwyn gweddiodd y brawd Ellis Ellis, a thraddododd y Parch. Lewis Everett anerchiad byr, a therfynodd y brawd Robert Roberts drwy weddi. Wedi cyrhaedd Sion, gweddiodd y diweddar Mr. John Jones, Castle Street, Liverpool, a phregethodd y Parch. Ellis Hughes, Treffynon, (y pryd hwnw). Wrth y bedd, gweinyddodd y Parch. D. Price, Dinbych, yn

Digitized by Google

awr yn America, a gweddiodd y diweddar Barch. T. Pierce, Liverpool. Yr oedd tyrfa fawr o bobl wedi dyfod yn nghyd ar yr achlysur."

Yr oedd marwolaeth ei anwyl briod yn ergyd trwm iawn i'w deimladau, ond dyoddefodd y brofedigaeth chwerwaf hono, fel holl brofedigaethau ei fywyd, yn ddistaw, tawel, a dirwgnach. Credwn nad aeth nemor i un erioed trwy brofedigaethau a chystuddiau bywyd yn fwy tawel a diachwyn nag efe, er ei fod yn un o'r teimladau mwyaf tyner. Yr oedd bellach wedi ei adael yn weddw, gyda phedwar o blant ieuaingc amddifaid i ofalu am danynt a'u dwyn i fyny.

Yn mhen ychydig fisoedd ar ol ei briodi, cafodd Mr. Pugh gystudd maith a thrwm iawn (*typhus fever*). "Bu diddarbod am ei einioes," am lawer o wythnosau. Yn ystod y cystudd hwn ganwyd Hugh, ei fab hynaf. Cymerasid y fam ychydig ddyddiau cyn ei thymp adref i dy ei thad a'i mam, Ochr-y-gop. Cychwynai tuag yno mewn galar ac wylofain; heb brin obeithio cael ei weled ef mwy; nid oedd efe yn ymwybodol o ddim ar y pryd: holai yn bryderus iawn am dani bob tro y dychwelai ei synwyr a'i ymsyniaeth ato. Un tro pan aethum i edrych am dano, gofynai i mi ddywedyd y gwir wrtho, a oedd ei anwyl wraig yn fyw, yr oedd rhywbeth yn dyweyd ynddo ei bod hi wedi marw, ar enedigaeth ei baban, meddai, ni wyddai pa bryd, nac yn mha le. Wedi i mi sicrhau iddo ei bod hi a'i baban yn dyfod rhagddynt yn rhagorol, a'm bod yn gobeithio y cai efe fyw i'w gweled a hyny yn fuan; y deuai adref o Ochr-y-gop mor fuan ag y caniatai y meddyg, &c., efe a siriolodd yn fawr. "O ïe, yn Ochr-y-gop, y mae hi onide? 'rwy'n cofio i rywun ddyweyd hyny wrthyf o'r blaen. Wel, wel, hwyrach y caf ei gweled hi etto, ond ewyllys yr Arglwydd a wneler. Yr wyf yn meddwl er fy holl anmherffeithrwydd, na fu fy llafur yn ngwinllan fy Arglwydd yn gwbl ofer drwy ei fendith Ef arno. Y mae hyny yn gweini rhywfaint o gysur i mi pan fyddwyf yn cael ychydig seibiant yn y cystudd yma; ond buasai yn dywyll ac yn dlawd iawn arnaf heddyw, pe na buasai genyf ddim ond fy nefnyddioldeb yn sylfaen i bwyso arni—ond y mae sylfaen arall, a hono wedi ei gosod gan Dduw: fe ddeil hono, ac ni frysia yr hwn a gredo."

Ond yn nyfnder ei gystudd byddai ei arabedd yn fflachio allan ar brydiau, nes peri i bawb o'i amgylch dori allan i chwerthin er eu gwaethaf, rhoddwn un engraifft. Yr oedd efe bob amser yn wrthwynebwr mawr i "gyfraith y crogi"

Digitized by Google

fel y'i gelwid ar lafar gwlad; ychydig cyn yr amser y cymerwyd ef yn glaf, yr oedd troseddwr yn mrawdlys Ruthin wedi ei gondemnio i farw. Ysgrifenodd Mr. Pugh at Ardalydd Normanby, Ysgrifenydd Cartrefol y Llywodraeth, i erfyn am arbediad bywyd y condemniedig, ar gyfrif rhyw bethau a ymddangosent yn ddiffygiol yn y dystiolaeth i'w erbyn, gan amlygu ei farn am y gyfraith crogi ei hun. Derbyniodd atebiad oddiwrth ei arglwyddiaeth, yn yr hwn ni roddid un gobaith am arbediad bywyd y troseddwr. Ysgrifenodd Mr. Pugh drachefn, a chafodd ateb i'r llythyr hwnw, yn cynwys rhesymau yr Ysgrifenydd cartrefol dros wrthod trugaredd i'r euog. Yr oedd yn amlwg wrth y llythyrau bod Ardalydd Normanby wedi deall a theimlo fod ei ohebydd yn ddyn o feddwl a gallu uwchlaw y cyffredin. Canys nid yn yr *off hand way* arferol yr oedd yn ei ateb yn ei lythyrau, ond fel un yn ymresymu ag un o'i gydradd. Fodd bynag, cymerwyd y troseddwr yn glaf iawn yn y carchar, a gorfuwyd oedi y dienyddiad; tra yr oedd yn y cyflwr hwnw, anfonwyd deiseb yn erfyn arbediad, neu gyfnewidiad cosb iddo, ond yn aneffeithiol; fodd bynag, bu y truan farw yn y carchar, a diangodd y dienydd yn y ffordd hono. Aeth yr ysgrifenydd a'i gyfaill, y diweddar Barch. Richard Jones, o Ruthin, un diwrnod yn y tymor hwnw i ymweled â Mr. Pugh, yr oedd efe yn glaf iawn, ond yr oedd ei feddyg yn rhyw obeithio y deuai trwyddi. Buom hir enyd wrth ei wely cyn iddo wneyd un sylw o honom. Dadebrodd ychydig yn y man, edrychodd arnom, "Ai chwi sydd yna?" gofynai yn ddistaw, gan ychwanegu, "Y mae yn dda iawn genyf eich gweled." Yn mhen enyd drachefn, gofynai i Mr. R. Jones, "Sut y mae y dyn truan acw sy'n y carchar?" "Y mae o'n sal iawn," oedd yr ateb. "A oes dim gobaith yr arbedir ei fywyd?" "Nac oes, dim," ebe Jones. Ocheneidiodd yntau, a bu yn ddistaw hir enyd. Yr oedd dyn hynod o derfysgwr eglwysig yn ——— a barasai gryn flinder yn y lle, ac i ninau. "Jones," galwai Mr. Pugh, "A ellit ti ddim perswadio'r llywodraeth i grogi hwn a hwn? (gan enwi'r terfysgwr) yn lle'r truan, y mae o'n iach ac yn gry'." Bu raid i ni ein dau fyned allan o'r ystafell i chwerthin. Aeth yr ysgrifenydd trosodd o Fostyn i Liverpool y prydnawn hwnw, ac yn mlaen i Lundain dranoeth. Adroddai y chwedl ar un o heolydd y ddinas, wrth y diweddar Barch. Caleb Morris; yr hwn a safai yn syn ddistaw am gryn yspaid; yr oedd yr olwg fwyaf difrifol ar ei wedd a welsom erioed; yn nghanol y dif-

Digitized by Google

rifoldeb mawr hwnw, torodd llifeiriant o chwerthin arno na allasai yn ei fyw ei atal; yr oedd arno ofn yn ei galon i rywun oedd yn ei adnabod ddigwydd ei weled yn y cyflwr chwerthinllyd hwnw ar yr heol.

Yn 1839—40, bu adfywiad nerthol iawn ar grefydd yn Ngogledd Cymru yn neillduol; dechreuodd yn Llanuwchllyn ar nos Sabboth, pan oedd y Parch. W. Chidlaw o America, yr hwn oedd wedi dyfod trosodd ar ymweliad a'r wlad hon o ganol tân mawr o adfywiad yn ei wlad ei hun. Cerddodd yr adfywiad hwnw yn gyflym trwy y wlad, ac ychwanegwyd nifer mawr at yr eglwysi yn mhob man. Yr oedd tân yr adfywiad wedi dechreu enyn yn Mostyn, ychydig cyn adeg cyfarfod blynyddol y lle. Aeth Mr. Chidlaw i'r cyfarfod, a chyfarfod rhyfedd a fu hwnw; yr oedd y "cedyrn galon, a'r rhai pell oddiwrth gyfiawnder," yn toddi fel cwyr yn ngwres y weinidogaeth; ychwanegwyd llawer iawn at yr eglwys, yn y cyfarfod ac wedi hyny. Derbyniodd Mr. Pugh raddau helaeth o ysbryd yr adfywiad; yr oedd ei anerchiadau i wrandawyr yr efengyl, yn mhob cyfarfod yn y dyddiau hyny, fel symbylau ac fel hoelion wedi eu sicrhau, megys gan feistr y gynnulleidfa. Teimlid ei fod megys yn brathu tryfer adfachog yn nghydwybodau dynion. Nid cyflegrwr yn tanio magnelau mawrion ar gestyll y gelyn oedd efe, ond cleddyfwr distaw, yn trywanu i'r galon.

Rywbryd yn y tymor hwnw, aeth yr ysgrifenydd gyda'i gyfaill Jones o Ruthin, a Mr. Pugh, a Mr. E. Hughes, Treffynon, bob yn ddau, ar ymweliad a lluaws o eglwysi yn siroedd Dinbych a Fflint, dros Gymdeithas Genhadol Llundain. Yr oeddynt yn cyfarfod ill pedwar ar ddiwedd eu taith yn y Wyddgrug. Cynaliwyd yno gyfarfod Cenhadol yr hwyr hwnw. Ar ddiwedd y cyfarfod, hysbysodd y gweinidog, y diweddar Hybarch Isaac Harris, y cynelid cyfarfod gweddi am saith o'r gloch y bore dranoeth, cyn i'r gweinidogion dyeithr adael y dref, ac anogwyd y cyfeillion i ymdrechu dyfod i'r cyfarfod. Daeth lluaws yn nghyd; ni buom erioed na chyn nac wedi hyny yn y fath gyfarfod gweddi a hwnw; yr oedd calonau pawb oedd yn bresenol yn ymdywallt fel dwfr ger bron yr Arglwydd, ni pharhaodd ond ychydig gydag awr. Aeth pawb allan mewn dagrau a llawenydd mawr. Sylwai un chwaer wrth un o'r gweinidogion dyeithr, "Wel, tybed na chawn ninau yn y Wyddgrug sych a chaled yma, gawod o ddiwygiad ar ol hyn." "Cewch," ebai yntau, "a chwi a'i cewch y Sabboth

Digitized by Google

nesaf yn ddigon sicr, os parhewch i'w geisio a disgwyl am dano yn yr ysbryd yr oeddych ynddo y bore heddyw." Y Sabboth a ddaeth, ond nid oedd cwmwl cymaint a chledr llaw gwr i'w weled yn y bore na'r prydnawn. Yr oedd y gweinidog mewn pryder gwasgedig; yr oedd yn methu pregethu mor hwylus ac arferol yr hwyr hwnw. Odfa dywyll y cyfrifid yr odfa hono. Yr oedd y gobeithion a'r disgwyliadau yn troi yn siomedigaeth. Pan oedd Mr. Harris yn terfynu ei bregeth, disgynodd megys braw distaw yn ddisymwth ar y gynnulleidfa; aeth yn ddistawrwydd fel y bedd yno. Ni chlywid na llef nac ochenaid, ond yr oedd rhyw agwedd ryfedd ar wynebau y bobl. Ar ol terfynu yr odfa, eisteddai pawb yn eu lle, fel pe buasent wedi eu hoelio yno. Dechreuodd ambell un ymlusgo allan fel yn lladradaidd yn y man; ond arosodd llawer ar ol, mewn pryder mawr yn nghylch eu cyflwr. Amryw o honynt yn ddynion na theimlasent ddim o'r fath beth ar eu meddyliau erioed o'r blaen.

Taflodd yr adfywiad aden amddiffynol dros yr achos yn mysg yr Annibynwyr yn neillduol; yn eu plith hwy y dechreuodd, ac aeth yn mlaen am dymor yn eu mysg hwy yn benaf cyn iddo dori allan yn mhlith yr enwadau eraill.

Rhydd y Parch. Owen Thomas yn ei gofiant dyddorol am y diweddar Barch. J. Jones, Talysarn, olwg ar yr helyntion yn nghylch pyngciau neillduol o athrawiaeth y daethai y Trefnyddion Calfinaidd trwyddynt yn eu plith eu hunain yn y dyddiau hyny, mor belled ag yr oeddynt yn dal perthynas a Mr. Jones yn benaf. Gan fod ychydig anghydwelediad, yn hytrach, o gamgymeriad, yn nghylch pwngc o athrawiaeth a fu rhwng y ddau enwad—y Trefnyddion a'r Annibynwyr, yn yr amser hwnw, yn sefyll megys yn union ar lwybr ein cofiant hwn am Mr. Pugh, ni allwn fyned heibio iddo yn gwbl ddistaw, er, ar ryw gyfrif, y buasai yn fwy dymunol genym fyned "o'r tu arall heibio" heb gymeryd arnom ei weled, fel y gwnaeth yr offeiriad a'r Lefiad, â'r gwr a syrthiasai yn mysg lladron ar y ffordd. Ond yr oedd yr amgylchiadau hyny yn rhan o hanes grefyddol y cyfnod hwnw, yn Ngogledd Cymru yn neillduol, ac yn dal perthynas i ryw fesur a hanes gwrthddrych ein cofiant.

Achlysur cyntaf yr annghydfod hwnw, ydoedd pregeth ar Dat. xxii. 17.; gan ———, yr hon a draddodwyd mewn amryw leoedd tua diwedd y flwyddyn 1837 ac 1838. Sawriodd rhywrai gyfeiliornad mawr yn y bregeth—bod y pregethwr

Digitized by Google

yn gwadu person a gwaith yr Ysbryd Glan, &c. Traddodwyd y bregeth mewn manau yn Sir Fon yn haf-dymor 1838, a chludwyd chwedlau am dani i glustiau y Parch. John Elias; traddododd yntau bregeth ofnadwy mewn cyfeiriad penodol ati, mewn cyfarfod misol a gynhelid yn Gwalchmai, debygaf; ac aeth yn ddadleu mawr rhwng personau o'r ddau enwad, drwy yr holl Ynys. Anfonodd y gweinidogion Annibynol anerchiad caredig, o gyfarfod chwarterol, at gyfarfod misol y Trefnyddion, i geisio egluro nad oedd y peth yn bod fel y gosodid ef allan, ond bod y cyhuddiad wedi tarddu oddiar gamddealltwriaeth, neu ddrwg fwriad rhyw bersonau, ac i erfyn ar eu brodyr, y gweinidogion Trefnyddol, i anghefnogi taeniad cyhuddiad disail. Gwnaed rhyw sylw o'r anerchiad yn y cyfarfod misol, ond ni anfonwyd un ateb swyddogol iddo. Yn mlaen yr oedd y tân yn cerdded; ac aeth llawer o bobl Mon i edrych ar yr Annibynwyr yn gyfeiliornwyr arswydus, a theneuodd eu cynnulleidfaoedd yn fawr mewn amryw fanau, fel yr oedd y gweinidogion a'r eglwysi yn teimlo yn bryderus a digalon; ac yn nghanol y pryder a'r digalondid hwnw y torodd yr adfywiad allan yn yr Ynys, yr hwn a roddodd wedd hollol wahanol ar bethau yno mewn ychydig iawn o amser. Daeth y cynnulleidfaoedd yn llawnach nac y buasent er ys talm, os nad erioed, cyn hyny, ac ychwanegwyd nifer fawr at yr eglwysi.

Fodd bynag, cymerwyd y pwnc dan ymdriniaeth cyfarfod y pregethwyr a'r blaenoriaid yn Nghymdeithasfa y Trefnyddion, a gynhelid yn Bangor, yn mis Medi 1838, pan y gwnaed sylwadau cryfion mewn annghymeradwyaeth o'r athrawiaeth a dybid ei bod yn cael ei dal allan yn y bregeth, ond heb enwi y pregethwr, gan Mr. Elias, a rhai eraill. Yn ol yr adroddiad a gafodd yr ysgrifenydd gan un o'r gweinidogion oedd yn bresenol yn y cyfarfod hwnw, awgrymodd un neu ddau o'r brodyr yn gynil, y buasai yn ddoeth cymeryd pwyll i ymholi, er cael sicrwydd am wirionedd y cyhuddiad, cyn traethu barn arno; ond ni fynai Mr. Elias, yn neillduol, wrando ar hyny.

Yn nghyfarfod blynyddol yr Annibynwyr yn Ninbych, a gynhaliwyd yn mis Hydref y flwyddyn hono, galwodd Mr. Williams o'r Wern (Liverpool y pryd hwnw,) sylw y brodyr oedd yn bresenol at yr achos, a chynygiodd fod i'r bregeth oedd wedi achlysuro y blinder a'r dadleu gael ei chyhoeddi; nad oedd efe eto, wedi clywed y bregeth, ac felly, nad oedd ganddo ddim i'w ddyweyd mewn ffordd o amddiffyniad iddi,

Digitized by Google

na chondemniad arni. Cytunodd pawb â hyny: ac ymgymerodd Mr. Pugh â'r gorchwyl o ysgrifenu rhagdraeth iddi, yr hwn a gynwysai rai sylwadau llymdost iawn. Buasai yn dda gan awdwr y bregeth, a Mr. Pugh ei hun hefyd, wedi i bethau lonyddu, pe buasai llawer o lymdostedd y rhagdraeth wedi ei adael allan; ond yn ngwres poeth y dydd hwnw o daeru a dadleu, yr oedd y brofedigaeth yn rhy gref i'r ddwy ochr i allu llywodraethu eu tymherau a'u geiriau gyda'r cymedrolder a fuasai ddymunol. Yr oedd hyd y nod Mr. Williams o'r Wern ei hun—un o'r llareiddiaf o feibion dynion ei oes—er yn barnu fod fflangell y rhagdraeth ar y llymaf, "eto," meddai, "wedi i mi ddarllen y bregeth, a meddwl am y cyhuddiadau a ddygid i'w herbyn, yr wyf yn methu gweled nad yw y cyhuddwyr yn llawn haeddu triniaeth o'r fath."

Argraffwyd y bregeth yn Swyddfa y diweddar Mr. John Jones, Castle Street, Liverpool. Bu Mr. Williams gyda Mr. Jones yn edrych dros y copi cyn ei argraffu: ac ar eu cais hwy, anfonodd Mr. Pugh yr eglurhad canlynol, i'w osod ar odre y ddalen ar ddiwedd ei ragdraeth:—

"Dealled y darllenydd mai at *bersonau* euog yn yr achos dan sylw yn unig y cyfeiria yr Ysgrifenydd; ac na fynai mewn un modd i'r diniwed, o un blaid, gael ei archolli. Ei unig amcan ydyw peri ofn ar yr euogion, fel na phechont mwyach, "rhag digwydd iddynt beth a fyddo gwaeth;" a gosod eraill a fuont ry brysur i roddi cred i'r hyn a ddygid iddynt gan *gleps*, ar eu gwyliadwriaeth rhagllaw, fel na chondemniont ddim, na neb, cyn chwilio yn fanylach i wiredd y cyhuddiadau."

Bu cyhoeddiad y bregeth, hwyrach, yn foddion i dawelu y cythrwfl. Fodd bynag, ni bu dadl nac ymryson o'i hachos ar ol hyny; a chyn hir annghofiwyd y cwbl, "fel dyfroedd a aethent heibio." Am tua dwy flynedd wedi hyn, y bu Mr. Elias yn myd y dadleuon—aeth i wlad y tangnefedd tragwyddol, lle y mae,

"Pawb o'r brodyr yn gytun,
Heb neb yn tynu'n groes."

Trwy drugaredd, y mae llawer iawn llai o *dynu'n groes* rhwng brodyr ar y ddaear o wahanol enwadau, ac yn neillduol yn Nghymru y dyddiau hyn nac a fu, a gobeithiwn mai lai lai yr â y peth annymunol a niweidiol hwnw, nes y llwyr ddarfyddo, a hyny yn fuan: ac y bydd yr holl nerth a dreulid ar ddadleu ac ymryson rhwng Cristionogion, yn cael ei uno a'i gymhwyso mewn cydweithrediad pob plaid a'u gilydd, er dychwelyd y byd at y Gwaredwr.

Digitized by Google

Ni amheuai neb nad gwir ofn rhag cyfeiliornadau, ac eiddigedd tanllyd dros efengyl bur, a gynhyrfent ysbryd Mr. Elias, nes peri iddo lefaru geiriau cryfion iawn wrth ac am frodyr o'i enwad ei hun, a brodyr o enwadau eraill, lawer tro, y rhai a archollent deimladau, ac a barent ofid iddo ef ei hunan yn y canlyniad. Yr oedd efe yn rhy ehud i goelio y rhai oedd ry barod i gludo chwedlau am gyfeiliornwyr a chyfeiliornadau iddo. Pe buasai ei "ysbryd doethineb a phwyll" yn ogyfartal â'i sêl, ei dalentau, a'i ddoniau gweinidogaethol, buasai yn ddyn digyffelyb. Ond pwy heb ei ddiffygion? Heddwch i'w lwch.

Wrth derfynu y bras gofion hyn am yr amgylchiad poenus hwnw, y cymerodd Mr. Pugh yn ei ragdraeth ran ynddo, nid anmhriodol fyddai crybwyll, mai argraffydd y bregeth, Mr. Jones, Castle Street, hen gyfaill i Mr. Elias flynyddau lawer, ac awdwr ei gofiant, a ddododd y dyfyniad o Eiriadur Mr. Charles, dan y gair *Adenedigaeth*, ar ol y rhagdraeth a'r nodyn canlynol o'i flaen:—

"Y mae y dyfyniad canlynol allan o'r Geiriadur Ysgrythyrol gan y diweddar Barch. T. Charles, B.A., o'r Bala, yn dangos fod y gwr dysgedig a thra llafurus hwnw, o'r un farn ag Awdwr y bregeth a ganlyn, am y moddion trwy ba rai y mae Ysbryd Duw yn gweithredu ar y meddwl dynol, sef trwy gyfrwng y gair."

---

## PENNOD IV.

Effeithiodd y cystudd trwm y coffâwyd am dano o'r blaen, gyfnewidiad mawr yn nghyfansoddiad Mr. Pugh. Pan ddechreuodd wella, dechreuodd dewychu yr un pryd, nes aeth yn gorffol iawn mewn byr amser; yr oedd yn chwith i bawb weled yr ysgellyn eiddil o'r blaen, yn ddyn tew trwchus. Yn fuan wedi ei adferiad, daeth estron nad oedd iddo fawr o groesaw i dalu ymweliad ag ef, ac i aros gydag ef, a hwnw oedd y droedwst (*gout*) boenydiol. Blinid ef yn dost ganddo ar adegau dros weddill blynyddoedd ei oes. Analluogwyd ef ganddo i fyned oddicartref i gyfarfodydd, ond ychydig, fel yr arferai fyned o'r blaen. Teimlai ei unigedd cartrefol yn ddwys, a byddai ymweliad ei frodyr a'i gyfeillion yn peri sirioldeb mawr i'w feddwl. Cwynai yn fynych o herwydd ymadawiad ei hoff gyfaill Scorpion o Newmarket i Lanrwst. Arferai Mr. Roberts ymweled ag ef yn fynych pan oedd yn Newmarket, a

Digitized by Google

phan y byddai yn oedi ei ymweliad yn hwy nag arferol, gofynai yn fynych, "P'le mae o Scorp wedi myn'd?" A chai *Scorp* driniaeth chwerw am ei esgeulusdra pan y deuai. "Mae'n chwith genyf am Scorpion," meddai unwaith, "yr wyf wedi fy ngadael fy hunan ar ol iddo ef ymadael o Newmarket, mor dda fyddai genyf weled ei drwyn o, bob amser y deuai yma."

Digwyddodd i'r ysgrifenydd alw heibio iddo un tro, pan oedd yn ei wely, dan arteithiau llymion y droedwst. Yr oedd Dr. Edwards y Bala, yn digwydd bod yn Heol Mostyn ar y pryd, daeth y Dr. a Mr. Glynne Jones gyda mi i edrych am Mr. Pugh, yr oedd yn ochain gan ei boenau. Gofynai Dr. Edwards yn y man, ai y *Rheumatism* oedd yn ei flino. "*Rheumatism*," atebai Mr. Pugh, "Pw! y chwi, pobl y Bala sy'n arfer byw ar datws llaeth fydd yn cael y *Rheumatism*. Y *gout* fydd rhai fel fi a *lord* Mostyn yn gael."

Dro arall, pan ar ei gefn yn ei wely dan yr arteithiau, canfyddai wybedyn ar y nenfwd uwch ben y gwely, a gwaeddai, "Gyrwch hwnacw oddiacw!" "Pa beth? Mr. Pugh?" gofynai un oedd yn yr ystafell. "Ond y gwybedyn acw, rhag ofn iddo fo syrthio ar fy nhroed i." Yr oedd ei *wit* a'i natur dda yn gorthrechu holl arteithiau y droedwst.

Aeth ef a'r hen bererin duwiol Mr. Thomas Glynne Jones yn gyfeillion mawr iawn yn ystod blynyddau olaf eu hoes: treilient rai oriau yn nghymdeithas eu gilydd bob dydd y'mron. Cwynai Mr. Pugh ei golled a'i hiraeth ar ol ei hen gyfaill, pan bu efe farw. Traddododd bregeth angladd effeithiol iddo, yr hon a ymddangosodd yn y *Dysgedydd*.

Cafodd Mr. Pugh ei anrhydeddu ddwywaith â thysteb, y tro cyntaf yn Mostyn yn 1851; a thrachefn yn Llandrillo yn 1867. Ymddangosodd yr adroddiad canlynol am gyflwyniad y gyntaf yn y *Dysgedydd* am Medi 1851:—

"*Cyflwyniad Anrheg i'r Parch. H. Pugh.*—Prydnawn dydd Iau, Gorph. 10fed, ymgynullodd cynnulleidfa luosog yn y Cyssegr, Mostyn, ar yr achlysur a nodwyd. Dechreuwyd drwy weddi gan y Parch. J. Jones, Sion. Dewiswyd Mr. T. Glynne Jones, diacon parchus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, i lywyddu ar yr achlysur, yr hwn, ar ol agor y cyfarfod mewn araeth briodol, a alwodd ar y Parch. W. Rees i draddodi ei ddarlith ragorol ar y *Ddynoliaeth*, yr hyn a wnaeth yn dra effeithiol, ond ei fod dan yr angenrheidrwydd o'i chwtogi, am y disgwylid i amryw anerch y gynnulleidfa ar ei ol. Wedi canu, galwodd y Cadeirydd ar Mr. Williams (Pedr Mostyn) o Shelton, *Staffordshire* yr hwn a ddywedai y modd y dechreuodd yr amgylchiad a achlysurodd y cyfarfod. Ymddengys fod cryn nifer o aelodau yr eglwys dan ofal Mr. Pugh yn Mostyn wedi symud yn ddiweddar i

Digitized by Google

*Staffordshire*, a'u bod wedi ymffurfio yn gynnulleidfa yno; ac fel arwydd o'u parch i'w hen fugail teilwng yn Mostyn, dechreuasant danysgrifiad i'r dyben o gyflwyno anrheg iddo; unodd y cyfeillion yn Mostyn yn galonog yn yr achos, nid yn unig cynnulleidfa Mr. Pugh, ond hefyd y gwahanol enwadau yn y lle. Cyflwynodd Mr. Williams yr anrheg, sef pwrs tra hardd, yn cynwys ugain punt, i'r hybarch Gadeirydd, yr hwn mewn araeth nodedig o effeithiol, a'i cyflwynodd i Mr. Pugh. Atebodd Mr. Pugh mewn araeth ragorol, yn yr hon yr amlygai yr ymlyniad serchusaf wrth bobl ei ofal. Yna galwodd y Cadeirydd ar y Parch. E. Evans, Llangollen, (Maentwrog bryd hyny), yr hwn a gyfarchodd y cyfarfod gyda'i hyawdledd arferol. Dangosodd y cyffelybrwydd tarawiadol a fuasai rhwng Mr. Pugh ag yntau yn ngwahanol amgylchiadau a chyfnewidiadau bywyd. Ymddengys bod y ddau wr enwog wedi eu geni yn yr un gymydogaeth—y ddau wedi bod yn ysgrifenyddion yn swyddfa cyfreithwyr, y ddau wedi eu derbyn yn aelodau eglwysig, y ddau wedi dechreu pregethu, y ddau wedi eu hordeinio i'r weinidogaeth, y ddau wedi priodi, y ddau wedi claddu eu gwragedd, a hyny bron yr un adegau, ond fod Mr. Evans *ychydig* o flaen Mr. Pugh yn mhob un o'r cyfnewidiadau hyn. Aeth Mr. Evans dros y pethau hyn yn effeithiol iawn; ac wrth derfynu, gofynai gyda dwyster mawr, Beth fydd nesaf? Os byddai efe farw eto, o flaen Mr. Pugh, gobeithiai mai o'i flaen yn y nefoedd y byddai. Yna galwyd ar y Parch. R. Ellis o'r Brithdir, yr hwn a gyfeiriai at ddechreuad ei yrfa grefyddol a gweinidogaethol dan ofal ac addysg Mr. Pugh, a chwynai fod y cynllun wedi ei gadw mor ddirgel—na buasid yn oedi y peth yn hwy, ac yn ei wneuthur yn fwy hysbys, fod cannoedd o gyfeillion gan Mr. Pugh yn y Dywysogaeth, a fuasent yn teimlo hyfrydwch wrth uno i roi arwydd o barch iddo. Dilynid Mr. Ellis gan y Parch. W. Rees, Liverpool, yr hwn a ragflaenasai Mr. Pugh yn y weinidogaeth yn Mostyn. Amlygai Mr. Rees mewn araeth fer, ei farn uchel am Mr. Pugh fel brawd yn y weinidogaeth, ac fel cyfaill mynwesol i'r hwn yr ymddiriedai ac y tywalltai ei galon yn ddiofn. Dywedodd hefyd, fod pobl Mostyn dan rwymau mawr i Mr. Pugh—ei fod wedi aros gyda hwynt yn eu gwasgfeuon a'u cyfyngderau, pan y gallasai yn hawdd gael derbyniad serchog gan eglwysi eraill. Gwnaeth y Parch. J. Roberts, Rhuthyn, ychydig sylwadau ffraeth a difyrus ar yr anrheg—ei thlysni oddiallan ac oddimewn, a'r undeb efengylaidd a amlygid yn y rhoddiad o honi. Yna galwyd ar y Parch. W. Williams (Caledfryn), yr hwn a draethai ei farn uchel am Mr. Pugh fel dyn, fel cristion, fel gweinidog, fel gwladwr, ac fel llenor; a therfynodd trwy ddarllen y llinellau canlynol, a gyfansoddodd ar y pryd:—

Nid rhyw ychydig fu ei ymdrechiadau,
Ar ran y gwir egwyddorion gorau;
Gweithiodd; fe dorodd trwy anhawsderau,
Fe lŷn ei addysg am hir flynyddau:
Dylesid cael aur-dlysau—neu serchog
Anrhegu Pugh âg aur gwpanau.

Dilynwyd Mr. Williams gan y Parch. John Jones, Sion, yr hwn a gyfeiriai at Mr. Pugh fel ei athraw yn nyddiau plentynoed, ac fel y gweinidog a'i derbyniodd i gymundeb eglwys Crist. Yna gwnaed



Digitized by Google

ychydig sylwadau priodol i'r achlysur, gan y Parch. M. Lewis, Treffynon, yr hwn a derfynodd drwy weddi, un o'r cyfarfodydd dyddoraf a gawsom erioed."

Cynhelid Cymanfa Meirion yn 1866, yn Bethel, ger y Bala. Mawr oedd awydd Mr. Pugh am fyned i'r Gymanfa hono yn ei hen esgobaeth, a'i ofn rhag y digwyddai i'w hen elyn y *gout* ei rwymo gartref gerfydd bawd ei droed. Fodd bynag, cafodd ei droed yn rhydd i fyned; a phregethodd ddwywaith yn y Gymanfa. Arosodd yn yr ardal am rai dyddiau ar ol y Gymanfa, i ymweled ag ychydig o'i hen gyfeillion yma ac acw, oedd etto yn aros ar dir y byw.

Ar glawr y *Dysgedydd* am fis Awst y flwyddyn hono, ymddangosodd y llythyr canlynol:—

"AT YR EGLWYSI CYNNULLEIDFAOL YN PENLLYN AC EDEYRNION.

"Anwyl Gyfeillion,

"Goddefwch i mi gymeryd fy nghenad i ddywedyd wrthych bod hen ddyled yn aros arnoch i'w thalu, yr hon, yr wyf yn gwbl hyderus, na raid ond ei chrybwyll, a gydnabyddwch yn llawen, ac a gyflawnwch yn rhwydd. Yr oeddwn yn bresenol yn y Gymanfa a gynelid yn Bethel ar y 27ain a'r 28ain o Fehefin diweddaf. Cyfeiriwyd aml waith yn y Gynnadledd yno at y gwasanaeth gwerthfawr a gyflawnodd y Parch. H. Pugh, yn awr o Fostyn, i achos Ymneillduaeth yn y cylchoedd yna, yn yspaid y blynyddau y bu yn gweinidogaethu yn eich plith; clywais lawer yn y tai y bum ynddynt, ac ar hyd y ffyrdd, yn ystod dyddiau'r gymanfa yn son yn barchus ac yn gynes iawn am lafur a defnyddioldeb Mr. Pugh, yn egwyddori ac yn hyfforddi yr eglwysi a'r ardaloedd, yn yr egwyddorion a berthynant i ysbrydolrwydd teyrnas Crist. Sefydlodd Gymdeithas er rhyddhau crefydd oddiwrth y llywodraeth wladol yn eich plith lawer o flynyddau cyn bod son am y Gymdeithas enwog hono, y bu Mr. Miall yn brif offeryn i'w sefydlu yn Llundain; llafuriodd lawer yn ddiwyd, galluog, ac effeithiol, mewn ysgrifenu ac areithio, ac egwyddori, yn y gwahanol fanau ar y pwngc. Pa gydnabyddiaeth a dderbyniodd am ei lafur, chwi a wyddoch. Perchid ef yn fawr gan luaws o ddysgyblion ffyddlawn y mae'n wir, a pherchir ef yn fawr etto, gan y rhai o honynt sydd yn aros hyd yr awr hon, a chan eu plant a'u teuluoedd yr un modd; ond dylai y parch a'r cariad hwnw ddwyn ffrwyth sylweddol. Dyoddefodd Mr. Pugh hefyd lawer iawn o'i dduo a'i waradwyddo fel dyn peryglus, a gelyn terfysgus, a gelyn y llywodraeth, oddiwrth rai a ddaethant wedi hyny mor selog a neb dros egwyddorion a ddysgai pan ddaeth yr egwyddorion hyny yn boblogaidd.

Yn awr, beth a feddyliech, gyfeillion, am gyfodi ati, yn ddioed, o ddifrif, fel un gwr, i gasglu trysorfa i gyflwyno cydnabyddiaeth deilwng i'r gwr y mynwch ei barchu, a'i anrhydeddu yn gymaint ar air ac ar dafod? gan ddwyn allan felly y parch hwnw, yn weithred a gwirionedd? Os cydiwch chwi yn y peth, y mae yn ddiamheuol y bydd yn dda gan laweroedd o'r tu allan i'r cylchoedd yna gyfranu eu rhoddion i chwyddo'r drysorfa, cyfodwch ati; arnoch chwi y mae'r

Digitized by Google

peth i'w gychwyn. Buaswn yn awgrymu fod i bwyllgor gael ei ethol yn mhob cynnulleidfa, ac un cyffredinol yn y Bala, ond y chwi sydd i farnu a phenderfynu ar y llwybr goreu i weithredu. Ni wyr Mr. Pugh ddim oll am y peth, ac ni chaiff wybod chwaith, hyd nes y gwelo y llythyr hwn yn y *Dysgedydd.*

Anwyl Gyfeillion, yr eiddoch, &c.,

*Liverpool, Gorph.* 9fed, 1866. W. REES."

Ar glawr y *Dysgedydd* am fis Medi yr un flwyddyn, ymddangosodd y llythyr canlynol oddiwrth y Parch. John Jones, Llangiwc, Morganwg, un o'r meibion a magasai Mr. Pugh yn Bethel:—

"AT EGLWYSI CYNNULLEIDFAOL PENLLYN AC EDEYRNION.

"Anwyl Gyfeillion,

"Yr wyf o'm calon yn dymuno cefnogi cynygiad y Parch. W. Rees yn y *Dysgedydd* am Awst. Meddaf yr anrhydedd o fod yn *un o honoch*, er nad wyf yn eich plith er's blynyddoedd. Yr wyf yn ymffrostio mewn gallu dyweyd fy mod yn enedigol o un o'ch cymydogaethau mynyddig, ac fy mod wedi fy magu yn un o'ch eglwysi, lle y derbyniwyd fi yn aelod gan y Parch. H. Pugh. Y mae genyf barch calon i ddyddiau gweinidogaeth Mr. Jones a Mr. Pugh yn ———. Y mae y cyntaf wedi ei anrhydeddu gartref gan ei Feistr—gwyr heddyw beth yw gorphwyso ar ol llafur caled trwy dywydd ystormus; ond y mae'r olaf yn aros etto yn ein cyrhaedd, a gadewch i ni uno i dalu iddo yn gyhoeddus y parch a haeddai er's llawer o flynyddoedd. Yr ydwyf yn cofio yn dda mor dderbyniol oedd ei bregethau efengylaidd, ei areithiau miniog, ei holiadau craffus i'r ysgolion Sabbothol, ei esboniadau manwl yn y cyfeillachau neillduol, yn nghyda'i gyfeillachau teuluaidd. Gwnaeth y pryd hwnw waith mawr mewn adeg anhawdd iawn, gan y rhagfarn oedd yn y wlad yn erbyn symudiadau diwygiadol; a dyoddefodd lawer o'i erlid a'i ddrwgliwio fel amddiffynwr cyntaf yr egwyddorion hyny ag y mae Penllyn ac Edeyrnion wedi hynodi eu hunain mor bell yn mlaen ynddynt yn y dyddiau hyn. Efe trwy ei ysgrifau, ei areithiau, a'i gyfeillachau, a hauodd *had da* yn y wlad, yr hwn sydd yn awr yn dwyn ffrwyth da mewn ffyddlondeb i'r gwirionedd. Yna gyda chwi yr enwogodd ei hun yn 'Pugh, Llandrillo;' ac er ei fod wedi ymadael oddiyna er's chwarter canrif, y mae rhai hen bobl yn methu ei adnabod yn dda heb ddyweyd yr hen enw, 'Pugh, Llandrillo.' Cafodd y gymydogaeth yna fwynhau blaenffrwyth os nad goreuon ei oes. Beth bynag a wnaed ganddo yn Mostyn, yna yr ysgrifenodd 'Drych y Cymunwr,' 'Yr Ymneillduwr,' a 'Hawl pob dyn i farnu drosto ei hun.' Teithiodd lawer dydd a nos dros fynyddoedd Mynyllod, Cefncreini, Garth y Tyuchaf, &c., er mwyn efengylu yn Corwen, Llandrillo, Llandderfel, Bethel, Soar, a Rhydywernen; a byddai yn fendith fawr iddo wneuthur hyn etto. Cofiwch mai cydnabyddiaeth bychan gafodd am ei wasanaeth caled ac angenrheidiol. Cofiwyf yn dda am y tristwch oedd yn yr eglwysi a'r cynnulleidfaoedd ar ei ymadawiad, yn nghyda'r llawenydd oedd yn mhlith gelynion y gwirionedd. Buasai yn dda gan lawer ydynt wedi

Digitized by Google

marw, ac eraill ydynt yn fyw, pe gallasent symud gydag ef, a diau y buasai yn dda ganddo yntau eu gweled yn dyfod. Hefyd yr wyf yn cofio yn dda am bregeth y Parch. M. Jones yn ———, ar ol ei ymadawiad, oddiwrth y geiriau, 'Eithr y prawf o hono ef chwi a'i gwyddoch, mai fel plentyn gyda thad, y gwasanaethodd efe gyda myfi yn yr efengyl.'

"Yr ydwyf fel un o honoch yn foddlon i addef fod genym 'hen ddyled yn aros arnom i'w thalu' i'n hen weinidog; ond digon tebyg na buasem yn meddwl am dani oni buasai i Mr. Rees ein hadgofio. Diolch yn fawr iddo am adgoffa i ni ein 'hen ddyled' tra y mae genym gyfleusdra i'w thalu. Yn awr gadewch i ni anrhydeddu ein hunain trwy gofio am un fu mor 'ffyddlon ar ychydig' yn nyddiau ein tadau. Credwyf pe buasai ein tadau a'n mamau yn aros hyd yr awr hon, y buasai yn dda iawn ganddynt gael y cyfleusdra i gydweithio â ni er anrhydeddu Mr. Pugh. Byddai yn hawdd i ni enwi ugeiniau o honynt, ond nid oes achos, gan fod y parch i Mr. Pugh wedi ei drosglwyddo gan y rhieni i'r plant. Er fy mod yn un o honoch, nid wyf yn ddigon agos i fod gyda chwi yn bresenol; ond pan welaf eich bod yn dechreu gweithio, mi a anfonaf fy rhodd i mewn, ond ofnwyf na bydd yn ddigon i ateb i'r ddyled. Ond os byddaf byw i weled y cyflwyniad, mi a ymdrechaf anrhydeddu fy hun trwy fod yn bresenol ar y pryd. Dechreuwch yn fuan, yn galonog, ac yn unol; a chwi a gewch lawer i gydweithio â chwi. Ydwyf, yn wir,—UN O HONOCH; *sef y Parch. J. Jones, diweddar o Faentwrog. Awst 7fed*, 1866."

Ymaflodd y cyfeillion yn Penllyn ac Edeyrnion yn barod a llawen yn y cynyg. Etholwyd y Parch. T. Davies, Llandrillo, yn drysorydd, a'r Parch. H. Ellis, Corwen, yn ysgrifenydd; ac yn fuan casglwyd y swm anrhydeddus o gan' gini at y dysteb.

Ar y dyddiau cyntaf a'r ail o Orphenaf, 1867, cynaliwyd cyfarfod yn Llandrillo i gyflwyno y dysteb. Yr oedd yn bresenol, ac yn cymeryd rhan yn y cyfarfod, y gweinidogion canlynol:—H. Ellis, cadeirydd; T. Davies, Llandrillo; J. Jones, Llangiwc; J. Lewis, Corwen; R. Williams, (Hwfa Mon); R. Thomas, Llanuwchllyn; E. T. Davies, Abergele; E. Evans, Llangollen; D. M. Davies, Llanfyllin; M. D. Jones, Bala; a Meistri W. Davies, Bethel; R. P. Roberts, (B.), Rhydyfen; D. O. Davies, Liverpool, ac E. Thomas, Dinbych. Darllenodd y Parch. M. D. Jones, Bala, yr anerchiad canlynol, a barotoisid gan y Parch. W. Rees, Liverpool, ac a gymeradwyid yn unfrydol yn nghyfarfod y pwyllgor y bore hwnw:—

"Anwyl a Pharchedig Syr,

"Y mae yn llawen genym gael cyfleusdra ar yr achlysur hwn i amlygu ein parch a'n serch tuag atoch, mewn cyflwyniad o rodd

Digitized by Google

fechan i chwi, fel cydnabyddiaeth o'ch llafur a'ch ffyddlondeb yn ein haddysgu yn egwyddorion yr efengyl a theyrnas Iesu Grist, yn ystod y blynyddoedd y buoch yn gweinidogaethu yn y cylchoedd hyn.

"Er fod yspaid mwy na chwarter canrif wedi myned heibio er pan ymadawsoch oddiwrthym, a bod y rhai oedd yn ddysgyblion i chwi, gan mwyaf wedi ymwasgaru, a llawer o honynt wedi myned i ffordd yr holl ddaear, ac oes arall wedi cyfodi; etto y mae yr had gwerthfawr a hauasoch yn parhau, dan fendith ddwyfol, i ffrwytho yn ein plith.

"Yr ydym ni, plant eich hen ddysgyblion, yn cael heddyw gydlawenhau â chwi, hen athraw ein tadau, a'r ychydig o'r tadau sydd yn aros hyd yr awr hon, wrth weled yr egwyddorion a ddysgasoch iddynt hwy, y rhai a gyfrifid yn heresi beryglus yn y dyddiau hyny gan y rhan fwyaf yn ein gwlad; ac o herwydd pa rai y'ch gwaradwyddid, ac y dywedid pob drygair am danoch—wrth weled yr egwyddorion hyny, meddwn, wedi dwyn eu barn yn mron i gyflawn fuddugoliaeth yn ein gwlad, ac yn y sicrwydd a deimlwn nad yw bell y dydd pan y gorfydd i senedd a llywodraeth Prydain Fawr, a holl lywodraethau y byd, eu cydnabod ac ymostwng i awdurdod eu gwirionedd.

"Ein gweddi a'n dymuniad yw, ar ryngu bodd i Ben mawr yr eglwys eich helaeth fendithio yn mhrydnawnddydd eich bywyd—a'r fod hwnw yn brydnawn hir a thawel, a'i ddiwedd yn daugnefedd a llawenydd tragwyddol."

Wedi i Mr. Jones gyfeirio yn mhellach at lafur Mr. Pugh, traddodwyd araeth garedig gan Mr. Thomas Davies, Llandrillo, trysorydd y dysteb, yr hwn hefyd a gyflwynodd bwrs i Mr. Pugh, ac ynddo tua *chan' gini*. Yna cododd Derfel i adrodd llinellau byrfyfyr ar yr achlysur. Ac wedi cael distawrwydd, dywedodd Mr. Pugh,—Ei fod mewn amgylchiad yr oedd yn anhawdd ganddo siarad, ac yn anhawdd ganddo dewi. Mewn rhyw fath o amgylchiad, lleferydd uchaf teimlad ydoedd distawrwydd.

Teimlai ef yn ddwys iawn, ond ni siaradai ond ychydig. Yr oedd rhagor nag un a deugain o flynyddoedd wedi myned heibio er pan ddaeth i'r cymydogaethau hyny i lafurio. Bu yno am un mlynedd ar ddeg yn cydweithio a'r Parch. Michael Jones o Lanuwchllyn, a hyfrydwch mawr oedd ganddo adgofio na bu yn ystod y blynyddau hyny ddim cymaint ag un achlysur o annghydwelediad, nac un gair croes rhyngddynt. Yr oedd rhagor na deg ar hugain o flynyddoedd wedi myned heibio er pan y symudodd oddiyno i Fostyn, a mawr oedd y cyfnewidiad mewn byd ac eglwys yn hyny o amser. Deugain mlynedd i heddyw neu fory y cafodd ei ordeinio yn Llandrillo i gyflawn waith y weinidogaeth: yn ystod yr amser yna, am allai ef gofio yn amgen ar y pryd, nad oedd penau teuluoedd Llandrillo a'r plwyf wedi myned i ffordd yr holl ddaear! yr unig rai allai ef gofio yn fyw oedd Mr. Robert Hughes, Ty'nygroes; Mr. Peter Wynn, Lion gynt; a Mr. Jones, Post Office. Nid oedd deugain mlynedd, meddai, ond adeg fêr yn oes y byd, ond yr oedd yn adeg faith yn oes dyn. Y pethau oedd yn cael eu cablu y pryd hwnw, ac yntau yn cael ei gablu o herwydd eu taenu, sydd yn awr yn brif beth-

Digitized by Google

au yr oes. Dywedodd y byddai ganddo ef gryn wrthwynebiad i fyned yn ol i'r peth yr oedd y wlad yn gyffredin y pryd hwnw, ond nid oedd ganddo un gwrthwynebiad i fyned yn mlaen i'r peth oedd ef ar y pryd hwnw, a'r peth ydyw yn bresenol. Sylwodd hefyd fod egwyddorion da bob amser yn rhyw hir iawn yn gweithio eu ffordd ac yn ennill tir, ac na roddai ef un pen pin am unrhyw beth a gai ei dderbyn gan y byd ar ei ymddangosiad cyntaf; ac os felly ei derbynid, fod rhywbeth ynddo yn cydfyned â chwaeth ac â llygredigaeth y byd. Gyda golwg ar y dysteb, dywedai nad oedd yn un fawr mewn cyferbyniad i lawer tysteb; ond yr oedd yn fwy, ac yr oedd yn fwy o'r haner, na dim oedd ef yn ddisgwyl. Gwneid hi i fyny gan mwyaf o symiau bychain, a theimlai ef radd mwy o foddlonrwydd yn hyny. Nid oedd un penadur ac wyth haner coron ond yr un faint; ond ni amlygai rhodd o benadur ond teimlad un person, tra yr oedd rhoddion o wyth o haner coronau yn amlygiad o deimlad wyth o bersonau. Gallai ddywedyd hefyd nad oedd arno angen am dysteb o ran eisiau. Yr oedd rhagluniaeth wedi darparu yn dirion am dano yn nyddiau ei henaint, fel yr oedd ganddo ddigon rhyngddo ag eisiau bara tra y byddai efe byw, os na ddigwyddai rhywbeth rhyfedd iawn; ac os dygwyddai y rhywbeth rhyfedd hyny, gadawai i'w blant yr un rhagluniaeth i ofalu am danynt ag a gafodd efe ei hun. Derbyniai ef y dysteb fel y bwriadai ei gyfeillion ei chyflwyno iddo, nid fel elusen i ddyn mewn caledi, ond fel caredigrwydd a pharch. Yr oedd yn hyfrydwch mawr ganddo ei bod yn dyfod i'w law yn berffaith anrhydeddus. Nid oedd dim gwthio na llusgo, nac unrhyw foddion isel wedi cael eu harfer—dim ond ei thaflu gerbron, a gadael i'r cynyg weithio ei ffordd. Ni wnaethai ef erioed yr un cais, ni thaflodd erioed un awgrym, ni lefarodd erioed yr un gair, ac ni ysgrifenodd erioed yr un linell ar y mater. Y peth cyntaf a welodd ef ar y pwngc oedd llythyr y Dr. Rees yn y *Dysgedydd.* Dywedodd na bu mewn cyfarfod fel hyn erioed o'r blaen, ac nad oes arno ofn myned i'r un etto. Teimlai yn ddiolchgar i'r sawl a gychwynodd y symudiad—i'r sawl a'i cariodd yn mlaen mewn gweithred, ac i'r sawl a gyfranasant ato; ac er nad oedd can' gini yn swm i'w ddiystyru, etto, gwerthfawrogai deimlad caredig ei gyfeillion tuag ato yn fil mwy na'r arian.

Wedi i Mr. Pugh eistedd i lawr, dangosodd y gynnulleidfa y gymeradwyaeth fwyaf brwdfrydig iddo ef a'r sylwadau oedd wedi eu traddodi.

Hwn oedd yr ymweliad olaf i'n hanwyl gyfaill â maes llafur ei ieuenctyd. Yr oedd yn lloniant mawr i'w feddwl gael prawf yn y dysteb a dderbyniodd, nad oedd ei waith a'i lafur yn ystod y blynyddau y buasai yno wedi ei anghofio, na myned yn ddiffrwyth, "Nid fel elusen," fel y dywedai wrth dderbyn y dytseb y cyflwynid hi iddo, ac y derbynid hi ganddo. Yr oedd Rhagluniaeth wedi gofalu yn dirion am dano yn ei henaint, a'i osod mewn sefyllfa uwchlaw angen. Codwyd ef i'r sefyllfa gysurus hono, drwy fodryb iddo—chwaer ei fam, yr hon a aethai i Lundain yn ferch ieuangc, ac a gasglasai swm

Digitized by Google

da o arian, drwy wasanaethu am lawer o flynyddoedd yn nhai boneddwyr; ac a fuasai wedi hyn yn briod ddwywaith a dau amaethwr cyfoethog, y rhai a fuont feirw o'i blaen hi, yn ddiblant. Mr. Pugh oedd unig etifedd ei fodryb, ac iddo ef y gadawodd hi y cwbl, ond ychydig i un neu ddwy a fuasent yn gweini gyda hi.

Ni bu Mr. Pugh nemawr oddi cartref wedi'r ymweliad hwnw a Llandrillo, er fod ei iechyd cyffredin yn lled dda ar y cyfan. Bu unwaith wedi hyny yn talu ymweliad a'i gyfeillion yn Hanley, swydd Stafford, lle y treuliodd Sabboth ac ychydig ddyddiau. Y tro diweddaf y bu yn Liverpool, oedd mewn cyfarfod a gynelid yn nghapel Grove Street, yn nechreu Hydref 1868, ar achlysur ymadawiad ei hen gyfaill hoff, y Parch. D. Price, Dinbych gynt, yn ol i America, wedi bod ar ymweliad a'i gyfeillion yn Nghymru. Yn ei anerchiad ar yr achlysur hwnw, adolygodd Mr. Pugh yn effeithiol y blynyddoedd y buasai efe a Mr. Price a'r ysgrifenydd yn cydlafurio yn nghylchoedd cyfundeb siroedd Dinbych a Fflint, sylwai eu bod ill tri yn cydagosau yn brysur i ben eu taith; a'i fod ef yn meddwl mai efe a gyrhaeddasai y terfyn hwnw gyntaf o honom. "Ni hoffwn gael byw wedi i mi fethu gweithio" meddai, "carwn fyned yn fy mlaen o'r pulput i'r bedd, os gwel fy meistr yn dda." Lletyai yn ein ty ni y noson hono. Ar ol swper, dywedai gyda theimlad dwys iawn, "Bum yn meddwl llawer yn ddiweddar am y daith drafferthus drwy y byd yma, yn yr hon y cefais lawer o gystuddiau a phrofedigaethau; a llawer iawn o gysuron hefyd. Yr wyf yn teimlo pe cawn fy newis yn awr, pa un ai troi yn ol, ac ail deithio llwybrau bywyd, ynte myned yn mlaen a gorphen y daith a fynwn, mai yn mlaen i'r pen y dewiswn fyned, pa mor agos bynag y dichon iddo fod." Nid oedd ef na minau yn tybied, hwyrach, ei fod mor agos; canys tua deufis wedi hyny y bu cyn ei gyraedd.

Yr oedd dan yr argraff bob amser, mai o farwolaeth ddisyfyd y byddai farw, ac nid oedd y wedd hono ar angau mor annymunol yn ei olwg ef ac ydyw i'r rhan fwyaf o ddynion fe ddichon. Cyflawnwyd ei ragfynegiad, a'i ddymuniad a draethasai yn y cyfarfod yn Grove Street hefyd, i'r llythyren. Fore y 23ain o Ragfyr, 1868, gan ei fod yn hwy nac arferol heb ddyfod i lawr o'i ystafell wely, aeth Hugh ei fab i mewn ato; yr oedd heb godi o'r gwely; ond yn ymddangos mor iach a siriol ac arferol. Wedi ychydig eiriau o ymddyddan rhoddodd ochen-

Digitized by Google

aid drom, ac ni ddywedodd air mwyach, a chyn pen ugain mynud yr oedd yr ymdrech trosodd, a'n hanwylaf gyfaill wedi diangc ymaith! Y bore Sabboth blaenorol pregethasai yn effeithiol iawn ar y testyn, "*Gwyn ei fyd y gwas hwnw, yr hwn y caiff ei Arglwydd ef pan ddel, yn gwneuthur felly.*" Luc xii. 43; a'r hwyr, ar Salm cxvi. 7, "*Dychwel, o fy enaid i'th orphwysfa; canys yr Arglwydd fu dda wrthyt.*" Ac felly, yn ol ei ddymuniad i'r llythyren, meddwn etto, cafodd fyned rhag ei flaen o'r pulput i'r bedd.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 26ain, hebryngwyd ei ran farwol at ei anwyl briod, i fynwent capel Sion. Yr oedd yn ddiwrnod oer, gwyntog, a gwlawog iawn, ond daeth tyrfa luosog yn nghyd ar yr achlysur. Gweinyddwyd yn y capel, Sion, gan y brodyr J. Thomas, Liverpool; H. E. Thomas, Birkenhead; R. Thomas ac A. Francis, Rhyl; E. T. Davies, Abergele; M. D. Jones, Bala, a T. Roberts, (Scorpion) Llanrwst: a dywedwyd ychydig eiriau (oherwydd gerwinder yr hin) wrth y bedd gan W. Rees, Liverpool, bron yr oll a ddywedodd oedd, "Nos dawch, fy hen gyfaill anwyl iawn, nos dawch, hyd yr adeg y cawn gydgyfarch, Bore da, ar fore dydd, nad â yn nos byth!"

Yr oedd y teimladau a amlygid gan bawb oedd yn bresenol yn y claddedigaeth, yn dangos pa mor gariadus ac anwyl oedd Mr. Pugh yn ei fywyd, gan yr eglwys, ac ardal Mostyn; a chan ei holl frodyr yn y weinidogaeth oedd yn bresenol; yr oedd yn haws i bob un o honynt o lawer i wylo, na llefaru ar achlysur ei gladdedigaeth; ac y mae yr hiraeth am dano yn aros yn fyw, ac yn gryf yn eu mynwesau etto.

Yr ail Sabboth ar ol ei gladdu, traddododd yr ysgrifenydd bregethau angladd iddo, yn nghapel Sion yn y bore, ac yn y Cysegr, Mostyn, yn yr hwyr, i gynnulleidfaoedd lluosog iawn. Dangosodd y brodyr y Methodistiaid a'r Wesleyaid eu parch i'w goffadwriaeth, drwy gau eu capeli yr hwyr yn Mostyn, a dyfod i'r Cysegr. Cafodd yr ysgrifenydd y fraint o'i briodi, bedyddio tri o'i blant, gweinyddu wrth ei fedd, traddodi ei bregeth angladd, ac ysgrifenu ei Gofiant hwn: ac felly y terfyna gydag ochenaid drom hiraethus am un o'r cyfeillion anwylaf fu ganddo ar y ddaear erioed. "O! fy mrawd!"

Digitized by Google

# PENNOD II.

## GALARGWYN UWCH BEN EI FEDD.

"Nos DAWCH" hen gyfaill anwyl iawn, "Nos dawch,"
Hen gyfaill deugain mlynedd lawn o'm hoes:
Cof genyf heddyw fel pe buasai ond doe
Y diwrnod hwnw y gwelsom gynta' erioed
Wynebau'n gilydd, ac mi gofia'r fan
Ar fuarth bach Llwynderw, sydd gerllaw
I bentref bach Llansanan, pan y rhoe'm
Y naill ei law i'r llall; ni thybiau ru'n
O honom y pryd hwnw, y buasai i'r ddwy
Ddeheulaw ymaflent yn eu gilydd byth
O hyny allan lynu 'nghyd mor dŷn
Na allai neb na dim ond angeu'i hun,
Nac angeu'i hun ychwaith eu datod mwy.
Nid llaw wrth law yn unig wna'ynt gyhwrdd,
Ond hefyd y ddwy galon gurent dan
Ddwfn wreiddiau'r ddwy ddeheulaw ar y pryd
A gyffyrddasant yn y naill y llall,
Ac fel calonau'r ddau Hebrewr gynt;
Mab Jesse, a mab Saul, ymlynai'r ddwy.
Ymblethent am eu gilydd, ac o'r dydd
Cofiadwy hwnw allan, ymdynhau
Yn gryfach, gryfach wnaethant hyd nes aeth
Y ddwy yn un, yn un am oes, am byth.

"Nos DAWCH," fy nghyfaill anwyl, ond paham
Na atebi fi yn awr? A'i cysgu 'rwyt?
Neu a aeth y tafod ffraethbert hwnw'n fud?
Y tafod oedd ddiarhebol trwy y wlad
Am ei atebion parod, yn yr hwn
Cartrefai ffraethder ac arabedd coeth,—
Y tafod a lefarai eiriau byw
O synwyr ac o sylwedd. Dawodd ef?
Do, do, fe dawodd, ac ni etyb air!
Fy nghyfaill hoff, tro yma, wele fi
Yn estyn fy neheulaw atat eto

Digitized by Google

Fel gwnaethum lawer cant o weithiau o'r blaen.
Ai ni estyni dithau'th ddeheu law?
A ddarfu it dramgwyddo wrthyf? Pa'm
Y'i cedwi yn dy fynwes heno? Ow,
A wywodd hi? A oerodd angeu'r fron
Gariadlawn dyner hono, fyddai gynt
Mor fyw, mor lawn o gyfeillgarol naws?
Do! do! llaw oerllyd angeu, barai hyn!
Mae'n rhaid i'm dynu fy neheulaw 'nol,
Yn wag, yn oer, er estyn llaw i'r bedd,
Ni estyn ef ei law yn ol i'r byw.
O na allaswn wthio'm llaw i lawr
I gysgod angeu a'th gipio 'nol yn fyw,
A throi galarus gwyn y lluaws sydd
O frodyr a chyfeillion yma o'm cylch,
Yn gwlychu erchwynion oer dy wely pridd,
A'u dagrau heillt o hiraeth ar dy ol—
Yn llawen gân: hwynt hwy ar hyd y ffordd
O Mostyn wrth dy hebrwng yma i Sion
A geisient ganu'u lleddfus donau trwy
Eu dagrau, ond gwaharddai'r llygad llawn
I'r tafod ganu; ond pe gallwn droi
A datod cloion angeu, a'th godi o'r bedd.
Dychwelem adref fel y weddw o Nain,
Pan y derbyniai hi ei mhab yn fyw,
Oddiar ei elor ar ei ffordd i'r bedd,
Ac fel y ddwy chwaer yn Bethania pan
Y gyrai'r Adgyfodiad mawr ei lais,
A bywyd ynddo i waelod bedd eu brawd:
Ac neidiai yntau allan ar y gair.
Aem ninau adref heno gyda thi
Dan lawen ganu nes darseinio'r fro.
Ond beth a ddywedais? Pa ynfydu 'rwyf?
Maddeued nef drugarog i'm roi'r ffordd,
Fel yna i nwydau cig a gwaed, Pa beth?
Dy alw 'nol? a fynwn ni ddatdroi
Ewyllys ddoeth a da dy Feistr mawr
Yr Hwn a'th alwodd ato 'i hun i fyw?
Dy alw 'nol i'r trallodedig fyd,
I ymladd eto a gofid, ac â phoen,
O ganol gwynfyd a llawenydd nef?
Na, na, fy mrawd, na atto'r nef i mi,
I feithrin mwy ddymuniad ffol o'r fath.
Ai cofus genyt heddyw am y tro
Diweddaf buost dan fy nghronglwyd pan
Wrth adolygu y flinderus daith
Helyntion gyrfa bywyd dan yr haul.
"Pe gwnaethai'r Nefoedd," meddit, "ganiatau
Fy newis imi'n awr, ai troi yn ol
Ail deithio llwybrau bywyd yn y byd—
Neu ynte fyn'd y'mlaen i ben y daith,

Digitized by Google

Y'mlaen dewiswn fyned." Ac y'mlaen
Yr aethost i feddianu hyfryd wlad
Yr addewidion, i arogli per
Awelon anfarwoldeb, bwyta'r grawn
A dyfant ar gangenau gwinwydd nef.
Wel, aros dithau yna, aros byth;
Ni fynem aflonyddu ar dy hedd.
Mae hiraeth dwfn a dwys dan lawer bron
Yn gerain yma ar dy ol bob dydd;
Ond nid oes arnat ti, ac ni all fod
Ddim hiraeth heddyw am neb o honom ni,—
Ti ge'st gyfeillion gwell, do gan mil gwell,
Yn benaf oll yr Archoffeiriad Mawr
Ei hun, sydd yn anfeidrol well na phawb
Angelion pur, a pherffeithiedig saint,
A thithau'n bur a pherffaith yn eu plith.
Cyn hyn ti welaist ac ysgydwaist law
(Y modd y gwna ysbrydion ysgwyd llaw)
A lluaws o gyfeillion bore d'oes,
A'th ragflaenasant; Williams fawr o'r Wern,
Yn ol yr enw oedd arno yn y cnawd,—
Hen athraw'th ieuengctyd, Llwyd o Dowyn fwyn,
Dy gyfaill a'th hyfforddwr yn y ffydd,
Sef Richard Jones, Llwyngwril ddigrif ddoeth.—
Hen athraw craff y Bala, Michael Jones,—
A Jones o Ruthin, Isaac Harris bur,—
Ac yntau'r puritan o Res-y-cae,
A'r hen Olygydd hybarch, pwyllog, call,
Ehedodd o Ddolgellau yna ryw
Ychydig amser o dy flaen, a Pierce
Garuaidd o Lynlleifiaid; pallu wnai
Yr amser i mi enwi un o gant.—
Daeth llu o'r praidd a fu yn perthyn gynt
I'r deadellau a fugeilit ti.
Rhai aethant o dy flaen i'r nef i'th gwrdd
At borth y bywyd i'th groesawi i mewn.
Arhoswch yna, cenwch a mwynhewch
Eich gwynfyd nefol pur digymysg byth.
Ond druan iawn o honof! Dyma fi,
Yn ysgrifenu'r brudd alargan hon,
Am danat gyda mynwes drist a llawn,
O ocheneidiau hiraeth ar dy ol.
'Rwy'n profi fod y byd o hyd, bob dydd,
Yn myn'd yn oerach oerach, yn fwy gwag,
Fel mae fy hen gyfeillion naill ar ol
Y llall yn dianc o fy mlaen i'r bedd.
I'r bedd? Nage, i'r nefoedd—i bob un
Y bedd a'r nefoedd, canys y mae y ddau'n
Cytuno a'u gilydd i yspeilio'r byd.
O'i brif oreuon wyr, oes, oes y mae
Rhyw luaws o gadeiriau gwag yn awr,

Digitized by Google

Ar lawr ystafell ddistaw'r fynwes hon,
Cadeiriau hen gyfeillion nad oes neb
I'w cael a all eu llenwi; erbyn hyn,
Y mae dy gadair dithau yma'n wag,
Y gadair hono wnaethost ti dy hun,
I ti dy hun, ac nid eisteddodd neb
Ond ti dy hunan ynddi hi erioed,
Nid eistedd neb byth ynddi chwaith ar d'ol.
  Wel, unwaith eto cyn i'm droi fy nghefn,
Dywedaf wrth dy farwol lwch, "*Nos dawch.*"
Boed heddwch iddo i orwedd gyda llwch,
Dy anwyl briod yn y beddrod hwn.
Pan ddel i ben y gweddill byr o'm taith
Sydd heb ei gorphen, ni fydd hyny'n hir,
Mi ddeuaf finau i lechu yna'n nghudd,
A chysgu nos ryfeddol ei pharhâd
Hyd nes y gwawria bore'r hyfryd ddydd,
Y cana trwmp Archangel nerthol Duw
I ddeffro plant y llwch, a dyna'r pryd
Cawn ail gyfarfod eto yn y corph,—
Ail ysgwyd llaw drachefn mewn cyflwr gwell,
Cydgyfarch "Bore da," ar fore dydd.
Tragwyddol ddydd heb iddo hwyr a nos
A bywyd wedi llyncu angeu du,
A thrancedigaeth wedi llyncu'r bedd.
"Marwolaeth ni bydd mwyach," ing a phoen,
Gofid a galar wedi ffoi am byth.
A'r dwyfol wynt o ogledd barth y nef,
Yn cadw awyr Gwynfa byth yn iach,
Heb gwmwl du i guddio gwedd ei haul
Hyd wawr y bore hwnw; Anwyl Frawd
Nos DAWCH! Nos DAWCH!

HIRAETHOG.

Digitized by Google

# PENNOD IV.

## NODWEDDION MR. PUGH.

Mwy peth na nemawr gamp yw—rhoi ar lawr
Wir lun un o'r cyfryw,
Yn ei faint—fel pe b'ai'n fyw,
I'w adwaen pa un ydyw.

Gwrthodai arlunydd unwaith dynu darlun o'r Gwaredwr yn llys yr archoffeiriad yn troi i edrych ar Pedr, am fod arno ormod o ofn methu. Yr oedd yn canfod yn yr olygfa ffwrn mor boeth ag a fuasai yn ei brofi tuhwnt i'r hyn a allasai ddioddef, a chan nad oedd ar hyny o bryd wedi syrthio digon allan ag ef ei hun i fyned o dan y fath oruchwyliaeth, nac i godi allor er rhoddi ei hun arni yn boeth offrwm, yr oedd yn dymuno cael ei gymeryd yn esgusodol. Ond os byth y deuai y fath awydd ato am hunan-ferthyrdod, mai hwn oedd y llwybr mwyaf effeithiol y gallasai feddwl am dano i gyrhaedd yr amcan. Yr ydym yn teimlo yn lled debyg yr un fath, wrth ymgymeryd a'r gorchwyl presenol o dynu allan y prif linellau yn nghymeriad ein hen gyfaill anwyl o Fostyn; ond ein bod yn ddigon gorphwyllog i anturio yn awr, yr hyn yr oedd yr arlunydd yn ddigon ystyriol i'w ohirio hyd yr amser a ddeuai.

Gydag ambell i destyn, nid oes genych *ddim* i'w golli, pan mae genych *bobpeth* i'w enill, a chydag ambell i un arall, nid oes genych ddim i'w enill ond pobpeth i'w golli. Mae un yn creu wrthych y disgwyliadau mwyaf uchel, a gwnewch eich goreu, a byddwch yn fyr o ddyfod i fynu a'r nod; a'r llall, nad yw yn creu wrthych ddisgwyliad yn y byd, a byddwch mor ddiofal ag y mynoch, na siomwch chwi neb. Ni wna y tro i chwi fod yn llai na pherffeithrwydd i ddyfod i fynu ag un, ond gwnewch y tro i fod yn llai na'r lleiaf i ddyfod i fynu a'r llall. Ac fel mae gwaethaf y ffawd, y man lle yr ydych mewn angen am fod yn angel, yr ydych yn fyr a bod yn ddyn; a'r man nad oes arnoch eisiau gallu yn y byd, yr ydych yn gallu pobpeth. Dyma ein teimlad ni, a diamau genym mai dyma deimlad pawb sydd ganddynt i ddyfod o flaen

Digitized by Google

y cyhoedd mewn cysylltiad ag unpeth ac y coleddir syniadau uchel am dano yn mlaen llaw.

Yr oedd Mr. Pugh yn cael ei gydnabod yn ddieithriad gan bawb a'i hadwaenai, fel un o gyntaf enedigion athrylith, ac yn cael rhan o'r lleoedd uwchaf yn mhob synagog, pa un bynag ai hono o eiddo y wasg ai hono o eiddo y pulpud. Nid eu caru yr ydoedd na'u ceisio, ond eu cael. Yr oedd y rhywbeth hwnw ynddo, yn erbyn pa un nad oes deddf, yn eu hawlio yn ymerodrol fel ei enedigaeth-fraint. Nid trwy lu, na nerth, nac ymwthio, ond trwy ewyllysgar warogaeth a delir bob amser yn naturiol i deilyngdod pur. Yr oedd yn cael ei gydnabod meddwn, yn gyffredin felly, hyd yn oed gan y rhai nas gwelsant ef. Yr oedd yr argraff oedd yn cael ei adael gan ei ysgrifau yn tystiolaethu i ysbryd wedi derbyn ei swyddogaeth oddiwrth Dad yr ysbrydoedd ei hun. Ond i'r neb oedd yn hysbys a'i ddyn oddiallan, yr oedd hyn yn eglurach fyth, er fod hyn yn fynych yn digwydd fel arall —meddwl mawr, cydbwys, prydferth, mewn myrddyn o dy salw ac afrosgo, a meddwl eiddil, gwan, corachaidd, mewn castell o adeilad na thynir mo hono i lawr ar frys; fel pe buasai y naill wedi ei wneuthur i fod yn iawn dros y llall, neu, wedi taro wrth eu gilydd yn hollol o ddamwain.

Yr oedd ein cyfaill o wynebpryd glan, corff lluniaidd, a thaldra gweddus, a'i ysgogiad, cyn cael o hono glefyd arteithiol tua'r flwyddyn 1840, bob amser yn chwim a heini. Wedi gwellau o hono oddiwrth hwnw, y dechreuodd ei gnawd arno dewychu, ac y daeth efe yn ddarostyngedig yn achlysurol i ddirdyniadau y droedwst (*gout,*) fel ac i'w wneyd yn gloff a hwyrdrwm ei symudiadau. Mynych y dywedai yn ei ddull cellweiriol ei hun, pan yn dioddef o dano, ei fod wedi cael ei dderchafu i blith y dosbarth uchaf, drwy gael ei wneuthur yn gyfranog o'r anhwyldeb tywysogaidd, ag oedd yn gyfyngedig i fyd da helaethwych beunydd y pendefigion. "'Does dim perygl i chwi tua'r Bala, pobl y *shot* a'r bara llaeth, i gael eich blino gan hwn," ebai ef unwaith wrth Dr. Edwards, pan yn edrych am dano, "y ni, yn Mostyn, pan bydd y gwaith wedi sefyll sydd yn y perygl!"

Ond er fod ei anhwyldeb wedi newid ei ysgogiad, a mwyhau ei drwch, a thrymhau ei bwysau, nid oedd wedi newid dim er gwaeth ar ddelweddau y gwyneb ag oedd wedi ei ffurfio ar ei lun a'i ddelw ei hun, gan y meddwl pendefigaidd oedd yn cael ei bortreadu ynddo; nac wedi newid dim ar ar-

Digitized by Google

graff annileadwy y llygaid oedd yn eich archwilio drwyodd, gan beri i chwi deimlo eich bod yn sefyll yn mhresenoldeb tywysog. Nid yn unig yr oedd yr hyn a bortreadid yr un, ac a edrychai drwy y ffenestri yn y llall, yn rhydd oddiwrth syrthni y dyn oddiallan, ond yr oeddynt wedi dyfod yn fwy effro i'r graddau yr oedd y llall wedi dyfod yn fwy cysglyd; ac yn ymddangos fel wedi derbyn y bywyd oedd hwnw wedi golli. Ond er eich bod yn mhresenoldeb tywysog, nid oedd yno un ffroen uchel a thrahaus i beri i chwi sefyll draw rhag ofn i'w urddas ddyfod i lawr drwy eich cyffyrddiad, nac un arwydd yn cael ei roi fod pwys neillduol yn ei ffafr; ond pobpeth i'ch tynu yn mlaen, gan ddangos ei hun mewn ysbryd a gwirionedd yn gydostyngedig a rhai iselradd, yr hyn sydd bob amser yn un o nodau mwyaf arbenig crefydd a gwir fawredd. Mae rhai a chryn lawer o'r hyn sydd fawr yn perthyn iddynt, ond maent mor deimladwy o hono nes mae yn dyfod yn fychandra, ac yn peri i'r hyn sydd ynddynt yn wir fawredd, yn fynych gael ei gamgymeryd am chwydd. Ac os oes rhyw rai eraill yn gwybod eu bod yn fawr, hwy eu hunain yn fwy. Ac er eich bod yn eu hymyl, yr ydych eto yn ddigon pell, ac anaml y siaradant ond yn nghymeriad oracl, yr hon y bydd yn rhyfyg ac yn hyfdra arnoch i amau dim o'r pethau a ddywedwyd. Dynion ydynt fydd yn arfer darllen Phil. ii. 3, o chwith. Yn lle "Gan dybied eich gilydd yn well na chwi eich hunain," "Gan dybied eich hunain yn well na'ch gilydd." Ac yn lle bod yr hyn sydd ynddynt yn farwol yn cael ei lyncu gan fywyd, mae yr hyn sydd ynddynt yn fywyd yn cael ei lyncu gan yr hyn sydd farwol. Ond am ein diweddar gyfaill o Fostyn, ychydig a welsom yn fwy disglaer eu talentau ac yn gwneuthur gan lleied o ymhoniad.

Llinell arall neillduol yn ei gymeriad, oedd cymedroledd. Nid oedd yn wr eithafol mewn dim, na chydag unpeth. Yr oedd ei synwyr yn rhy gryf, a'i wybodaeth yn rhy eang, a'i galon yn rhy haelfrydig, i fod yn euog o hyn. "*Narrow minds run to extremes*," ys dywed y Sais, ac yn hyn mae y gair yn wir. Buasai yn rhyfedd gan lawer ein clywed yn dywedyd fel hyn ddeugain mlynedd yn ol, pan oedd efe yn ysgrifenu ac yn darlithio yn erbyn gorthrymder eglwysig, ac yn tynu melldithion yr offeiriaid am ei ben, ond ni cheir ynddynt ddim sydd yn anheilwng o'r cristion a'r boneddwr, mewn iaith na thymer. Maent yn finiog mae yn wir, ac yn tori fel ellyn i'r gwaed bob cynyg; ond maent felly ar ganol llwybr barn, heb

Digitized by Google

droi ar y llaw ddehau nac ar y llaw aswy, na gwthio un rheswm dros ei derfynau, na gorbaentio un drwg. Ond yr oedd amau ysgrythyroldeb yr eglwys wladol, neu y degwm, neu y dreth, yn ddigon i wneyd unrhyw ddyn yn eithafol gyda llawer y pryd hwnw, heb son am feiddio siarad ac ysgrifenu yn eu herbyn. Yr unig ddrychfeddwl oedd ganddynt am gymedroledd yn yr ystyr hon, oedd i chwi fyned yn fud a pheidio agor eich genau, pan byddai eich iawnderau mwyaf cysegredig yn cael eu mathru gyda difaterwch dan draed—cymeryd eich hysbeilio o bob peth yn llawen, a chredu, a chyfarch, a chyfaddef mai "siop y dom oedd y lle goreu i gael sebon, a phwll y domen y lle goreu i ymolchi." Yr ydym yn crybwyll yr amgylchiad hwn yn neillduol, am mai yn y cysylltiad yma yr oedd mewn mwyaf o berygl i gael ei gamgymeryd fel dyn eithafol.

Ond er y byddai yn gochel eithafion, ni fyddai byth am sefyll o'r naill du mewn unrhyw fater pwysig er mwyn dianc yn greeniach wrth ymdrechu dal y ddysgl yn wastad i bawb. Yr oedd yn gymaint gormod o ddyn i wneyd hyn, ac i wneyd y llall, fel nad ellir dodi y pechod hwn yn ei erbyn gan neb. Yr ydym yn dywedyd gormod o'r dyn, oherwydd lle mae y dyn yn ddiffygiol o'i brif elfenau mae yr ystryw hwn bob amser yn cael ei chwareu, ac anaml y diengir trwy unrhyw ddichell rhag syrthio dan anfoddlonrwydd y ddwy-blaid fel eu gilydd.

Mae y cymedroledd hwn i'w weled yn dyfod i'r golwg mewn llawer o bethau bychain a disylw, y rhai y gallesid yn hawdd eu gadael o'r neilldu, ond fel y maent yn gyfryngau drwy ba rai y mae y pethau a fo mwy yn dyfod i'r golwg, yr un fath a chyfeiriad y gwynt yn cael ei ddangos gan y plyfyn, a dirgelwch deddf fawr disgyrchiant yn cael ei hegluro gan y diferyn gwlith. Nid yw yr ymofyniad, yn mha fodd ac a pha beth yr ymddilladwn, ond cwestiwn eithaf dibwys ar lawer ystyriaeth—nid yw toriad y gôt na chwlwm y cadach braidd yn werth eu henwi, ond fel y maent wedi eu geni o'r ysbryd a llawer o'i ddirgelion yn dyfod i'r golwg trwyddynt, a dyna pa ham yr ydym yn eu crybwyll wrth son am ein cyfaill fel gwr aneithafol. Yr oedd ei edrychiad ar y Sabboth, neu ar ddydd y gymanfa fawr, bob amser yn weddus a boneddigaidd, heb fod yn *rhy* mewn dim. Yn rhy aflerw ac esgeulus, nac yn rhy goeg a thrwsiadus. Ei gadach gwyn oedd yr unig beth a fu ar unrhyw adeg yn arddangos manylwch neillduol, a hyny

Digitized by Google

yn amser Mrs. Pugh; a'r diffyg manylwch hwn yn rhwymyn y gwddf oedd y peth cyntaf yn ei wisg, a dynodd sylw y gynnulleidfa wedi ei marwolaeth. Y mae rhai i'w cael yn astudio y ddau eithafion fel crefft, i'r dyben i dynu sylw, wrth yr hyn y maent yn diniwaid gyfaddef, nad oes ynddynt ddim byd arall i wneyd hyn. Mae pob eithafion i'w gochelyd, hyd yn nod, pan fyddo tuedd naturiol yn gogwydd at hyny, ond mae eu hargeisio er mwyn hynodrwydd, yn un o'r pethau mwyaf isel a dirmygedig. Yr oedd Mr. Pugh yn hyn mor naturiol a dysyml a phlentyn. Yr oedd i'w weled y peth oedd, fel yr oedd, heb fod na hud na lledrith yn tywyllu rhyngoch ag ef mewn dim.

Yr oedd hefyd yn naturiol gyson a gwastad yn ei holl ffyrdd, a chyda pha beth bynag yr ymaflai ei law ynddo i'w wneuthur. Dygai ei oruchwylion yn mlaen yn fwy wrth drefn na damwain, ac wrth reswm yn fwy na theimlad. Nid oedd dim o ddysbeidiau di-reol y llosg fynydd yn perthyn iddo, yr hwn a grych-ferwa am dymor ac a gwsg am oes. Na dim o wyllt yrfa y seren wib, yr hon sydd yn ymddangos, ac yn diflanu yn yr awr na thybioch, ac yn eich gadael heb wybod o ba le y mae wedi dyfod, nac i ba le y mae wedi myned. Yr oedd ynddo fwy o'r seren sefydlog, o'r goleuni disglaer, ac o'r rheoleidd-dra ar yr hwn y gallesid anturio bwrw eich holl ofal. Mae llawer nad oes ganddynt un cartref sefydlog yn un lle. Maent yn wibiaid ac yn grwydriaid mewn gwirionedd—weithiau yn mhegwn y gogledd, ac weithiau yn mhegwn y de, ac nis gellir gwybod pa un. Pan ddywedwch, wele yma, maent hwythau acw. Maent weithiau yn hael, weithiau yn gybyddlyd, weithiau yn fwyn, ac weithiau yn sarug, fel y digwyddo hi. Y ffordd ore sydd wedi ei chael allan hyd yn hyn i ddyfod a hyd iddynt, ydyw, eu cymeryd yn y gwrthwyneb. Gofyn am gareg, pan fydd arnoch eisiau bara, ac am sarff, pan fydd arnoch eisiau pysgodyn; ac os llwyddir rywfodd, fel hyn y gwneir. Mae pawb yn hynaws weithiau. Mae ambell adeg ddof ar gi cynddeiriog, a gosteg i anadlu yn cael ei gymeryd gan y storm, ond fel ymweliad angylion, nid ydynt ond ychydig a phell oddiwrth eu gilydd. Ond yr oedd efe yn gartrefol felly—yn byw, symud, a bod ynddo.

Yr oedd rhywbeth lleddf a hynaws yn ei natur, oddieithr pan gythruddid ef gan yr ystyriaeth o dro gwael wedi ei wneyd ag ef ei hun neu rai o'i gyfeillion, pryd y byddai ei atgasrwydd ato yn gwisgo ei holl ddyn a gwedd o ddirlymder



Digitized by Google

mor naturiol a'r graig noeth uwch ben diffaethwch anial. Ar wahan i hyn, nid oedd neb oedd yn fwy tyner a chydnaws, ac yn meddu ar anian oedd yn fwy rhywiog. Yr oedd felly hyd at fod yn feius, yn ei berthynas a'i deulu. Ac yn mha le arall y daw dyn mor drylwyr i'r golwg? Mae llawer un yn angel pen y ffordd, ond yn rhywbeth arall pen y pentan. Os oes eisiau prawf dilys o addfwynder, edrychwch i'r ty. Ymddygiad dyn at ei wraig a'i blant, ac nid ei ymddygiad at ddieithriaid a ddengys ei gymeriad. Gall fod fel arall yn achlysurol, ond fel rheol mae y sylw yn eithaf safadwy. Y dyn a fo dyner yn yr hyn y mae mewn awdurdod, ac at y rhai fo arno yn ymddibynu, ydyw y dyn ac mae ei dynerwch yn wir lun ei natur. Yr oedd ein cyfaill yn blentyn gyda ei blant, ac yn un cnawd a'i briod, a phan gollodd efe hi, y profodd efe hyny yn anfantais iddo am y tro cyntaf; canys nid oedd yn meddu ar ddigon o lymder a phenderfyniad i argyhoeddi a cheryddu gyda'r diysgogrwydd ac yr oedd yr amgylchiad yn galw am dano. Nid oedd erioed wedi bod yn orgryf yn hyn, ond yr oedd edrych ar ei blant fel rhai wedi colli eu mam, wedi gwneyd yr hyn oedd eisioes ynddo yn ddigon gwan, *yn wanach*, a rhoddi grym deublyg i'r hyn nad oedd ynddo ddim oedd ddiffygiol o'r blaen.

Yr oedd ei serch yn awr wedi ymglymu am danynt mor fawr, fel braidd yr oedd yn gallu canfod trwyddo unrhyw ddiffygion ynddynt. Ac fe allai na roddwyd erioed ddarluniad mwy prydferth a naturiol o gariad yr Anfeidrol ei hun, na phan y dywedwyd am dano yn mynydd-dir Moab, "Na welai efe anwiredd yn Jacob, na thrawsedd yn Israel." Pa beth a ddaw o hono gyda'i blant bach, meddai y bobl pan fu farw Mrs. Pugh. Yr un fath a phe dywedasent, Pa beth a ddaw o hono gyda'r holl ffynonau cysur; gyda'r holl ategion sydd yn cynal ei feddwl rhag suddo, ac yn cadw ei feddyliau isel draw. Hwy oedd ei bobpeth weithian mewn ystyr dymhorol, ac yn lle gofyn pa beth a ddaw o hono gyda hwynt, buasai yn fwy rhesymol gofyn, pa beth a ddaethai o hono hebddynt. Nid rhyfedd pan ystyriom hyn, ei fod wedi dyfod yn wan gyda golwg ar hen oruchwyliaeth galed y wialen a'r iau gaeth, ac yn gryf gyda golwg ar un dyner y maddeu, a'r gollwng dros gof. Nis gallai wneyd mynach o hono ei hun drwy gosbi ei gig a'i waed, dan yr amgylchiadau presenol fodd bynag, os bu tymor erioed arno y gallai wneyd hyn. Mae rhai rhieni yn gallu dynwared y ddeddf-roddwr, a chosbi eu plant mewn

Digitized by Google

gwaed oer, fel y cosbir y troseddwr yn y llys, a bod mor ddi-ystyr a delw at ystyr eu gwaedd. Llygaid sydd iddynt, ond ni welant, clustiau sydd iddynt, ond ni chlywant. Efallai eu bod yn eu lle, ond y mae yn hollol anhyall i ni, ac yr ydym yn methu wrth chwilio a dyfod o hyd i'r cyfryw ddeddf ynom ein hunain. Ond tra yr ydym yn cydnabod hawl y teimlad, yr ydym yn cydnabod hawl y rheswm, a'r pwys fod y naill fel y llall yn cael ei arfer yn ngweinyddiad y ddysgyblaeth deuluaidd. "Gwn," meddai efe, "fy mod yn rhy dyner wrthynt yn aml er eu lles, ond yn fy myw nis gallaf beidio." Yr un fath ac y dywedai Robert Hall am draethawd Dr. Adam Clark yn erbyn arferyd myglys—"Nis gallaf ateb ei resymau ac nis gallaf ei droi o'r neilldu." Y gor-anwyldeb hwn at y plant, yn nghyd a'i anallu i ollwng eu mam dros gof, a'i cadwai rhag priodi eilwaith, pan anogid ef i hyny gan ei gyfeillion. Na, nis gallai feddwl am neb i sefyll rhyngddo a'i anwyliaid, ac wedi iddynt ddyfod yn alluog i ymdaraw drostynt eu hunain, yr oedd yn ystyried hyny yn afreidiol. Yr ydym yn tybied fod hyn yn ddigon i ddangos y dyn yn serchawgrwydd ac anwyldeb ei natur i bawb. Yr aelwyd gartref ydyw y *machine* ar ba un y mae dyn i'w fesur a'i bwyso, ac nid ty ac aelwyd neb arall; ac os deil efe ei brawf yma, gellir anturio ei gymeryd fel eiddo didwyll gan y byd oddiallan.

Oddiwrth ddyn o'r cymeriad hwn, gellir disgwyl cydymdeimlad trwyadl a phob daioni a chyfyngder, gan yn mha le bynag yr ymddengys—i fod yn llawen gyda rhai sydd lawen, ac i wylo gyda rhai sydd yn wylo, ac i deimlo dros y rhai yn rhwym fel pe yn rhwym gyda hwynt. Mae hyn yn un o'r neillduolion ag sydd yn perthyn yn wreiddiol i'r natur ddynol, ac yn ei thra dderchafu mewn cyferbyniad i'r un anifeilaidd. Pawr un anifail yn ymyl un arall a fo ar drengu neu wedi trengu, heb ystyr dim, ac ni feddyliai neb am ei alw yn greadur caled a dideimlad o'r herwydd, na meddwl dim llai o hono. Ond pe gwnelai y naill ddyn hyn a'r llall, codai cymdeithas wrth reddf yn ei erbyn, a chwdai ef allan o'i genau fel adyn ysgymynedig, fel na fyddai raid dywedyd "ac na dderbyniwch ef i dy" wrth neb. Ni fyddai ganddo un man i edrych am drigfan, ond i blith y beddau, neu i'r gwestai hyny nad ydynt ond enwau eraill ar yr un peth. Ond er y cwbl, y mae rhai i'w cael yn gwneyd hyn, a mwy na hyny, a'i gwnelai eto, oni bae dialedd barn gwlad. Nid teimlad sydd yn eu hatal, ond ofn. Ni estynent un ymwared i'r neb

Digitized by Google

a fyddai ar ddarfod am dano, ac ni roddent flewyn o'u pen yn aberth dros fywyd neb, ond yn unig rhag cywilydd. Ae'nt heibio yn ddigon iach yr ochr arall i'r ffordd ar yr hon y byddai y truan archolledig yn gorwedd, ond iddynt allu myned heb i neb eu gweled. Diffyg gwrolder ac nid diffyg caledwch yn unig fydd yn eu cadw rhag bod yn ddreigiau pur.

Mae eraill yn deimladwy yn unig o gydwybod—dynion sych, diofal—cyfiawnion, dros ba rai braidd y bydd neb farw. Nid yw gweithred o drugaredd iddynt yn fwyd nac yn ddiod, ac ni waeddai eu cnawd a'u calon am dani byth. Gwnant hi yn unig o ddyledswydd, a dyna y cyfan. Nid âent byth oddi amgylch gan wneuthur daioni, nac i chwilio am le i drugarhau, ac ni aroglant gyfyngder a thrallod o bell. Cyflawnder y gyfraith iddynt hwy yw y gorchymyn ac nid cariad, ac oddi yma y tardd eu holl gyfiawnderau. Ond nid yw hyn ond eithriad wedi y cwbl. Mae trysorfa o dynerwch a thosturi yn y natur ddynol yn nghanol y tueddiadau amryw a dieithr sydd ynddi, a'r na adawai i'r truan a'r cystuddiedig ysgogi byth, pe heb yr un ddeddf yn ei orchymyn, yn amgen na'r hon sydd yn ysgrifenedig ar ei llechau cnawdol ei hun.

Ni adwaenem neb ag oedd yn rhagori ar ein cyfaill yn nwysder ac eangder ei deimlad, nac yn y ffurf sylweddol trwy ba un y byddai hwnw yn dangos ei hun. Teimlai yn ei logell, a hyny yn aml hyd at fod yn wasgedig arno ei hun, a gallai ddywedyd yn hyn fel mewn mater arall, "nis gallaf wrtho yn fy myw, nis gallaf beidio." Yr ydym yn cofio fod gydag ef unwaith mewn cyfarfod mawr, i'r hwn, ar ddamwain, y daeth efrydydd, ag oedd yn cynal ei hun mewn ysgol er mwyn ymgymhwyso ar gyfer myned i'r athrofa. Nid oedd un gydnabyddiaeth neillduol rhwng Mr. Pugh ag ef, ond gwyddai nas gallai lai na bod mewn angen, a gorchymynodd i'r trysorwr roddi y rhan oedd yn dygwydd iddo ef o'r da, i'r efrydydd, gan ychwanegu, "Rhaid ei bod yn ddigon cyfyng ar fechgyn fel hyn, wrth eu bod mewn amgylchiad nad oes ganddynt un cyfleusdra i ymladd drostynt eu hunain." Nid yw hyn ond un engraifft allan o lawer. Yr oedd ei galon fel dwfr phiol lawn yn rhedeg drosodd, a hwnw mor bur a naturiol a'r dwfr oedd yn tarddu dan riniog ty. Yr oedd ei deimlad bob amser mor dyner a thanau y delyn Aeolaidd, yr hon a swynid i chwareu yr alawon mwyaf per gan amnaid hudoliaethus yr awel. Son yr ydym yn awr am gydymdeimlad, yr hyn sydd yn golygu teimlad blaenorol mewn arall, o'r hwn

Digitized by Google

yr ydys trwy y ddawn sydd ynom, yn dyfod yn gyfranog, ac yn cael ein gwneyd yn un cnawd, er bod yn adgyfnerthiad y naill i'r llall. Rhyfedd ac ofnadwy ein gwnaed! Mae y meddwl fel y corff, yn alluog i ymgynal dan fwy o bwysau yn ol amlder yr attegion fydd o dano. Pe dywedid fod caethwas yn Affrica yn cydymdeimlo a chwi yn eich trallod, byddai yn nerth anrhaethadwy yn eich mynydd. Ond nid o deimlad eich cyd-ddyn yn unig yr ydych yn dyfod yn gyfranog trwy y ddawn hon, ond o bob amgylchiad a golygfa sydd o amgylch ogylch i chwi yn y byd, fel ag i'ch gwneyd yn aelod o'r gymdeithas fawr gyffredinol, o'r hon yr enwir yr holl deulu, ac yn wir ddinesydd yn nghreadigaeth Duw! Ni wyddom ond am ychydig ag oedd wedi eu cynysgaethu yn fwy a'r ddawn fendigedig hon i dderbyn argraff oddiwrth brydweddion natur a rhagluniaeth, na ein diweddar gyfaill. Yr oedd ganddo lygad i weled anian a chalon i gydymdeimlo a hi, a doethineb i dderbyn ei haddysg. O! ddyfnder trueni y dynion, nad oes gan ffurfafen y nefoedd pan wedi ei haddurno gan ysbryd Duw, yr un gyfrinach iddynt i'w datguddio; na'r ddaear pan wedi ei heneinio ag olew gorfoledd gan gafodau maethlawn mis Mai, yr un cwestiwn iddynt i'w ofyn!

"That delightful season, amid sunshine and fragrance, and the thousand voices of joy that make the air one universal song of rapture, as if heaven and earth were truly glad at heart."

Llinell arall neillduol yn ei nodweddiad oedd distawrwydd dirwgnach, pan yn nghanol y caledi mwyaf. Er ei fod o deimlad cryf a dwfn, a gwybod o hono beth oedd bod yn gynefin a dolur, ni rwgnachodd megis y grwgnachodd rhai ohonynt hwy. Gwyddai yn brofiadol beth oedd disgyn i odrau y mynyddoedd, a beth oedd ymglymu o'r hesg am ei ben, a beth oedd bod mewn teimlad oedd ddyfnach na'r cwbl. Ond ni wyddai beth oedd dywedyd, "D'oes gofid neb fel fy ngofid i." A dyma oedd yn sancteiddio y distawrwydd, ac yn ei wneuthur yn rasol ac anrhydeddus gerbron Duw. Yr un fath ac y dywedai Wellington yn rhyfel yr Orynys (*Peninsular War*) wrth weled milwr yn myned i fynu at amgaerfa y gelyn a'i wyneb yn delwi gan yr ystyriaeth o'i berygl. Dyna, ebe fe wrth ei swyddogion, yr hyn yr ydwyf yn ei alw yn wir wroldeb, dyn yn *gwybod* ei berygl, ac eto yn ei wynebu. Yr ymwybodaeth, ac nid y ffaith, oedd yn gwneyd y weithred yn

Digitized by Google

wrol. Felly y dywedwn ninau, teimlad y fynwes, ac nid mudandod y tafod oedd yn gwneyd y distawrwydd yn rhinwedd.

Codai ei ddistawrwydd oddiar yr un egwyddor ag eiddo y cyfiawn hwnw ar na waeddai, ac na dderchafai, ac na pharai glywed ei lef yn yr heol. Ychydig sydd genym o feddwl o ddyndod na chrefydd y dyn sydd yn gôr-gwyno, ac yn blino eraill cyn o'r bron i'r drwg nesau at ei babell. Yr hwn mae ceiliog rhedyn yn faich iddo, a chysgod y cwmwl yn ei ddychrynu. Y rhyd, y lle basaf ar yr afon sydd bob amser yn cwynfan, ac nid y dwfn sydd a'i waelod yn anweledig. Ond nid yw pob distawrwydd yn ganmoladwy wedi y cyfan. Y mae distawrwydd pechadurus, yr hwn a gyfyd o feddwl wedi ymddigio, ac a heneiddia yr esgyrn gan ddwyn pydredd i'r holl gnawd. Ac y mae distawrwydd diddrwg, didda, o herwydd nad oes ganddo ddim i gwyno o'i herwydd. Mae y ffordd o'i flaen wedi ei phalmantu, a digonolrwydd wedi cau o'i amgylch. Ond gwyr pawb a adwaenai Mr. Pugh, iddo gael llawer cwpan ddigon chwerw i'w hyfed, a llawer baich ddigon trwm i'w gario. Cafodd symbylau yn ei gnawd ac arteithiau yn ei feddwl. Bu yn mheryglon gan ei genedl ei hun, ac yn mheryglon yn mhlith brodyr gau. Collodd fam ei blant pan nad oedd yr ieuengaf ond prin haner blwydd oed. Cafodd gystudd trwm am fisoedd, yr hwn a'i dygodd at borth angau. Gwelodd y gweithiau yn yr ardal yn sefyll, a gwaith ei olewydd-lanoedd yn pallu, ac yntau gyda'i deulu bach yn cael ei adael am amseroedd, heb brin haner gwobr gweithiwr fesur dydd. Yr hyn, pe digwyddasai i lawer, a fuasai yn ddigon i beri iddynt fod yn bla gwlad, ac i godi maen â chwynfaen a'i nen hyd y nefoedd. Ond er hyn oll, ni agorodd efe ei enau i roddi dim yn ynfyd yn erbyn Duw na'i gyfeillion, ac nid aeth at ddrws un drysorfa a'i gap yn ei law i wneyd un math o oer nadau. Pan byddai ei ragolygon yn goleuo neu yn tywyllu, a'i amgylchiadau yn codi neu yn gostwng, yr oedd yn gallu dywedyd gyda'r apostol, "Mi a fedraf ymostwng, ac a fedraf ymhelaethu; yn mhob lle ac yn mhob peth i'm haddysgwyd, i fod yn llawn ac i fod yn newynog, i fod mewn helaethrwydd, ac i fod mewn prinder." A chlywsom ef yn dywedyd, mai byw yr oedd efe a'i deulu wedi wneyd cynt, a byw yr oeddynt wedi ei wneyd y pryd hyny, yr hyn sydd yn myned yn mhell i brofi, nad yw yr hen athrawiaeth mewn perthynas i'r blawd yn y celwrn yn nhir

Digitized by Google

Sarepta, wedi colli dim o'i gogoniant i'r neb a fedd ffydd arni i bwyso yn y dyddiau diweddaf hyn. Ac y mae yn deilwng o sylw, mai y rhai sydd yn siarad leiaf am ei beichiau gyda dynion, yw y rhai sydd yn siarad mwyaf am danynt gyda Duw, a rhai sydd yn siarad leiaf gyda Duw, sydd yn siarad mwyaf gyda dynion. A dyma ddirgelwch y distawrwydd am ba un yr ydym wedi bod yn son.

Ond mwy na bod yn ddistaw a dirwgnach, yr oedd bob amser yn siriol. Yr oedd yn llawen mewn gobaith, yn gystal ac yn ddioddefgar mewn cystudd. Ond braidd y tybia llawer fod y fath beth a sirioldeb yn werth ei grybwyll yn ei gysylltiad a neb, yn enwedig ei wneyd yn adran arbenig o'r nodweddiad. Ond pwy atolwg all brisio y filfed ran o'i werth i gymdeithas, neu y filfed ran o werth y cyfryngau lleiaf, trwy ba rai y mae Duw yn gweled yn dda ei gyfranu! Onid yw efe wedi astudio ein cysuron i'r manylwch mwyaf, yn y cartref yn mha un y mae wedi ein gosod, a'r ty, a'r dodrefn, y mae wedi eu rhoddi er ein gwasanaeth? Ac onid yw wedi eu gwisgo, a'u trefnu, a'u harliwio, fel y parent fwyaf o hyfrydwch i ni; a phob un wedi cael ordeinio iddo ei ran tuag at wneyd i fynu ein mwynhad? Pa le y mae y doeth, neu yr ysgrifenydd, neu yr ymholydd, a all ddirnad y swm y mae hyd yn nod y friallen unig a dyf o'r clawdd, yn ei gyfranu tuag at wneyd y byd yn fwy dedwydd. Neu yr hyn y mae y rhosyn gwyllt wrth wenu rhwng y drain, yn ei roddi at yr un peth? Heblaw lili y dyffrynoedd, a'r gwinwydd îr, yn nghyd a myrdd o bob rhywogaeth ag sydd yn bwrw eu hatlin i'r un drysorfa. Pwy sydd, nad yw yn teimlo ei galon yn fwy ysgafn ar ddiwrnod teg a thyner, pan fo yr awel yn llwythog gan arogl y maes, nac ar ddiwrnod tywyll a niwliog, fel y wawr wedi ymwasgaru ar benau y mynyddoedd? Ie, pwy sydd heb deimlo ei natur yn fwy pur, santaidd, a dyrchafedig? SIRIOLDEB! Beth fyddai ein byd hebddo? Beth fyddai ein mynwes, ein tai, a'n cyfeillach, ond trigle cysgod marwolaeth. Na, mae y dyn siriol, crefyddol, yn gymwynaswr i'r byd, ac yn un o roddion deheulaw yr Arglwydd. Ac os oes neb yn ein hameu, eistedded am ddiwrnod yn nghymdeithas y pruddglwyfus, sydd a chymylau a thywyllwch o'i amgylch ganol dydd, a dychrynfeydd uffern yn ei aflonyddu ganol nos. Yr hwn y mae paradwys iddo yn anialwch, a'r dil mel yn wermod. Yr ydym yn son am hyn yn neillduol yn ei berthynas a'n hen gyfaill Mr. Pugh, am ei fod yn un o'r adranau penaf

Digitized by Google

oedd yn gwneyd i fynu ei nodweddiad. Yr oedd i'w weled ynddo yn siriol lewyrchu yn nghanol ei dywydd mwyaf garw, fel blodeuyn a f'ai yn nghanol yr eira ar lechweddi yr Alps wedi ymwthio i'r golwg rhwng holltau y rhew.

Yr oedd ganddo ef fwyd i'w fwyta na wyddai y cyffredin ddim am dano, a rhywbeth ynddo ei hun oedd yn ardymheru pob hinsawdd y byddai ynddi, ac yn ei gadw rhag cael ei dra ddarostwng gan ddim. Ni fu bywyd neb erioed yn fwy o eglurhad ymarferol ar yr adnod sydd yn gorchymyn i ni fod yn llawen yn wastadol, ac yn mhob dim i ddiolch. Na dim un yn gadael can lleied o le i ni gredu fod y cymylau wedi bod yn dychwelyd ar ol y gwlaw yn awyrgylch ei ysbryd, er ar yr un pryd, ein bod yn gwybod yn amgen. Os byddai mewn cyfyng-gynghor ei hun, ni chai neb arall fod mewn cyfyng-gynghor o'i achos. I gysuro y galarus, ac nid i dristau y llawen yr oedd ef wedi cael ei ddanfon. I gadw y siriol rhag myned yn brudd, ac nid i gadw y prudd rhag myned yn siriol; ac erioed ni bu neb yn fwy ffyddlawn yn ei alwedigaeth. Yr oedd ei gyfeillach fel gwyneb gwanwyn neu fore haf, yn rhoddi adloniant drwy ei holl natur. Nid oedd cyfeillach neb yn fwy hoff, ac yn cael ei hargeisio yn fwy mynych. Yr oedd yn iechyd corff ac ysbryd, i fod am ddiwrnod yn ei gymdeithas, ac ni fyddai eich pen na'ch calon ddim ar eu colled. Nid oedd un o'i gyffelyb am eich dirdynu a chwerthin, a gyru cynhyrfiadau moesol drwy eich cyfansoddiad, nes peri i chwi anghofio y pethau o'r tu cefn a chyrchu at y pethau o'r tu blaen. Nis gallai prudd-der oddef dydd ei ddyfodiad mwy nac aderyn nos doriad gwawr, ac hyd yn nod yn y meddwl am dano, y mae ar unwaith yn gollwng o honoch ei afaelion.

Dawn arall ynddo a ddylem ei chrybwyll mewn cysylltiad a hyn, oedd ei ffraethineb, yr hyn a wna i ffordd ag unryw ormodiaeth a dybir ein bod wedi ei ddefnyddio yn yr ymadroddion blaenorol, gyda golwg ar ei allu i roddi bywyd mewn cyfeillach. Ond o ran hyny, Pwy? ag sydd yn gwybod dim o gwbl am Pugh o Fostyn, sydd heb wybod am dano fel dyn ffraeth? Pwy a ddarllenodd ddim o'i ysgrifau, neu a wrandawodd ddim o'i eiriau, heb i'r argraff yma gael ei wneuthur ar ei feddwl? Onid yw ei ffraethder yn ddiarebol, ac wedi ei gysylltu weithian yn anatodol a'i enw? Ond y mae y ddawn hon fel ei chwiorydd, yn dda neu yn ddrwg fel yr arferir hi; ac o'r cyfan, y hi ydyw y fwyaf peryglus o'i chamarfer. Gall eich taflu i'r ffos, neu eich codi ar y graig—eich blingo yn fyw,

Digitized by Google

neu iachau eich holl lesgedd. A dedwydd yn ddiau yw y gymdeithas lle y mae y rhai sydd yn ei pherchenogi yn feddianol ar ddoethineb ac ofn yr Arglwydd. Yr oedd hi yn ein cyfaill yn wreiddiol, a'i lleferydd mor goeth a phur a'r diamwnt. Nid masnachu mewn ffraeth-ddywediadau yr ydoedd, fel marchnatawr yn ceisio perlau teg, ond eu cloddio allan o'i fwynglawdd ei hun. Nid oedd eisiau arno fyned i eithafoedd y ddaear am y per lysiau o'r rhai y tynir allan yr enaint tywalltedig. Yr oeddynt yn tyfu yn naturiol yn ei ardd, a hyny i'r fath gyflawnder, fel na byddai arno byth brinder. Ni wybyddwyd erioed i'w hadnoddau ballu, nac i'w hireidd-der fod yn goddef oddiwrth ddyfod gwres. Mae pawb yn ffraeth ar brydiau, a'r mwyaf dwl yn gollwng ei saeth i gysylltiadau llurig wrth dynu ar amcan. Ond yr oedd hyn iddo ef fel anadlu, a phob gair yn myned ar ei uniawn i'w nod fel y saeth oddiar fwa y cadarn.

Profid ef weithiau a ffraetheiriau gan ei gyfeillion er mwyn difyrwch, ond nid heb dalu y dreth i'r ffyrling eithaf am eu rhyfyg. Nid oedd dim ymhela ag ef ar y pen hwn, yr oedd fel brenin Israel, am yr hwn y dywedwyd, mai yn erbyn pwy bynag yr ymwynebodd, efe a orchfygodd. Yr ydym y cofio cyfaill unwaith yn adgoffa iddo yn gellweirus rhyw hen dro trwstan ag oedd wedi ei gyfarfod, ac yn dywedyd fod yr *idea* a'r *idea* bob amser yn ei daro wrth feddwl am dano, gan dybio, bid siwr, gael ychydig o ddifyrwch diniwaid ar ei draul. Ond cyn cael o hono hamdden i yngan gair yn mhellach, yr oedd y cyfrwy odditano wedi troi, ac yntau o dan bistylloedd diymarbed y *shower bath* yn dwyn ei benyd oreu gallai. "CAEL EICH TARO GAN IDEA! GWARCHOD PAWB!! DAMWAIN ARSWYDUS ONIDE!! Glywsoch chwi," meddai wrth un arall oedd yn digwydd bod o'r neilldu, "am y ddamwain fawr sydd wedi digwydd i'r brawd? Mae Idea wedi ei gyfarfod ac wedi ei daro! Yn mha le yr oeddych chwi druan pan darawyd chwi? Oeddych chwi yn digwydd bod yn agos i ryw gyfanedd? Fuoch chwi yn hir cyn dyfod atoch eich hun ar ol hyny?" nes oedd pawb yn ymnyddu gan chwerthin, a'r brawd oedd wedi bod ar yr arteithglwyd ei hun, yn ymdrechu ei oreu i gyduno fel y ffordd fwyaf effeithiol i liniaru yr iasau ag oedd wedi bod yn cerdded dros ei holl gorff. Yr oedd yn ffraeth a haner gellweirus pan dan arteithiau llymaf y droedwst, a'r hyn y blinid ef yn awr ac eilwaith mor fawr. Yr oedd mor naturiol iddo fel nad oedd ganddo yn aml un help iddo ei hun nac ymwybodaeth bob amser o'i fod felly.

Digitized by Google

Yr ydym yn cofio ei fod yn ddioddefydd mawr oddiwrth yr anhwyldeb uchod unwaith yn Mhensarn, Abergele, ac i swyddog perthynol i'r North and South Wales Bank, a pha un yr oedd yn dra chyfeillgar, ddyfod yno i edrych am dano, gan ofyn yn dosturiol yn mhlith pethau eraill, a oedd dim byd i'w gael i esmwytho y boen ddirgnoawl oedd yn ei draed. "Oes," meddai yntau, "ac y maent yn dywedyd fod genych chwi tua Liverpool ddigon o hono, pe byddai genych ddigon o grefydd i adael i greaduriaid tylodion mewn gofidiau ei gael." "Wel! beth ydyw, Mr. Pugh. bach, ac mi ofalaf am i chwi ei gael yn ddioed?" "*Bank notes*," meddai yntau, "maent yn dywedyd wrthyf fi mai pethau iach iawn ydynt, a phe byddai modd i mi gael plastar o honynt wrth fy nhraed am bymthegnos neu dair wythnos, a'u newid hwynt bob dydd am ystod hyny o amser, y byddwn yn sicr o wella yn drwyadl. A chan eich bod mor grefyddol a charedig, byddaf yn ddiolchgar am gael bocsiad o honynt gyda'r cyfleustra cyntaf." Tua'r un adeg, galwodd cyfaill arall i edrych am dano, ac wrth fyned ymaith, dodai yn ddireidus ddernyn gwyn tair ceiniog yn ei law, gan orchymyn iddo geisio gwin a chig ffres, ac angenrheidiau eraill at ei fynych wendid. Edrychai yntau arno yn ddifrifol gan ddywedyd, "Yr ydych wedi peri i mi geisio gwin a chig ffres, ac angenrheidiau eraill, ond nid ydych wedi dywedyd dim am y peth sydd fwyaf anhawdd i mi wybod o'r cwbl, sef beth ydwyf i wneuthur a'r gweddill! Ac os nad ydych wedi penderfynu, fe allai na fydd genych un gwrthwynebiad iddo gael ei ranu rhwng tylodion y plwyf yn gof am eich ymweliad haelionus a'r ardal."

Ond pa mor lym a thrywanol bynag a fyddai rhai o'i ymadroddion, byddai y fath naws o natur dda yn rhedeg trwyddynt ag a fyddai yn eu gwneuthur yn ddiachos tramgwydd i bawb. Byddent yn tori i'r byw weithiau mae yn wir, ac yn eich dirdynu am eiliad, ond byddai absenoldeb pob amcan i glwyfo ynddynt, yn iachau y cyfan ar unwaith. Ychydig o ddim ysbryd chwerwedd sydd yn nglyn a'i holl ffraethineb, ac nis gallwn yn awr alw i'n cof ond un amgylchiad, yn yr hwn y mae yr ysbryd yma yn ymddangos fel yn teyrnasu, a hyny ar achlysur o gais gael ei wneyd ato gan eglwys nid can' milltir o Fostyn, i ddyfod yno i wneyd trefn ar ryw ymrafaelion oedd wedi ymgyfodi ynddi. Yr oedd dau ddiacon wedi dyfod ato i'r perwyl, ac wedi agoryd o honynt eu neges, gofynodd iddynt yn sychaidd, "Pa le yr oeddych yn adeg eich cyfar-

Digitized by Google

fod blynyddol diweddaf? Yr oeddwn i yma y pryd hwnw, ond ni welais yr un o honoch chwi yma. Pa le yr oeddych yn adeg eich cyfarfod blynyddol y llynedd? a'r flwyddyn flaenorol, a'r flwyddyn cyn hyny? Yr oeddwn i yma o hyd, ond ni ddaeth neb o honoch chwi yn agos. Yr oeddych yn myned i leoedd eraill i gael gwneyd eich harddwaith, ac yn dyfod yma i gael gwneyd eich bryntwaith. Pan fydd arnoch eisiau riban a llysern, yr ydych yn myned i'r fan a'r fan, ond pan mae arnoch eisiau ysgub yr ydych yn dyfod i Fostyn! Y rhai'n a'r rhai'n a wnaiff y tro i fod yn efengylwyr ac athrawon; ond yr ydych yn meddwl y gwnaf inau y tro i fod yn geisbwl. Na, ewch i geisio ceisbwl i'r fan ag yr ydych yn myned i geisio athraw, ac ysgub i'r un fan ag yr ydych yn cael eich ribanau." Dyma yr unig fan yr ydym yn cael un arwydd neillduol o chwerwedd ar ei ffraethineb, ac ar gyfrif ei neillduolrwydd yn yr ystyr hwn yn unig yr ydym yn cyfeirio ato. Ac y mae yn gwbl sicr genym, ei fod yn fwy esmwyth a llyfn yn y dull y cafodd ei lefaru, nac yn y dull y mae wedi ei gofnodi. Er, ar yr un pryd, nad ydym ni yn ei ystyried un gronyn yn rhy lym i gyfarfod a'r amgylchiad y cafodd ei lefaru, nac i gyfarfod a'r bobl oedd yn ddigon diniwaid i dybio, y dylasai fod yn ddiolchgar am gael y fraint o'i sarhau. Gyda'r eithriad hwn, ag sydd fel cwmwl unig ar ganol gwybr glir, byddai ardymer afiaethus wedi ei anadlu dros y pethau mwyaf ffraethlym.

Pan yn anfon at ei gyfeillion i gydymdeimlo a hwynt mewn profedigaethau, byddai ei ysgrifell bob amser yn diferu gan fyrr, a'i lythyr fel ymweliad angel Duw. Ond ar amgylchiad cyffredin o rydd gyfeillgarwch, byddai mor ddiddan a dyddorol, ac mor llawn o *humour* nes byddai yn adnewyddu eich ieuengctyd fel yr eryr. Yr ydym yn cofio unwaith yn amser gweinyddiaeth Iarll Derby, a Disraeli yn Arglwydd y Trysorlys, fod Mr. Rees, Lerpwl, yn myned i Lundain ar ryw achos na'i gilydd, ac yn anfon, mewn ysmaldod, at Mr. Pugh, cyn cychwyn, i ddyweyd ei fod yn myned yno i droi y Toriaid allan o'u swyddi. Ac fel y digwyddodd hi, yr oedd Disraeli yn dyfod a'i gyllideb (*budget*) gerbron y Ty yn mhen diwrnod neu ddau wedi ei fynediad i fynu, ac yn y ddadl a gymerodd le ar hono, torodd y weinyddiaeth i lawr, ac anfonodd yntau yn uniongyrchol at Pugh i ddyweyd ei fod wedi llwyddo yn ei amcan, a bod y Toriaid ar y clwt. Anfonodd yntau yn ol yn ddioed. "Anwyl Mr. Rees, * * Yr ydwyf

Digitized by Google

yn gobeithio na bydd i chwi anghofio eich hen gyfeillion yn awr pan mae rhagluniaeth wedi eich gosod mewn cystal cyfleusdra i'w gwasanaethu. Wrth mai chwi fu yn foddion i daflu Iarll Derby allan, am danoch chwi yn ddiamau y bydd y Frenhines yn gyru, i'r dyben i ffurfio gweinyddiaeth newydd, ac yr ydwyf yn cymeryd y cyfleusdra presenol i'ch hysbysu fy mod i yn eithaf boddlon, er mwyn y wlad, i gymeryd rhyw swydd ynddi. Admiral neu General, neu ryw swydd gyffelyb. Mi a awn yn Esgob yn hytrach na rhoddi achos tramgwydd i'n Grasusaf Frenhines. Ond wrth fy mod yn wr llonydd, heddychol, byddai yn fwy dymunol genyf fod yn Admiral neu yn General. Mae yr Esgobion o ysbryd rhy ryfelgar ac aflywodraethus i'r neb fo yn caru tangnefedd i fyw gyda hwynt. Ond fe allai y gellwch chwi gael ryw swyddi iddynt hwy a fyddai yn fwy cydnaws a'u natur, ac yn well gyda golwg ar eu hiachawdwriaeth. Mae yna swydd yn perthyn i'r Brenhindy a elwir *Beef Taster*, ac yn gofyn am gryn ddau ddwsin i'w chyflawni. Beth pe cynhygid hono iddynt? gallwn i feddwl y byddai yn anhawdd i chwi gael neb yn fwy cymwys at y gwaith. Ond o'm rhan fy hun, yr ydwyf fi yn foddlon, er mwyn y cyhoedd, i ymwadu a mi fy hun, ac i gymeryd un o'r swyddi a nodais. Ni raid i chwi ond son am danaf wrth ei Mawrhydi, a dywedyd mai Pugh o Fostyn ydwyf, mae hi yn gwybod am fy enw yn eithaf da—wedi ei weled yn y *Dysgedydd* a'r *Dyddiadur*. Yr ydwyf wedi anfon fy esgidiau i'r cobler i roi sychod ar eu trwynau a chlemiau dan eu sodlau, fel y byddaf yn barod i ddyfod i fynu ar yr alwad gyntaf. A chofiwch hysbysu hyn i'w Mawrhydi yn ddioed, er mwyn ei thynu o'i phryder a chadw y wlad yn dawel.

Gallem yn hawdd ddyfynu ugeiniau o'i ddywediadau ag sydd mor bert a chynwysfawr a diarebion, ond nid yw hyny yn gorwedd o fewn cylch ein cynllun, ond cyn belled ac y mae yn angenrheidiol i roddi goleuni ar ei nodweddiad, a thy fewn i'r terfyn hwn ag sydd i ni wedi ei osod, yr ydym wedi gwneuthur ein goreu hyd yn hyn i ymgadw. Heblaw yr adnoddau diysbydd hyn oedd yn ei feddwl ei hun i roddi bywyd yn mhob cymdeithas, yr oedd ganddo ystorfa o hanesion difyrus ac addysgiadol, ag oedd yr un mor ddiysbydd, a gallu i'w hadrodd ag oedd braidd yn ddigymar. Ni fyddai ei hanesion byth heb eu nod, na'r nod hwnw byth heb ei gyraedd, yr hyn fyddai yn gwneyd ei gymdeithas yn ddifyr ac

Digitized by Google

addysgiadol, ac yn fynych yn gadael naws grefyddol ar eich holl ddyn.

Yr oedd hefyd yn gallu mwynhau bywyd, ac o'r holl roddion a roddes Duw i feibion dynion, nid y lleiaf ydyw y rhyddid y mae wedi ei roddi i ddyn i gymeryd ei ran, ac i lawenychu yn ei lafur. Mae bywyd ambell un yn faich iddo ei hun, ac yn faich i eraill. Nid yw yn ymddangos fel yn gallu mwynhau dim, na phrisio y bendithion y mae Duw wedi eu rhoddi fel etifeddiaeth i ddyn. Maent yn rhy grefyddol i fyned i mewn i'r celloedd pan y maent yn llawn, ac yn rhy grefyddol i beidio grwgnach pan maent yn wag; a chymaint o angen eu rhybuddio am beidio bod yn *rhy* dduwiol, ac sydd o angen eu rhybuddio am beidio bod yn *rhy* annuwiol. Ni welsom neb erioed yn iawn brisio doniau rhagluniaeth yn well na'n diweddar gyfaill, nac un yn eu mwynhau yn fwy dihoced. Yr oedd yn teimlo Duw yn ateb i lawenydd ei galon, ac yntau yn gallu ymhyfrydu yn ei holl waith. Nid oedd efe ddim am fod yn fynach sûr, am ei fod yn bregethwr, nac am beidio chwerthin allan yn iach am ei fod dan enw gweinidog y cysegr. Nid pechu yn erbyn natur oedd duwioldeb yn ol ei farn ef, ac nid trwy ffug yr oedd neb i gael ei ddwyn i garu y gwirionedd. Gallai hyn wneyd y tro fel abwyd i hudo y gwan, ond nid gosodwr abwyd yw gweinidog yr Efengyl i fod. Os yw geiriau denu o ddoethineb ddynol yn ddrwg, mae ymddygiadau denu o ddichell ddynol yn waeth. Trwy fod yn naturiol, yn onest, ac yn unplyg, yr oedd y gwirionedd i gael ei ddysgu i ddyn, ac achos enaid i gael ei wasanaethu, ac nid trwy dwyll a chnafaidd-dra; ac yn gyson a hyn bob amser yr ymddygai. Nid oedd efe yn meddwl fod mwy o wir grefydd mewn prudd-der nag ydoedd mewn llawenydd. Y creadur mwyaf defosiynol ei ymddangosiad a wyddai efe am dano oedd y ddylluan, ond nid oedd un tipyn o grefydd ynddi er hyny. Golwg ddefosiynol iawn oedd efe yn ei gael ar wagen fawr y cariwr yn myned ddwy filldir yn yr awr, ond nid oedd mymryn mwy o grefydd ynddi, nag yn y gerbydres oedd yn myned ddwy a deugain yn yr awr.

Mae ffugio santeiddrwydd er mwyn rhoddi argraff o grefydd ar y byd, yn un o'r ystrywiau mwyaf annuwiol a arferid gan y Phariseaid, ac a dynodd y fath ddialedd o daranfolltau mor ofnadwy oddiwrth y Gwaredwr am eu pen. A gwae o'r diwrnod yr arddelwyd ef fel un o arfau y filwriaeth nad ydynt gnawdol, ac y dygwyd ef i mewn i gysegr Duw, oherwydd y

Digitized by Google

mae yn darostwng urddas y gwirionedd, ac yn damnio yr achos y mae yn amcanu ei wasanaethu. Ac mae lle i ofni fod llawer o ddysgawdwyr wedi gwneyd mwy o ddrwg i'r byd drwy ddysgu rhagrith iddo a'u hymddygiad, nac a wnaethant erioed o les iddo drwy ddysgu crefydd iddo a'u pregethau. Os nad yw bod yn ddiafol cyfan yn well na bod yn haner un. Ond fel y mae gorc y modd, y mae yr ysbryd hwn yn myned yn ol am ei ogoniant, a'r oes yn gallu gweled drwy yr hûd.

Ond yr oedd Mr. Pugh, heblaw bod yn ddyn hunan-ymwadol a dirodres, yn gristion gloew, ac yn agos o ran ei gymdeithas ag Ysbryd Duw. Ac na feddylied neb, oherwydd ein bod yn dyfod a hyn i mewn yn y cysylltiad presenol, ein bod yn rhagdybio, y gallai fod neb yn meddwl yn amgen, neu fod y dyn, rhydd, llawen, yn anghyson a'r dyn duwiol a santaidd, onide buasem yn chwilio am ryw gysylltiad arall i'w ddwyn i mewn.

Wrth ddywedyd fod Mr. Pugh yn gristion cywir a diledryw, nid ydym yn meddwl yn unig ei grediniaeth ddiysgog yn yr Ysgrythyrau fel datguddiad oddiwrth Dduw, na'i ddealltwriaeth o drefn gras, a'i gymeradwyaeth o honi fel trefn gymwys i bechadur colledig am ei fywyd, yr hyn y mae degau yn ei wneyd nad ydynt erioed wedi credu a'r galon i gyfiawnder. Mae miloedd, yr ydym yn ofni, yn gwneyd eu crefydd i fynu o hyn, ac hyd yn nod o lai na hyn. Mae ganddynt broffwydoliaeth, a'r dirgelion oll, a phob gwybodaeth, ac y mae ganddynt yr holl ffydd, ond ei bod heb fod yn gweithio trwy gariad. Mae y cyfan yn y pen. Oddi yma mae y tywyllwch wedi ei alltudio, a'r anghrediniaeth wedi ei fwrw allan, tra mae y galon yn afluniaidd a gwag, a thywyllwch dudew yn ei gordoi, fel eiddo y ddaear cyn symud o Ysbryd yr Arglwydd ar ei gwyneb. Ond yr oedd y drefn wedi datguddio iddo ef rywbeth oedd o'r blaen yn guddiedig, a chynyrchu ynddo rywbeth ag oedd o'r blaen yn anadnabyddus. Y mae yn teimlo ynddo ei hun newyn a syched, lle yr oedd o'r blaen yn llawn, ac heb eisiau dim. Mae wedi clywed llef o'r nef yn dywedyd wrtho, "A chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef," a rhywbeth oddifewn yn ateb yn ol, "Ac a'm cair ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun," nes mae yr undeb yn cael ei gydnabod o bob tu, a'r Ysbryd yn cael ei roddi fel ernes o hono.

Nid ydym yn meddwl wrth ddywedyd fod Mr. Pugh yn gristion diledryw, y ffrwyth hwnw o haelfrydedd, a chym-

Digitized by Google

wynasgarwch, a thosturi, yr edrychir yn naturiol am dano yn y rhai a ymarddelwant i'r enw. Na'r cariad yr hwn nad yw yn cynfigenu, nac yn ymffrostio, nac yn ymchwyddo, nac yn gwneuthur yn anweddaidd, nac yn ceisio yr eiddo ei hun, yr hyn y mae DYN yn aml yn ei ddysgu, a dyngarwch yn ei wneyd. Mae yn wir fod hyn yn ffrwyth yr Ysbryd, ond y mae yr un mor wir, ei fod yn ffrwyth dysgeidiaeth hefyd. Ond tra mae mewn cysylltiad anatodol a dysgeidiaeth Ysbryd Duw, nid yw ond mewn cysylltiad digwyddiadol a dysgeidiaeth ysbryd y byd. Y mae y ffrwyth hwn yn y cristion, ond y mae ynddo beth arall hefyd, ag sydd yn ei dra ddidoli oddiwrth y glan ei ddwylaw a'r moesol ei ymarweddiad, tra ar yr un pryd y mae yn sefyll yn eu mysg. Gelwir ef yn y Beibl yn 'Grist ynoch,' yn 'Ysbryd sydd yn cyd-dystiolaethu,' yn 'Oleuni y rhai byw,' yn 'Dduwiol anian,' y rhai sydd yn gysylltiedig a'r creu o'r newydd, a'r geni drachefn. Ac er nad yw ei weithredoedd yn aml yn wahanol, mae ei ddyben bob amser felly. Nid yw Duw, na'i drefn, nac ef ei hun, yn cael edrych arnynt o'r un pwynt, na'u gwel'd yn yr un goleu. Mae yn gwneyd yr un peth, ond am reswm arall. Mae y credadyn yn ddarostyngedig i ddeddf Duw, a Duw yn ei feddyliau yn llywodraethu ei gerddediad, ac yn trefnu gwaith ei ddwylaw. Mae wedi ei uno ag ef, a'i wneyd yn gyfranog o'i Ysbryd, a'i fendithio a'r eneiniad oddiwrth y santaidd hwnw yn ei holl gyflawniadau. Ac er fod ei farn, a'i ddychymyg, a'i fywyd, yn fynych yn ddiffygiol, mae ei galon yn ei lle yn wastadol. Dyma ddirgelwch neillduolrwydd a ffydd y saint, ac o bresenoldeb yr hwn yr ydym yn fynych yn dyfod yn deimladwy, drwy yr argraff gyffredinol fydd yn cael ei adael ar y meddwl oddiwrth yr holl fywyd.

Yn ol y darnodiad hwn, yr ydym yn credu yn ddiffuant fod ein cyfaill ymadawedig yn un o'r had etholedig yn ol rhagwybodaeth Duw Dad, ac yn appelio yn hyderus at bawb a fuont yn ei gymdeithas, ac a welsant ei enaid yn ymddadblygu mewn gwahanol amgylchiadau, am gadarnhad i'n tystiolaeth.

Yr ydym dan anfantais i gyfeirio mewn modd penodol at neillduolrwydd ei ras, gan mor uchel a chyffredinol oedd ei rinweddau fel dyn, ac oddiwrth ba rai y mae yn aml mor anhawdd eu gwahaniaethu. Pan bydd y blaidd i'w weled yn trigo gyda'r oen, a'r llewpart yn gorwedd gyda'r myn, neu y ffinydwydd yn tyfu yn lle drain, a myrtwydd yn lle mieri,

Digitized by Google

bydd y cyfnewidiad y fath ag fydd yn gwneyd ei hun yn amlwg ar unwaith, ac yn tynu sylw pawb. Pan fyddo yr hwn oedd unwaith yn gybydd, yn dychymygu haelioni, ac arno yn sefyll. Pan fyddo y brwnt, y bawaidd, a'r ystyfnig, wedi dyfod yn dirion a hawdd eu trin. A'r hunanol, a'r tramgwyddus, a'r anfaddeugar, wedi dyfod yn isel, yn oddefgar, a hwyrfrydig i lid, byddant yn canmawl y gras a wnaeth iddynt bethau mor fawr wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw. Ond pan bydd yr hwn sydd yn hael, yn ostyngedig, ac yn faddeugar eisoes, yn dyfod dan driniaethau y gras sydd yn cadw i fywyd tragwyddol, rhaid myned yn nes ato, ac edrych yn ddyfnach i weled y cyfnewidiad ag sydd arno wedi ei wneyd. Rhaid i'w brofiad ei hun, mewn rhan, egluro y dirgelwch, a datguddio y gwahaniaeth y mae yn ei deimlo ynddo ei hun.

Un o'r dynion tywysogaidd a rhinweddol hyn oedd Mr. Pugh. Nid yn unig yr oedd yn un o'r dynion *disglaeriaf* eu talentau, ond yr oedd yn un o'r rhai *cyflawnaf.* Mae llawer i'w cael, yn rhyw hir a byr, yn eu tueddiadau yn gystal a'u talentau. Mae yr angel syrthiedig a'r angel ansyrthiedig yn trigo dan yr un gronglwyd, a'r cawr a'r erthyl yn cyfarfod yn yr un man. Maent wedi eu hieuo yn anghydmarus, a chyfarfod a'u gilydd fel o ddamwain. Mae'r hael yn ansefydlog, a'r ffyddlon yn dychanwr. Mae y pen goleu yn safndrwm, y ddychymyg fywiog yn ddi-farn, a'r rheswm cryf yn ddi-dân. Ond yr oedd ein hen gyfaill o Fostyn fel dinas wedi ei chysylltu ynddi ei hun. Yr oedd ei feddwl nid yn unig yn fawrwaith, ond yn gyfanwaith. Yr oedd nid yn unig yn fawr-bwys, ond yn gyd-bwys. Nid cynheddfau a thueddiadau oedd ganddo wedi eu tynu allan wrth goelbren, ond wedi eu magu yn nghymdeithas eu gilydd, ac yn gallu dywedyd y naill am y llall, "Wele mor ddaionus ac mor hyfryd i'w trigo o frodyr yn nghyd." Yr oedd yn ddiau, yn un o'r esiamplau goreu o ddyn a allasem byth ei gael.

Byddai bob amser yn gyson a sefydlog, ac mae hyn yn gasgliad naturiol oddiwrth yr hyn sydd wedi bod eisioes dan sylw. O feddyliau anghydbwys, y mae gweithredoedd anghydbwys braidd yn ddieithriaid yn tarddu allan. Ond yr oedd ei esgeiriau ef yn ogyhyd. Ni byddai byth yn ddarostyngedig i *ffitiau* oer a brwd—weithiau yn byw yn y gwregus poeth, ac weithiau yn y gwregus rhewllyd. Bychandra yw hyn ac sydd yn arwydd nad yw y dyn ac sydd yn euog o hono wedi

dyfod etto i'w oed, os wedi rhoddi heibio ei ddillad bychain. Fodd bynag, nid yw wedi rhoddi heibio ei bethau bachgenaidd, a chyfrif ei chwibanogl a'i farch pren, yn nghyd a'i aneirif deganau eraill yn golled. Ond nid yn yr ystyr hwn yr oedd Mr. Pugh yn sefydlog, yr oedd yn yr ystyr hwn, ond yr oedd mewn ystyr arall mwy goruchel. Yr oedd felly fel y dyn gonest a'r cyfaill ffyddlawn. Pwnc yr ardymer ydyw un, ond pwnc yr egwyddor ydyw y llall. Y mintys, a'r anis, a'r cwmin, mewn cyferbyniad i gyfiawnder, trugaredd, a barn. Nis gallai efe byth wadu ei hun, a thrawsymffurfio yn ol yr amgylchiadau a ddeuai i'w gyfarfod. Gallasid anturio cyfrif arno yn ddibryder fel ar un o ser sefydlog y nef. Ni lefarai yr un tafod fendith a melldith, ac ni roddai yr un ffynon ddwfr hallt a chroew. Yr oedd ynddo rywbeth oedd yn aros yr un drwy bob tymor, heb gyfnewidiad na chysgod troedigaeth. Clywsom lawer a synent gael eu galw yn ddynion gwael, yn siarad mor wahanol ar wahanol amserau, a hyny am yr un peth, fel yr oeddem yn barod i lefain—

Oh virtutes, O mores.

Ond am dano ef, yr oedd fel un o ddeddfau tragwyddol anian, gan y rhai na cheir ond yr un atebiad i'r un gofyniad drwy yr holl oesau. A thra peru cysondeb a sefydlogrwydd mewn parch yn ein plith, fe fydd enw Pugh o Fostyn yn rhwym o fod yn beraidd ac yn anwyl gan bawb.

Rhinwedd arall ag oedd i'w ganfod ynddo mewn modd neillduol, ac heibio i'r hon nas gellir edrych heb wneyd y cam mwyaf a'i nodweddiad, oedd ei ffydd ddiysgog yn ngwyneb pob tywydd yn rhagluniaeth y nef. Nid y rhagluniaeth sydd yn golygu dros deyrnasoedd a chenedlaethau, ac yn gadael y truan unigol i'w dynged. Ond y rhagluniaeth ag sydd yn trefnu amseroedd rhag-osodedig, a therfynau preswylfod pob math ar ddyn. Y rhagluniaeth sydd yn cau o amgylch iddo, yn adnabod ei eisteddiad a'i gyfodiad, ac yn hysbys yn ei holl ffyrdd. Y rhagluniaeth sydd yn cyfrif gwallt ei ben, yn gorchymyn i'r angylion am dano, ac yn gwybod fod arno eisiau yr holl bethau hyn. Dyma y rhagluniaeth oedd iddo ef yn breswylfa yn mhob amgylchiad, ac yn ddinas gadarn i ddyfod iddi bob amser. Yr oedd ei hyder ynddi yn drwyadl, ac yn codi oddiar y datguddiad ag yr oedd efe wedi ei dderbyn oddiwrth Ysbryd yr Arglwydd. Nid peth o olwg y llygad, ond o sicrwydd ffydd. Nid casgliad athronyddol oddi-

wrth ffeithiau oedd wedi cymeryd lle, nac ymorphwysiad dall a rhyfygus, heb reswm yn y byd. Ond effaith y llewyrch y mae gras yn ei roddi ar holl fywyd dyn, ac ar holl oruchwyliaethau Duw tuag ato, nes ei alluogi i ddywedyd, "Ac ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw." Dyma yr unig hyder goleuedig ag sydd yn dwyn gwir dangnefedd i'r fynwes, ac yn etifeddiaeth yn unig i'r rhai sydd wedi cael y gallu i fod yn feibion i Dduw.

Yr oedd yr hyder hwn yn un o'r pethau mwyaf amlwg yn nghymeriad y brawd Pugh. Nid oedd ffawd nac anffawd byth yn ei gyfarfod. Duw yn goddef y drwg, ac yn cadw rhag y drwg oedd y cwbl. Os cedwid ef rhag cwympo ar ol taraw o hono ei droed wrth gareg, a rhag clafychu ar ol bod yn agored i oerfel, llaw yr Arglwydd oedd wedi bod yn ei gadw. "Mae yr ystyriaeth o ragluniaeth neillduol y Goruchaf ynwyf mor gryf" meddai "fel nad allaf lai na'i weled a'i deimlo yn mhob peth bach ag sydd yn fy nghyfarfod." A dyma yn ddiau oedd wrth wraidd y tawelwch a'r ymostyngiad oedd i'w weled ynddo dan bob tro, ac yn ei ddal i fyny yn ngwyneb pob profedigaeth. Ac ni byddem heb ddal sylw, y byddai rhyw ireidd-dra ac ysbrydolrwydd neillduol yn nglyn ag ef, pan yn pregethu ar destynau a fyddai yn gogwyddo tua y cyfeiriad hwn, megis, "Y'mhob dim diolchwch. Gan fwrw eich gofal arno ef, canys y mae efe yn gofalu drosoch chwi," yn nghyd a'u cyffelyb. Ond er fod ei ffydd yn dwyn ffrwyth ag oedd yn aml uwchlaw rheswm, ni byddai byth yn dwyn ffrwyth ag oedd yn y gwrthwyneb iddo, ac nid ydym yn tybio fod adeg felly wedi bod erioed ar ei fywyd. Nid oedd dim o'r penboeth a'r nwydog yn dyfod i'r golwg ynddo yn ei berthynas a dim; pa mor gryf bynag y byddai yn teimlo, byddai yn teimlo o fewn terfynau rheswm a doethineb, ac yn ymddwyn felly gyda pha beth bynag yr ymaflai ei law ynddo i'w wneuthur. Nid goleuni disymwth o'r nef a lewyrchodd o'i amgylch i'w ddwyn at Grist ar y cyntaf, ac nid dilyniad o weledigaethau neillduol o'r nef, oedd yn ei gadw gyda Christ ar ol hyny. Meddai fwy o egwyddor ac ystyriaeth, nac o gynhyrfiad teimlad, ac o reswm difrifol nac o ddychymyg wyllt. Ni buasai y nos mwy na'r dydd, na'r gauaf mwy na'r haf, yn gwneyd rhyw lawer o gyfnewidiad arno ef gyda golwg ar gyflawniad ei ddyledswyddau, yn bersonol neu gyhoeddus. Wrth ffydd, ac nid wrth olwg yr oedd efe yn wastadol yn byw, a dyna oedd fwyaf naturiol iddo dan

Digitized by Google

bob amgylchiad. "O mor druenus" medd efe ei hun "bod neb o'r cyfryw a arddelant wirionedd yr efengyl, yn rhoddi y parch a'r ufudd-dod hyny i'w teimladau cyfnewidiol eu hunain, ag sydd yn unig yn deilwng i air Duw."

I'r dyben i ddangos crefyddolder ei feddwl yn mhellach, nis gallwn wneuthur yn well nac edrych ychydig i mewn i'r llyfr a ysgrifenwyd ganddo pan yn wr ieuangc, dan yr enw DRYCH Y CYMUNWR, yr hwn sydd yn un o'r llyfrau mwyaf crefyddol a ddaeth allan erioed trwy'r wasg. Mae eneiniad ysbrydoledig ar ei holl ddalenau, ac arogl y cysegr ar bob meddwl o'i fewn. Y mae fel pe wedi ei ysgrifenu tu fewn i'r llen gerbron y drugareddfa yn ngwyddfod y presenoldeb dwyfol, a hyny gyda plyfyn wedi diferu o aden un o'r Cerubiaid oedd yn gwylio drosti. "Dylem syml ystyried mawr bwys a gwerth crefydd gynhyddfawr. Pa beth ddeuai o honom heb grefydd? Pa fodd hebddi y gwynebem ar gystuddiau bywyd, dychrynfeydd angau, a manylrwydd barn. Diau bod genych ofal mawr am eich iechyd, ac efallai eich bod yn defnyddio llawer o foddion er ei gryfhau. Ysgatfydd eich bod yn drafferthus iawn o gylch eich meddianau bydol, a dichon eich bod yn aberthu oriau cwsg i feddwl am danynt, ac i ystyried y llwybr goreu i'w diogelu a'u hychwanegu. Y pethau hyn ydynt bwysfawr yn eich golwg, a phaham y caiff crefydd fod islaw iddynt? Y mae crefydd mor bwysfawr fel mae yn *rhaid* i ni ei meddianu, neu fod yn druenus byth yn yr ymddifadrwydd o honi. Nid *rhaid* i ni fod yn iach, yn gyfoethog, ac yn enwog; nid rhaid i ni gael tai mawrion, dillad prydferth, gwleddoedd danteithus, a lluosogrwydd cyfeillion. Ni a allwn fod, a bod yn ddedwydd, heb y pethau hyn. Ie, gyda bendith Duw, yn ddedwyddach hebddynt na chyda hwynt. Ond nid dichoniaeth i ni fod yn ddedwydd heb feddianu crefydd * * *. Dylem ddeisyf ar i'r Arglwydd beidio ein troi ymaith gyda phethau y byd hwn yn unig, ond ar iddo ein bendithio a bendithion ysbrydol o'r nefolion leoedd yn Nghrist, ac ar iddo gyfoethogi ein dyn oddi fewn ag addurnau gorwych ei ras. Dylem ymbil ar iddo atal ynom holl ddrwg weithrediadau ein natur lygredig, ac ar iddo dywallt ar led yn ein calonau fesur helaethach o'r ysbryd hwnw, ffrwythau pa un ydynt, cariad, llawenydd, heddwch, hir-ymaros a daioni * * *.

Byddwch lawen yn yr Arglwydd, beth bynag ydyw defnydd eich gofid, mae ef yn llawn o ddefnydd cysur ar ei gyfer. Pe byddech gornwydlyd oll, gorff ac enaid, y mae ynddo ef

feddyginiaeth rinweddol i'ch iachau. Y mae ei waed ef yn fôr coch i foddi eich holl bechodau yn ei ddyfnder, fel na oddiweddant chwi yn dragywydd * * *. Peidiwch ag ymhyfrydu yn gnawdol yn eich trigleoedd daearol, eithr cofiwch yn aml am y ty nid o waith llaw tragwyddol yn y nefoedd. Peidiwch ag ymfalchio yn ynfyd yn mhrydferthwch eich corff, eithr meddyliwch am y borau pryd y bydd y llygredig hwn yn gwisgo am dano anllygredigaeth, a'r marwol hwn anfarwoldeb. Nac ymffrostiwch yn blentynaidd yn monedd eich achau. Os ydych wedi eich geni o Dduw, mae genych amgen testyn. Peidiwch ag ymddiried yn rhyfygus yn lluosogrwydd eich cyfeillion, os ydyw Duw, cyfaill Abraham, yn gyfaill i chwi, mae genych amgen cyfaill i ymddiried ynddo." Un dyfyniad byr etto ac yna byddwn ar ben.

"Gochelwn rhag ymorphwys ar lai na digon. Cofiwn, er mai peth mawr yw bod yn ngwlad efengyl, etto peth mwy ydyw bod yn Nghrist yr Efengyl; ac er mai peth anrhaethol werthfawr ydyw bod yn eglwys Crist, etto anrhaethol mwy gwerthfawr ydyw bod yn Nghrist yr Eglwys * * *. Os ydych am gynyddu, ymarferwch lawer a gwaed ein Harglwydd Iesu Grist; yn ei rinwedd ymlawenhewch, ac yn ei haeddiant ymddiriedwch. Gweddiwch ar fod eich meddwl wedi ei hoelio wrth y nefol groes, oblegid oddiyno y cewch gymorth cyfamserol, a meddyginiaeth addas i bob clwyf. A flinir chwi gan ysbryd balch? Gollyngwch eich meddwl i deithio tua gwlad Judea i weled y gwr a fu heb le i roi ei ben i lawr. Ai cydwybod fyddar yw eich clwyf? Danfonwch eich myfyrdod i ardd Gethsemane i weled ymdrech Iesu, a'r chwys gwaedlyd yn treiglo oddiar ei ruddiau i'r llawr. Ai calon galed ydyw eich gofid? Ewch ar frys tua phen Calfaria, i wrando ar Iesu yn llefain yn chwerwedd ei enaid, Fy Nuw, Fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Pan ystyriom fod hyn yn nghyd a lluaws o frawddegau eraill, ag sydd yn tra rhagori arnynt, yn gynyrch dyn ieuangc, mae yn syndod fod ei deimlad mor ddwfn a'i brofiad mor addfed. A phan gymerwn ef i mewn, i gysylltiad a'i gymeriad cyffredinol, rhaid ei fod, nid yn unig yn gristion gwresog, ond yn gristion didwyll.

---

Wrth gludo yr ystyriaethau blaenorol i'n canlyn i edrych arno fel pregethwr, mae yn gwneyd yn ddiangenrhaid i ni

Digitized by Google

grybwyll llawer o bethau ag y buasem yn teimlo ein hunain yn rhwym o'i wneyd oni buasai hyn. Nid ydym yn meddwl sefyll cymaint arno yn y cysylltiad hwn, am fod y rhan fwyaf o'n darllenwyr yn hysbys o hono fel pregethwr, pryd nad oes dim un o bob cant o honynt yn gwybod dim oll am dano fel dyn a chymydog, er ar yr un pryd, mai swyddogaeth y pregethwr ar lawer o ystyriaethau ydyw y bwysicaf o'r grasusau ar ba rai y mae yr Ysbryd Glan wedi gosod dynion yn oruchwylwyr; a pha faint bynag o'r parchedig ofn ag oedd unwaith yn nglyn a'r areithfa, sydd yn awr wedi ei golli, mae digon etto yn aros i gadw y goron a pha un y coronodd ei dad ef yn nydd ei ddiwoddi. Faint bynag o ddylanwad sydd yn perthyn i'r wasg, a'r esgynlawr, y mae mwy o'r gwir, a'r dyfn ddylanwad yn perthyn i'r pwlpud nac i un o honynt, o herwydd y mae yn cydnabod angenion gwreiddiol ein natur, ag sydd yn aros yr un drwy yr holl gyfnewidiadau, ag yr ydym yn myned o danynt yn y naill oes ar ol y llall. Mae ei swyddogaeth wedi dyfod yn fwy uniongyrchol oddiwrth Dduw, ac yn dyfod yn fwy uniongyrchol at ddyn na'r cyfan; a thra peru y natur ddynol yr un, y mae yn rhwym o gario dylanwad mwy rhwysgfawr dros ei thynged, na'r un gallu sydd yn cynyg ymryson ag ef am yr oruchafiaeth. A chan nad pa mor aml y mae y natur ddynol yn cael ei gyru gan ei mympwyon ar ddisperod i'r anialwch, y mae fel yr afon dranoeth wedi y lli, yn cael hyd iddi ei hun yn rhedeg yn yr un rhydwel drachefn.

Gan mai gwybedydd gwybodaeth yr Hollalluog, a dehonglydd meddwl Crist yw y pregethwr, y mae i fod yn feddianol ar ysbryd doethineb ac ofn yr Arglwydd, ac i ymddilladu ag urddas a choethder teilwng o'r hwn y mae yn dal y swyddogaeth dano, ac o'r effeithiau y mae wedi ei hamcanu i'w dwyn oddiamgylch ar y rhai yr anfonir hi atynt. 'Does dim yn fwy pwysig nac iddo fod yn rhydd oddiwrth bob peth gwrachaidd mewn dull ac ymadrodd, ac oddiwrth bob peth isel ac anoeth mewn ymddygiad, ac y mae hyd yn nod y Bar a'r Esgynlawr yn fynych yn cael eu defnyddio fel moddion angenrheidiol i gyrhaedd eu hamcan. Nis gall achos crefydd bur byth gael ei wasanaethu ond trwy y symlrwydd sydd yn Nghrist. Gall fod yn fwy poblogaidd am dro drwy yr ystryw sydd yn y byd, ond nid yn fwy llwyddianus. Gall fod yn fwy cynhyrfiol, ond nid yn fwy effeithiol—yn fwy cydunol a'r glust fo yn merwino, ond nid a'r gydwybod fo wedi ym-

Digitized by Google

ddeffro. Etto i gyd, nid oes dim ag y mae cymaint o hyfdra yn cael ei arfer gyda hi ag ydyw swyddogaeth y pregethwr, nac un alwedigaeth yn cael ei barnu gymaint yn ol y cnawd. Mae un yn tybio ei bod yn perthyn yn unig i urdd yr olyniaeth, ac mai lleidr ac yspeiliwr yw pob un sydd yn dringo ffordd arall; a'r llall yn tybio, nad yw yn perthyn i urdd yn y byd—Aaron na Melchisedec. Gall pawb bregethu, a gwna rhywbeth y tro i'r pwlpud. Rhaid cael cymhwysder i'r dadleudy ac i'r llawfeddygfa, ond dim i'r areithfa! 'Does dim amryw ddoniau ac amryw weithrediadau oddiwrth yr un a'r unryw ysbryd i'w cael, rhywbeth a ddywedwyd gan yr Apostol yn ei ffrwst oedd hyn! fel pe byddai yr efengyl wedi ei hamcanu i redeg yn y gwddf i bob deddf, ac i osod allan y Goruchaf fel un wedi ymranu yn ei erbyn ei hun!

Sonir cryn lawer hefyd am y pwlpud hen, a'r pwlpud diweddar, a'r pwlpud a'r dosbarth isaf, a'r pwlpud a'r dosbarth canol, yn nghyda'r cyfryw ymadroddion ag a barai i un feddwl fod ei genadwri yn wahanol at wahanol bobl. Un i'r Iuddew, a'r llall i'r Groegwr, a'r llall i'r Barbariad, a'r llall i'r Scythiad, pryd mewn gwirionedd, nad oes ganddo ond "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist a chadwedig fyddi, a'r neb ni chredo a ddamnir," i ddywedyd wrth bawb fel eu gilydd. Yr ydym yn teimlo ein hunain dan rwymau i ysgrifenu y pethau hyn i egluro ein meddwl wrth ddywedyd fod Mr. Pugh yn bregethwr gwreiddiol a naturiol, ac uwchlaw cael ei hudo i addoli at un allor, ag y mae y naill ddullwedd ar ol y llall yn ei godi i fyny er tynu minteioedd y rhai a bregethant i'w cysegr-leoedd. Dyn oedd efe yn cymeryd ei safle ar genadwri syml yr efengyl at bechadur, heb ofalu dim am fympwyon yr oes, er dyfod i fyny a'r hyn a ystyriai penchwibandod yn safon ardderchawgrwydd. Ni wyddom am un a allai ddefnyddio geiriau yr Apostol yn fwy priodol. yn ei berthynas a'i weinidogaeth, "Na atto Duw i mi ymffrostio ond yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist."

Fod Mr. Pugh yn mhlith y cedyrn cyntaf fel gwr o feddwl, sydd afraid ei grybwyll, tra mae ei ysgrifau a'i bregethau yn dwyn tystiolaeth diamwys i'r ffaith. Mae ei bregethau, o'r bron yn ddieithriad, mor llawn o feddyliau ag ydyw celloedd y dywysen fras o yd, ac mor loew a disglaer ag ydyw y gwlith sydd wedi disgyn o groth y wawr, a'r cyfan wedi eu trefnu ar gynllun ag sydd mor weddaidd a phrydferth a natur ei hun, a phob adran yn gofyn mor naturiol am eu gilydd, ag

Digitized by Google

y gofyna y naill aelod o'r corph am y llall, neu y naill olwyn yn y peiriant am yr olwyn arall. Nid oedd yn un baich i'w cofio, gan mor reolaidd yr oeddynt wedi eu trefnu, ac mor agos oedd y cysylltiadau oedd rhyngddynt; ond o ran hyny, nid cynllun wedi ei wneyd oedd, ond wedi ei ddarganfod, yr un fath ag y darganfyddir egwyddor mewn rhyw ffaith o eiddo natur. Yr oedd y cynllun yno o'r blaen, ond nid i bawb a gurai wrth ei ddrws y byddai yn gweled yn dda i ddatguddio ei hun, pan rhag ein hen gyfaill a'i gyffelyb, na chelid ganddo un amser ddim o'i gyfrinion. Dyma naturiolrwydd y drefn sydd i'w weled ar ei holl bregethau. Y mae gan bob pen ateb i'w roddi i'r neb a ofyn iddo reswm am ei fod yn ben ac nid yn gynffon, ac am ei fod yn y fan lle mae, ac nid yn rhywle arall. Yr ydym yn cofio ei fod mewn cyfarfod ddeunaw mlynedd yn ol, yn pregethu oddiar Ps. cxiii. 7, 8, "Efe sydd yn codi'r tlawd o'r llwch, ac yn dyrchafu yr angenus o'r domen. I'w gosod gyda phendefigion, *ie*, gyda phendefigion ei bobl." Nid oedd y dyledswyddau ag oedd yn disgyn i'n rhan i'w cyflawni, yn gadael hamdden i ni fyned i mewn, ond yn unig yn awr ac eilwaith at y drws, ond yr oedd y sylwadau a glywsom yn ystod hyny o amser mor bert ac mor naturiol fel y maent wedi aros ar ein cof hyd y dydd hwn. Ond gan nad ydynt ond pethau anghysylltiedig, ni byddai yn deg ynom eu coffau; ond dodwn i lawr un arall a glywsom yn unig o ddamwain, yn ei lle, er mwyn dangos naturiolrwydd ei gynlluniau, a chan lleied o faich oeddynt yn ei roddi i'r cof. Yr ydym wedi dodi y rhai hyn yn hollol fel y digwydd i ni daro wrthynt:—

NUM. xii. 24.

**I. Nodwedd Caleb—hwn yn dyfod i'r golwg yn—**

**1. Ei Swydd—1. Arwydd o hunan-ymgyflwyniad—2. Arwydd o gymeradwyaeth.**

**2. Ei agwedd—ysbryd arall ynddo; 1. Ysbryd gwrol—2. Ysbryd didwyll.**

**3. Ei ymddygiad—cyflawn ddilyn—1. Dilyn ei Arglwydd yn unig —2. Dilyn ei Arglwydd yn mhob amgylchiad—3. Dilyn ei Arglwydd hyd y diwedd.**

**II. Braint Caleb—"Dygaf ef i'r tir," &c.**

**1. Tir addawedig—2. Tir sydd yn sicr o gael ei etifeddu—3. Tir gwerth cyrchu ato—4. Tir y ceir cymdeithas a Duw ar y ffordd iddo —1. Yr unig ffordd i gael braint y saint ydyw dwyn eu nodau—2. Gochelwn anghrediniaeth.**

ETTO, **SALM** LXXXV. 6.

**I. Eglwys farw.**

1. Nid yw y marw yn teimlo—2. Nid yw y marw yn gweithredu —3. Nid yw y marw yn cynhyddu—4. Nid yw y marw yn mwynhau.

II. Eglwys fyw.

1. Eglwys fyw yn gweddio—2. Eglwys fyw yn gwylio—3. Eglwys fyw yn gweithio—4. Eglwys fyw yn cymdeithasu yn gynes a'u gilydd.

III. Eglwys lawen—llawen yn yr Arglwydd.

1. Yn ei drugaredd—yn bywhau y marw yn lle ei gladdu—2. Yn ei haelfrydedd—yn llewyrchu ei wyneb arnynt—3. Yn nerth ei ras—yn cyfarfod angen ei bobl—4. Yn ei ogoniant—fel pen ei eglwys.

Buasai yn dda genym roddi engraifft neu ddwy yn gyflawn o'i bregethau, ond gan eu bod yn cael eu cyhoeddi yn y Cofiant, nid oes genym ond cyfeirio y darllenydd tuag atynt, gan rwymo ein hunain iddo a diofryd, y cyfarfydd a'r perlau mwyaf pur. Nid oedd efe yn cyfyngu ei hun at un cynllun penodol, o'r holl gynlluniau ag y dyrenir dullweddiad pregethu yn gyffredin iddo, megis yr athrawiaethol, yr ymarferol, y dadleuol, y cynhyrfiol, y testynol, a'r darluniadol, &c. Dybynai hyny ar yr amcan fyddai ganddo mewn golwg, a natur y testyn fyddai ganddo mewn llaw. Ond pa un bynag o honynt a gymerai, byddai yn siwr o ddwyn ei farn allan i fuddugoliaeth heb roddi achos tramgwydd mewn dim. Gellid bod yn sicr, pa ffurf bynag a gymerai y bregeth, y byddai iddi fod yn goeth, yn gryno, ac yn anrhydedd i'r dosbarth o fewn yr hwn ag y buasai yn cael ei chynwys. Ond os oedd yn fwy tueddol i ddefnyddio rhai o'r dullweddau hyn yn fwy na'u gilydd, y testynol a'r esboniadol oedd y rhai hyny, y rhai oedd yn rhoddi y cyfleusderau goreu iddo i ddeongli meddwl Duw, a'i gymhwyso at amgylchiadau dyn. Ac os oedd yn fwy tueddol i ochelyd rhywrai yn fwy na'u gilydd, y dadleuol a'r darluniadol oedd y rhai hyny. Nid am nad allasai fod ynddynt yn llwyddianus, a thynu ei gwys yn union i'r pen, ond am eu bod wedi cael eu dwyn i anmharch, drwy gael eu gwneyd yn esgynlawr gan yr ynfyd a'r gwag orchestol i wneyd arddangosiad o honynt eu hunain ar gyhoedd.

Mae pregeth ddarluniadol yn llaw pencampwr, ag sydd ganddo ddigon o athrylith, a digon o farn, a digon o ddawn, yn adeiladol ac eglurhaol dros ben, ac yn gadael argraff annileuadwy ar y meddwl. Ond yn llaw yr anfedrus a'r dichwaeth, nad oes ganddo un ffrwyn yn mhen ei ddychymyg, na'i reswm, na'i dafod, mae yn ffieidd-dra anghyfaneddol mewn lle santaidd, a iaith, a ffigurau, a gweddeidd-dra,

Digitized by Google

yn llefain yn archolledig dan yr allor, am iddo gael ei ddeol i rywle i'r diffaethwch allan o gysegr Duw. A thra mae iaith a gweddeidd-dra yn llefain oddifewn, mae natur yn cwyno oddiallan, yn erbyn i'w phrydferthwch morwynol gael ei drafod gan ddwylaw anghelfydd, ac i'w cheinion dwyfol fod yn sathrfa i fwystfilod yr anialwch. Ond nid yw yn ogymaint pwys am y dullwedd, ond iddo fod yn llaw y doeth a'r galluog; gall y cyfan fod yn wasanaethgar iddo ef yn eu tro, tra i'r trwsgl a'r anfedrus y mae pob un yn faen tramgwydd. Yn yr un esboniadol y llithr ei droed, ac yn yr un ymarferol y gwna ar fai. Ond yn llaw Pugh, yr oeddynt yn llaw meistr, i'r hwn yr oedd yr ymadroddion yn ymddadblygu mor naturiol ag yr ymddadblyga y blodeuyn i'r haul, neu elfenau anian i'r fferyllydd. Buom yn synu ganwaith at y ddawn oedd yn gallu agor adnodau mor esmwyth, a datgloi y celloedd oedd ynddynt wedi eu trefnu yn llawn o bob rhyw luniaeth, er dwyn allan at ein heisiau y blasus fwyd o'r fath a garem. Ac yn neillduol, at y medr drwy ba un y cymwysid y pwyslais mor effeithiol er cael allan yr holl friwfwyd gweddill fel na chollid dim. Yr oedd yr un medr ag oedd yn dyfod i'r golwg yn nghynllun y bregeth, yn dyfod i'r golwg trwy bob adran, ac yn rhoddi yn mhob cymal gynhaliaeth, yn ol yr hyn oedd yn mesur pob rhan, nes oedd bywyd santaidd a chymeradwy yn cael ei deimlo yn nerthol weithio drwy ei holl aelodau.

Yr oedd yn meddu ar ddysgeidiaeth barchus ac anrhydeddus, a gwnai ddefnydd parchus ac anrhydeddus o honi yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Ac yr oedd ganddo ddysgeidiaeth na fedr un ysgol ei chyfranu na gwneyd i fyny am y diffyg o honi—athrylith. Y ddysgeidiaeth sydd oddi uchod, ag na cheir hi er aur pur; a dygai y naill fel y llall gan eu dodi yn isel ac yn ewyllysgar ar lawr wrth draed ei Waredwr. Ac uwchlaw pob dim, yr oedd ganddo y ddysgeidiaeth rasol. Y nerth o'r uchelder, a pha un y mae Ysbryd Duw yn gwisgo ei genhadon i'w gwneyd yn ddoeth i enill eneidiau, ac i droi llawer i gyfiawnder. Ni esgynai risiau yr areithfa byth yn y teimlad cleuar, nad oedd o un pwys ganddo pa un a wrandewid ei ymadrodd ai peidio, a pha un a lwyddai yn y peth yr oedd wedi ei anfon o'i blegid ai ni wnai. Yr oedd yno yn ystyriol o'r Duw yr oedd wedi dyfod drosto, ac o'r bobl yr oedd wedi dyfod atynt, ac o'r genadwri oedd iddo wedi ei hymddiried. Yr oedd yno fel dyn yn gwybod ofn yr Arg-

Digitized by Google

lwydd ei hun, yn perswadio eraill i ymdrechu mynu gwybod yr un peth. Yr oedd yno fel dyn o ddifrif, yn gwneuthur ei oreu er mwyn ymateb a chydwybod ddirwystr tuag at Dduw, a bod a'i ddwylaw yn lan oddiwrth waed pawb oll. Gwelsom ef ar ei uchel fanau, ac ar ei isel fanau, yn uwch, ac yn is, na llinell derfyn gyffredin y llanw; ond erioed yn gysglyd a difraw, fel y gallesid dywedyd wrtho gan neb, "Athraw, ai difater genyt ti ein colli ni?" Nid oedd dim o'r ysmaldod, a'r digrifwch anysbyddedig oedd yn nglyn ag ef mewn cyfeillach, yn ei ddilyn i'r pwlpud. Mynydd yr Arglwydd, a'i le santaidd ef oedd hwnw. Sefyll yn mhlith ei gyfeillion yr oedd yn y naill, ond sefyll ar yr adwy rhwng Duw a phechaduriaid yr oedd yn y llall. Yr oedd y meddwl ag oedd yn gweled pethau yn eu cysylltiadau mwyaf digrifol pan yn ymdrafod a phethau tymorol, yn eu gweled yn eu cysylltiadau mwyaf difrifol, pan yn ymdrafod a phethau tragwyddol. Yr oedd yr un teleidrwydd, yr un eglurder, a'r un parodrwydd yn ymddangos yn yr areithfa ac ar yr aelwyd, ond yn unig, eu bod wedi ei santeiddio, ac yn cael eu siarad o dan ddylanwadau gwahanol.

Ond er ei fod o feddwl mawr, ac o feddwl eglur, ac o allu oedd bron yn ddihafal i wneyd ei hun yn ddealladwy, a hyny gyda phertrwydd ac oedd gyda phawb yn ddiarhebol. Nid oedd ganddo mor cariad ag sydd gyda'r cyffredin yn cuddio lluaws o bechodau, sef YR UDGORNFLOEDD. Nid oedd perygl i do un capel, na chorsingau un ty ymollwng, pan byddai efe yn agor ei enau, nac i'r mynyddoedd neidio fel hyrddod, na'r bryniau fel wyn defaid, pan byddai efe yn egluro cyfraith yr Arglwydd. Nid i ddifyru, na dychrynu, na byddaru, pechaduriaid yr oedd efe wedi ei anfon, ond i'w hachub. Nid y gwynt mawr oedd yn rhwygo y mynyddoedd, na'r ddaeargryn gref ag oedd yn dryllio y creigiau, a ddaeth ag Elias allan o'r ogof i sefyll gerbron Duw, ond y llef ddistaw fain. Nid yr enaid cyfoethog o feddwl a theimlad, mwy na'r masnachwr cyfrifol, ag y mae ei ystorfa i'w phrisio wrth y miloedd, fydd yn canu eu clychau uwchaf, ond yr eiddil truanaidd, ag mae ei holl eiddo yn yr ysgrepan ag sydd yn ddigon ysgafn i gael ei dwyn ganddo yn esmwyth yn ei law. Ond er nad oedd yn llais Mr. Pugh ddim o'r dôn chwyddedig ag oedd yn gosod ei hofn ar nenfwd yr adeilad, yr oedd ynddo egni, a theimlad, a threiddgarwch ag oedd yn cario ei eiriau adref gydag awdurdod a nerth. Yr oedd ei genadwri yn rhy urdd-

Digitized by Google

asol i fod mewn dull gwrachïaidd, ac yn rhy bwysig i fod mewn tôn wag a byddarol. Beth a feddylid o'r dadleuydd a âi i wag ganu wrth gyfarch y rheithwyr ar fater ag y byddai bywyd y carcharor arno yn dibynu, neu y barnwr a wnai yr un peth wrth gyhoeddi y ddedfryd uwch ei ben?

Fel nad oedd dim yn isel yn ei don, 'doedd dim yn isel yn ei ystum—dim beiddgarwch hyf, a dim gwyleidd-dra plentynaidd. Safai yn weddus fel cenad oddiwrth Dduw wedi rhoddi ei holl feddwl ar waith i sicrhau amcan ei anfoniad, a hyny mewn modd perffaith ddihoced. Ni ddringodd i bwlpud yr un a fyddai yn deall ei fater yn well, ac yn gallu ei drin yn fwy deheuig. Yr oedd yn feistrolaidd yn ei alwedigaeth fel dyn, ar wahan i'r ddawn sydd oddiwrth yr ysbryd. Ni fu un erioed yn gallu cyraedd y nod fyddai wedi ei osod o'i flaen, yn fwy uniongyrchol, a hyny i gymaint o foddlonrwydd. Trewid yr hoel ganddo bob amser ar ei phen, a gyrid hi adref ar ei hiniawn, nes ymgladdu o honi yn ei gwaith heb droi ar y llaw ddeheu nac ar y llaw aswy. Byddem yn teimlo wrth wrando arno, nid yn unig ei fod wedi trin ei fater yn dda, ond na fuasai modd iddo ei drin yn well. Yr oedd fel milwr profedig yn adnabod ei arfau a'r dull i'w trin, yn nghyd a'r pryd a'r modd i wneuthur ei ymosodiadau yn fwyaf llwyddianus. Nid ag arfau philosophi a gwag-dwyll yr oedd efe yn ymladd rhyfeloedd ei Arglwydd, ond ag arfau y filwriaeth ei hun, ag oedd wedi profi eu hunain ganwaith o'r blaen yn nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll annuwioldeb i'r llawr.

Gan ein bod fel hyn wedi digwydd taro fel o ddamwain wrth y geiriau philosophi a gwag-dwyll, ni fydd allan o le i ni ddiferu gair mewn perthynas iddynt wrth fyned heibio, yn gymaint a bod eu lleferydd estronol ac anghymreig i'w glywed yn awr ac eilwaith o fewn ein hareithfaoedd. Nid yw y cyfandir, o'r lle yn benaf y maent wedi hanu, wedi bod erioed yn euog o arfer gormod o symlrwydd gydag un peth, heb son am athroniaeth a duwinyddiaeth. Ychydig o'u doethion a'u dysgawdwyr sydd wedi bod un amser yn or-hoff o fyw yn yr awyr agored, a goleuni y dydd, yn nghymdeithas cig a gwaed, ond yn rhywle yn y gororau uwch loerawl, yn nghymdeithas ag anelwig freuddwydion a gwag fodau awyrawl o ffurfiad meddwl a dychymyg dyn, o'r lle y dygir pethau rhyfedd i'n clustiau, a hyny yn ngeiriau anghyfiaith y tylwythion dedwydd eu hunain. Ac weithiau goblygir y gwirionedd symlaf mewn niwl, ac y dangosir ei gysgod yn rhywle yn y gwyll draw, er

Digitized by Google

mwyn rhoddi twyll fawredd i'r peth mwyaf cyffredin, a pheri i chwi dybio eich bod wedi cael ych pasgedig, pan nad ydych wedi cael cymaint a chyw colomen. I'r marchnadoedd hyn yn fynych mae aml i farsiandwr o eiddo yr areithfa yn myned am ei nwyddau, gan eu dangos ar gyhoedd fel ei eiddo ei hun, ond fel y mae eu harogl, a'u harliw, yn bradychu eu tarddiad, gan rybuddio y bobl i beidio gwario eu harian am yr hyn nad yw fara, a'u llafur am yr hyn nad yw yn digoni. Ond y mae yn drueni meddwl wedi y cwbl, fod yr areithfa Gristionogol, ag sydd wedi ei hamcanu i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, ac i hyfforddi mewn cyfiawnder, yn cael ei darostwng dan draed un amgylchiad yn y byd ag sydd yn ei gwneyd yn beiriant at falu dim ond gwynt, a bod pechaduriaid newynog, dan amgylchiad yn y byd, yn cael eu gwahodd yn mlaen i ymborthi arno. Os llefaru a wna neb, llefared megis geiriau Duw; os gweini y mae neb, gwnaed megis o'r gallu y mae Duw yn ei roddi, fel yn mhob peth y gogonedder Duw trwy Iesu Grist.

Ond y mae un peth etto yn ol gyda golwg ar y pregethwr, ag nas gellir dan amgylchiad yn y byd fyned heibio iddo, sef yr HWYL. Mae hwn yn adran mor arbenig o'r gwaith, yn enwedig yn ei berthynas a Chymru, fel yr ystyrir ef, yn aml, fel maen clo yr holl adeilad-waith, a'r cyffyrddiad gorphenol hwnw ag sydd yn cyfranu iddo ei holl ogoniant. Dyweder a fyner am dano, mae rhyw swyn anghyffrifol yn nglyn ag ef, yn gystal a gallu, yn erbyn pa un nad oes deddf. Rhesymwch ef ymaith, gwawdiwch ef ymaith, credwch ef ymaith, ac mae efe yn aros yr un, ac yn profi ei fodolaeth yn y pethau hyny a ddygir yn mlaen i'r dyben i'w wadu. Etto i gyd, nis gellir rhoddir arno un eglurhad, na'i adnabod, ond yn unig wrth ei waith. Er fod y PETH hwn, nid oes genym arno un enw yn amgen, ag sydd yn nglyn a'r pregethwr a'r pregethu, yn wahanol, ar lawer o ystyriaethau, i'r hyn ydyw yn nglyn ag amryw o bethau eraill, etto, y mae i'w weled i raddau mwy neu lai yn ei gysylltiad a'r cyfan. Gwna pob dyn ei orchwyl yn fwy deheuig un pryd na phryd arall. Gwna y crydd ei esgid, y saer ei aradr, a'r gof ei fwyall, yn fwy rhagorol a chyda llai o drafferth, er eu gwneyd o'r un defnydd a chyda yr un cyffelyb arfau. Saetha yr heliwr yn fwy cywir, ysgrifena yr ysgrifenydd yn fwy diwall, a chân y cerddor yn fwy medrus, er bod o dan yr unrhyw amgylchiadau; a phregetha y pregethwr yn fwy rhwydd, yn fwy nerthol, a chyda

Digitized by Google

mwy o ddylanwad, ar wahan i'r eneiniad oddiwrth y Santaidd hwnw, ag sydd yn awr a phryd arall yn cael ei roddi ar weinidogaeth y cymod. Ond y mae hyn, weithiau, fel peth yn cael ei ddynwared, a dynion yn ymdrechu i ymddangos fel rhai wedi eu tra dyrchafu, pryd na bydd yr un weledigaeth iddynt wedi ymddangos, nac un swn o frig y morwydd yn cael ei glywed. Y maent fel rhai yn gwledda mewn breuddwyd, ac yn boddi ar dir sych, ac yn synu na byddai eraill yn cyfranogi o'u hofn a'u llawenydd gyda hwynt. Mae rhai wedi myned fel hyn yn gwbl o arferiad, fel nad yw eu cyffro, a'u tân, a'r llef geiriau, yn meddwl dim, nac yn arwydd o'r teimlad lleiaf. Y mae wedi myned iddynt yn ail natur, ac nis gallant gymaint a gofyn bendith heb godi ystorm. Mae eraill yn ei ddefnyddio fel hug i guddio eu tylodi, fel ewyn mewn dwfr wedi ei lenwi a nwy, yn yr hwn y bydd cyflawnder yn ymddangos mewn prinder, a'r gostrel yn rhedeg drosodd cyn bod o honi yn haner llawn. Ni all llawer pregeth oddef goruchwyliaeth y siarad heb dori i lawr, na rhedeg ei gyrfa i'r pen heb gynorthwy anianyddol yr hwyl, mwy na chylch y bachgen ar yr heol heb oruchwyliaeth y ffon, neu esgyll y felin heb oruchwyliaeth y gwynt. Pan y byddo yr hwyl yn dyfod yn naturiol, y mae yn rhoddi gwedd ddillyn i bob ystum, ac ireidd-der grasol i bob ymadrodd, ond pan yn cael ei ffugio, y mae yn rhoddi yn lle prydferthwch, losgfa, ac yn lle perarogl, ddrewi.

Ond fel pob dawn arall, y mae hon yn ymgymeryd a dullwedd, yn ol synwyr ac arddull y neb y bydd yn talu ymweliad ag ef. Tra y pair i un ddyrchafu ei lais, chwysu allan ei fer, a siarad yn fwy cyflym, pair i'r llall fod yn fwy eglur, yn fwy teimladwy, ac yn fwy angerddol. Nid yw yn rhoddi dim newydd, ond dwyn yr hyn oedd eisoes yn aros, yn fwy i'r golwg, a-gloewi ac adnewyddu yr hyn oedd o'r blaen yn hen ac agos i ddiflanu. I'r doeth nid oes dim yn fwy o fendith, nac i'r anoeth ddim yn fwy o anffawd. Mae yn coroni un, ac yn croeshoelio y llall. Y mae rhai yn ddigon goddefol i'w gwrando hyd nes caffont hwyl, ond wedi hyn, ni fyddwch fawr lai na dwyn eich penyd.

Nid oedd un o'r rhai y mae yr hwyl wedi bod yn caru eu hanrhydeddu, ac y byddai yn gorwedd arno yn fwy naturiol pan ddeuai, na Mr. Pugh, nac un o'r ochr arall oedd yn gallu hyfforddio yn well i fod hebddi, yn gymaint a'i bod yn trigo yn wreiddiol yn ei bethau, pa rai fyddai yn myned bob amser

wrth eu pwysau eu hun. Yr oedd efe fel y cyfiawn, ag sydd yn drugarog wrth fywyd ei anifail, yn gofalu am roddi yr yspardyn yn y preseb. Nid oedd ond ychydig o'r hwyl, yn ol fel y deallir y gair yn gyffredin, yn hynodi ei bregethu. Ni byddai byth yn cael ei gipio i'r eangderau, nes colli pob amcan am y pwynt y byddai yn cyfeirio ato, ac am y berthynas oedd rhwng y rheswm a'r teimlad a'u gilydd. Ni byddai byth yn gor-waeddi, nac yn gor-ganu, nac yn gorchwysu, ond byddai yn cael rhwyddineb, a llewyrch i lefaru yn eglurhad yr ysbryd a nerth, nes byddai effeithiau bendigedig yn fynych yn cael eu cynhyrchu drwyddo. Nid oedd ystorm na chorwynt ynddi, nac un gwylltineb brochus yn ymdaenu drwy'r awyrgylch, nac un daranfollt ofnadwy yn hollti y cymylau o draw, nes peri i wallt eich pen sefyll, a thybio o honoch fod y farn ar unwaith yn myned i eistedd. Ac nid oedd ynddi un ymdoriad disymwth llif-ddorau, a chenllifoedd anwar yn gwyllt ysgybo drwy'r holl ddyffryn, nes taflu pob peth i anrhefn, a chreu dychryn a ffrwst drwy'r holl wlad. Ond yr oedd ynddi angerddolrwydd meddwl, ac ysbryd wedi ei gynhyrfu oddifewn, nes creu distawrwydd dyfn ac astud, ag oedd mor ofnadwy, os nad mwy, na'r dymhestl a'r rhyferthwy oddiallan. Yr oedd yn fwy fel dylanwad haf wedi ei gyfyngu i fyr dymor, yn yr hwn y bydd llanw bywyd yn distaw ddylifo gyda nerth anwrthwynebol drwy bob rhydwel yn y deyrnas lysieuol, o'r gedrwydden yn Libanus hyd yr isop a dyf allan o'r pared, gan beri i'w holl byrth ymagor ar unwaith fel o'u gwaith eu hun. Nid ebychiad yr anferth gyflegr yn arllwys cafod o ergydion i ladd ar antur oedd ei hwyl ef, ond adsain lem, dreiddgar, y *rifle* yn anfon ei genadwri ar gyfeiriad uniongyrchol i'w nod.

Yr ydym yn cofio am dano unwaith yn pregethu mewn cyfarfod blynyddol yn y Maesglas, gerllaw Treffynon, ar dduw y byd hwn yn dallu meddyliau y rhai digred. Yr oedd yn dymor oer a marwaidd ar grefydd yn gyffredinol, heb fod ond ychydig yn troi at yr Arglwydd i'w dy, ac heb fod ond ychydig o bryder a gwasgfa ar feddwl neb o'r herwydd. Yr oedd y bregeth mae yn wir yn ateb yn dda i'r fath amseroedd, ac yn cynwys darluniadau eglur a chynwysfawr o drueni y bobl oedd wedi eu dallu, yn gystal ag o'r ffyrdd trwy ba rai yr oeddynt yn cael eu dallu, a'r cyfan yn cael ei draddodi gyda gwresogrwydd a difrifoldeb urddasol. Ond beth er hyny? Onid oedd hyn wedi ei wneuthur ganwaith o'r blaen, heb i

Digitized by Google

un arwydd o'r nef gael ei roddi, nac i un llef na neb yn ateb gael ei glywed? Onid oedd y llefarwr wedi bod yn dwyn yr un had gwerthfawr, ac yn ei wasgaru yr un mor fedrus heb gludo yr un ysgub adref yn y diwedd. Ond mae y gwynt yn chwythu lle y myno, a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned. Fodd bynag, ni fuwyd yn hir cyn teimlo fod yno ryw ddylanwad dieithr yn y capel, a bod yno ryw fawredd anweledig wedi dyfod i mewn a'r drysau yn nghauad. Ymdaenai rhyw barchedig ofn drwy'r capel, a gwyrai pawb ei ben fel mewn gwyleidd-dra yn ngwyddfod rhyw bresenoldeb dwyfol ag oedd weithian wedi cymeryd meddiant yn drwyadl o'r lle. Yr oedd rhyw gyfnewidiad wedi dyfod dros wynebpryd y pregethwr, a rhyw naws seraphaidd wedi disgyn ar ei ysbryd a'r gwrandawyr oll wedi ymgolli ynddynt eu hunain drwy effeithiau yr unryw ddylanwad. Wylai rhai ddagrau yn hidl, ataliai eraill eu hanadl fel mewn syndod, a gollyngai eraill ochenaid ddofn wasgedig o'u mynwes, fel yr oedd yn amlwg fod Duw mewn gwirionedd yn ofnadwy yn nghynulleidfa y Saint, ac yn cael ei arswydo yn eu holl amgylchoedd. Yr ydym yn gwybod am ryw beth yn debyg wedi cymeryd lle gydag ef yn Abergele, pan oedd pregethwr cynorthwyol perthynol i'r Wesleyaid, yn nghyd ag eraill yn sefyll i fyny o flaen y pwlpud a'u llygaid

"Un ffunud a dwy ffynon,"

a phawb wedi eu llyncu i fyny gan ryw sobrwydd dwys, nes anghofio o honynt eu hunain yn lan. Yr ydym yn ymwybodol mai y Duw, ac nid y dyn sydd yma yn dyfod i'r golwg. Y trysor hwn mewn llestr pridd fel y byddo godidawgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni.

Dywedwyd mai o'r holl ddullweddau yr arferir dosbarthu pregethau iddynt, mai y dullweddiad darluniadol oedd yr un a ochelai fwyaf, a hyny nid o ddiffyg gallu ond o ddiffyg ewyllys, ac i'r dyben i roddi i'r darllenydd ryw ddrychfeddwl am dano yn y cyfeiriad hwn, yr ydym yn cyfleu ger ei fron y byr ddyfyniad canlynol o sylw yr Arglwydd o'r truan a'r cystuddiedig:—"Yr olygfa hoffaf gan lywydd y bydoedd ydyw calon ddrylliog, a'r beroriaeth bereiddiaf ganddo ydyw gruddfanau enaid edifeiriol. Nid yw Sadwrn, Mercher, Iau, a Gwener, a'r holl luaws o fydoedd disglaer ag sydd yn cylchblethu drwy eu gilydd yn yr eangder diderfyn, ond megis

Digitized by Google

cynifer o deganau gorwael yn ei olwg, mewn cyferbyniad i ysbryd cystuddiedig. Nid yw holl beroriaeth engyl y nef—caniadau ser y boreu, na phleth donau peirianwaith natur, ond megis trwst craslyd yn ei glyw, mewn cyferbyniad i gwyn enaid edifeiriol yn deisyf am drugaredd." Etto, cariad y saint yn cyfarfod yn Nghrist, "Ato ef y troant eu golygon, am dano ef yr ymddiddanant, ynddo ef y myfyriant, ac iddo ef y seiniant fawl. Eu can yn oes oesoedd fydd iddo ef yr hwn a'u carodd, ac a'u golchodd yn ei waed ei hun. Byth ni anghofiant, mai trwy ei waed ef y cyrhaeddasant y gogoniant y byddant ynddo, ac mai trwy ei gleisiau eu hiachawyd, a thrwy ei dylodi eu cyfoethogwyd. Ni all yr un sant yno edrych ar ei orsedd heb gofio am y preseb, nac ar y palmwydd heb gofio am y gorsen, nac ar y goron euraidd heb gofio am y drain pigog, nac ar y gwisgoedd gwynion heb gofio am y gwaed yn mha un y canwyd hwynt. Wrth edrych ar y trigfanau lawer, cofiant am y gwr fu heb le i roi ei ben i lawr. Wrth yfed o ddyfroedd bywyd, cofiant am y gwr fu yn yfed o gwpan digofaint, ac yn gwaeddi, 'Y mae syched arnaf.'" Etto, y credadyn trallodedig wedi cyrhaedd y gogoniant, "Yno y gosodir ef uwchlaw cyrhaedd byd, poen, pechod, ac angeu, a bydd ei gwpan diddanwch bob amser yn llawn. Yno mae cysur heb ofid, iechyd heb lesgedd, bywyd heb boen, goleuni heb dywyllwch, daioni heb ddrwg, a dedwyddwch heb leihad. Yno mae ieuengctyd nad yw byth yn heneiddio, prydferthwch nad yw byth yn diflanu, nerth nad yw byth yn gwanychu, cariad nad yw byth yn oeri, a llawenydd nad yw byth yn pallu. Yno ni theimlir poen, ni welir gofid, ni chlywir achwyniad, ac ni ofnir siomedigaeth."

---

Er nad ydym wedi son am y gweinidog a'r bugail dan eu henwau yn yr hyn sydd eisoes wedi bod dan sylw, etto fe welir fod y rhan bwysicaf o'r gwaith sydd iddynt yn perthyn wedi dyfod i mewn am ei gyfran i raddau lled helaeth. Ac mae yn eithaf amlwg nad all y rhai a gafodd y fraint o eistedd o dan y fath weinidogaeth, ac a arweiniwyd i borfeydd mor welltog, ac at ddyfroedd mor dawel, fawr lai na bod yn braidd iach a dilesg, a chymwys i gael eu dangos yn Jerusalem ar ddydd yr uchel-wyl.

Digitized by Google

Ond er mai yn yr areithfa a'r gyfeillach neillduol y mae yr ymborth hwn i gael ei gyfranu, ac yn y fyfyrgell y mae i gael ei barotoi, nid oes gan lawer yr un drychfeddwl am weinidog ond fel dyn i gerdded hyd y tai, ac i drotian oddeutu o foreu ddydd Llun hyd wyll nos Sadwrn, er gwybod hanes pawb a phob peth, ac nid anhebyg fod y gair bugail yn ei gymwysiad at y weinidogaeth wedi bod yn foddion i roddi cam olwg i lawer gyda golwg ar y swydd. Wrth mai hwn sydd yn myned i'r mynydd i edrych am y defaid, ac nid y defaid yn dyfod o'r mynydd i edrych am dano ef, tybiant mai felly y dylai y gweinidog wneuthur gyda'r bobl. Nid ystyriant fod y cynnulliadau Sabbothol a'r cyfeillachau ganol yr wythnos, wedi gwneyd ymaith a'r fath angenrheidrwydd yn awr, oddieithr mewn amgylchiad o drallod ac afiechyd, yr hyn, pan y cymer le, a ddylid ei wneuthur yn hysbys iddo yn ddioed.

Anfynych, os byth, y ceir un gweinidog ag y byddai o werth i eglwys ei gael, a geir i wneyd hyn. Ceir digon o ddynion gwrachaidd i'w wneuthur, y rhai nas gallant byth fod yn addurn i'r areithfa, nac yn anrhydedd i'w praidd. Ac ychydig erioed o'r rhai a fyddai yn dilyn yr arferiad, a welsom yn gallu cynal i fyny eu parch ond dros ychydig iawn o amser, oherwydd byddai yn rhwym o wneuthur hyn ar draul esgeuluso ei fyfyrdodau, ac unwaith yr elo pwlpud yn dylawd o hyn, gaill ganu yn iach i'w ddylanwad a'i ddefnyddioldeb ar unwaith. Mae y tai a'r pwlpud yn ddau arglwydd nas gellir gwasanaethu mwy na Duw a mamon, ac ni welwyd neb o'r rhai sydd wedi bod yn gwneuthur y cynyg yn llwyddo yn yr anturiaeth. Na chamddealler ni. Nid son yr ydym am ymweled yn achlysurol a'r claf, yr hwn sydd yn gorfod byw ar ei gysegr bychan, ond am ymweled a'r iach, yr hwn sydd ganddo ei gysegr mawr, a digon o fodd a gallu i ddyfod i fyny iddo y pryd y myno. Yn yr olwg hon, yr oedd Mr. Pugh bob amser yn rhodio wrth reol, a hono wedi ei thynu allan wrth farn. Ni fyddai yn ei gwneuthur yn arferiad i fyned i dy neb mwy na'i gilydd, oddieithr mewn achos o gystudd, neu drallod, neu ryw achos neillduol arall a fyddai yn galw am dano; a'r pryd hyny, nid oedd neb yn fwy parod i fyned, na neb a fyddai yn fwy o fendith wedi myned. Yr oedd yn hollol rydd a dirodres, heb gymeryd arno fod rhyw gyfaredd yn gysylltiedig a'i swydd, yn amgen na'r gyfaredd oedd mewn synwyr cryf i gynghori, a chalon gynes i gydymdeimlo. Rhagrith y mae ambell i weinidog ac offeiriad bach distadl



Digitized by Google

yn ymwisgo ag ef, ydyw y llall, er mwyn ymddangos y peth nad yw, a chael mantais i dra-arglwyddiaethu ar y werin. Yr oedd Pugh gartref gyda glowr fel ei gyfaill a'i gydradd, heb un pellder tybiedig rhyngddynt a'u gilydd, yr hyn oedd yn rhoddi iddo y lle mwyaf yn ei feddwl, ac yn peri i'w air gael ei dderbyn fel oracl, ac i fod yn ben ar bob dadl. Dyma yr ydym ni yn ei alw yn ddylanwad iach, dynol, a gwir grefyddol, a'r unig ddylanwad ag sydd yn deilwng o'r efengyl.

Nid oes gan eraill un drychfeddwl am weinidog ond fel cenhadwr i eangu terfynau yr eglwys, drwy sefydlu achosion newydd, a chynal i fyny y canghenau a fydd eisioes mewn undeb a'r hen. Rhaid cael ty i'r Arglwydd i goroni pob bryn, ac i brydferthu pob pant, fel na byddo raid i fferau neb ddiffygio wrth fyned i ymofyn am y bara a beru i fywyd tragwyddol. Mae ei fara beunyddiol yn werth myned dair a phedair o filldiroedd i'r dyben i'w enill, a'r ffair a'r farchnad yn werth i fyned iddynt yr un fath. Ond am bethau sydd yn nglyn ag iechawdwriaeth, mae'n rhaid eu cael yn nrysau y tai, a hyny nid o gariad tuag at y pethau, ond o gariad tuag atynt eu hunain, a'r gweinidog a wnel y pethau hyn ydyw y gwir genad anfonedig! Ond cyn gall y gweinidog fod yn weinidog cenhadol, rhaid cael yr eglwys yn eglwys genhadol, ac i astudio lles eraill fel eu lles ei hun, ac i wneyd aberth o'u breintiau er eu mwyn. Os gwel rywle o bwys i'r gweinidog i fyned yno, y mae o bwys iddi hithau fod yn barod i roddi fyny ran o'i harlwyadau tuag at hyny, ac nid dal y gweinidog yn gyfrifol am y peth nad oes fodd ganddo i wneyd yn amgen.

Mae hyn weithiau yn codi oddiar feddylddrych am gael rhyw Jerusalem fel dinas cyfarfod, lle gall y llwythau gydymgynull unwaith o leiaf bob dydd cyntaf o'r wythnos, fel y byddo yr olygfa yn fwy gogoneddus. Mae y drychfeddwl yn un ag yr ydym yn ei fawr hoffi, ac yn gysylltiedig a'r hwn y mae llawer o fanteision, ond o'r braidd yr ydym wedi ein gadael at ein dewisiad, oherwydd ein bod dan orfod i roddi i fyny y drychfeddwl, neu i'n hadnoddau gael eu sychu i fyny o'u deutu gan eraill. Ac nid ydym heb wybod fod aml i eglwys flodeuog heddyw gan y Methodistiaid ar diroedd a arloeswyd gan yr Annibynwyr, ond a adawyd heb gau o amgylch iddynt, neu a esgeuluswyd ar ol hyny. Yr oedd dau le tebyg yn perthyn i eglwys Heol Mostyn, sef Ffynon Groew a Llanerch-y-mor, ond naill ai trwy fod y gweinidog yn rhy analluog, neu yr eglwys yn rhy ddiofal,

Digitized by Google

aeth y ddau ar gyfyrgoll, a dyma yr unig wall yn ei weinidogaeth yr ydym yn alluog i roddi arno ein bys am yr ystod maith o un mlynedd a deugain. Ond am dano fel porthwr y praidd yn mhob gwybodaeth a deall ysbrydol, ac fel diddanwr y gwan ei feddwl, a chysurwr y trallodedig, a rhybuddiwr yr afreolus, nid ydym yn meddwl fod ei ragorach yn holl gylch y weinidogaeth. Yr oedd ei ddoethineb, a'i brofiad, a'i deimlad wedi ei gymwyso mewn modd neillduol at fod yn flaenor ac yn athraw i'r bobl, ag yr oedd eu ffordd tua thir eu gwlad yn myned trwy ganol gelynion, ac anialwch llawn o brofedigaethau. Yr oedd fel gwas doeth a ffyddlawn wedi ei osod gan ei Arglwydd ar ei deulu i roddi bwyd iddynt yn ei bryd, ac i hyn mae yr eglwysi yn Edeyrnion, yn gystal a'r eglwys yn Mostyn, yn cyd-ddwyn tystiolaeth.

Ond nis gall un portread o'n hen gyfaill fod yn gyflawn, heb i fyr olwg gael ei daflu drosto fel awdwr, yn gymaint a'i fod yn yr ystyr hon wedi bod unwaith mor gyhoeddus, ac mai trwy hyn y tynodd efe sylw y wlad gyntaf. Ac i'n bryd ni, dyma lle mae cuddiad ei gryfder. Faint bynag o nerth a hyawdledd sydd wedi dyfod i'r golwg yn ei waith yn llefaru, mae mwy wedi dyfod i'r golwg trwy ei waith yn ysgrifenu. Nid oes yn ein llenyddiaeth gyfansoddiadau mwy coeth, a chryno, a rhydd oddiwrth bob math o sothach mewn meddwl ac ymadrodd, na chyfansoddiadau a ddeil yn well i'w profi wrth bob rheol o feirniadaeth bur. Y mae genym ysgrifau poblogaidd y gellir eu gwasgu fel ysbwng i haner eu maint, neu eu chwythu fel poethell i ddifodiant ag anadl eich ffroenau. Y maent yn eithaf i edrych arnynt o draw, ond i chwi beidio eu teimlo a'ch dwylaw. Mae ynddynt gywreinrwydd, ond dim bywyd, a phrydferthwch, ond dim ireidd-der. Mae llawer yn alluog i gyfansoddi yn ddiwall, ond heb fod yn alluog i roddi arno un eneiniad; a llawer a all addurno yr hyn a ysgrifenant a throell ymadroddion, ond na fydd y cwbl ond addurn yr ia, yr hwn tra y serena eich llygaid a ryna eich teimladau. Yr oedd arddull Mr. Pugh wrth ysgrifenu fel wrth lefaru, bob amser yn gryno ac i'r pwrpas, heb ddim o'r cylchynog a'r aml-eiriog un amser yn croesi ei lwybr. Yr oedd ystyr ei ymadrodd mor ddisglaer a'r grisial, a'i frawddegau mor gaboledig a llewyrchus a'r meini tanllyd oedd ar ddwyfroneg yr archoffeiriad. Yr oedd pob gair yn meddu ei swydd, ac yn orlawn o synwyr, a bywyd wedi ei anadlu i mewn iddynt oll.

Digitized by Google

Y peth cyntaf a gyhoeddodd efe trwy'r wasg ar ei ben ei hun, oedd y llyfr bendigedig yr ydym wedi cyfeirio ato yn barod, sef *Drych y Cymunwr*, yr hwn a ddylai fod yn llaw pob aelod a gwrandawr drwy ein cynulleidfaoedd. Ond yr oedd efe yn Foanerges, yn gystal ag Ioan y dysgybl anwyl; yn hyf fel llew i amddiffyn y gwirionedd, yn gystal ag yn addfwyn fel oen i ddiddanu y saint. Ni thybiai ei bod yn anghyson a'i swydd fel gweinidog, a'i alwedigaeth fel cristion i oleuo y wlad, a chynhyrfu yr eglwysi i geisio ymwared oddiwrth orthrymderau gwladol ac eglwysig, ag oedd y pryd hyny mewn modd neillduol yn sefyll ar ffordd mynediad y gwirionedd yn ei flaen. Efe oedd un o'r rhai cyntaf i sefydlu cymdeithas y dadgysylltiad, er egwyddori y genedl yn natur ysbrydolrwydd teyrnas Crist, a hanes andwyol sefydliadau gwladol o grefydd; ac un o'r rhai cyntaf i fyned oddiamgylch i draddodi darlithoedd, ac i gael allan gyfres o fân draethodau i'r ieuenctyd ar y pwnc. Y cynyrch cyntaf a gyhoeddwyd ganddo yn y ffordd hon ar wedd llyfryn, oedd yr YMNEILLDUWR, neu resymau dros anghydffurfio a'r sefydliad gwladol, a elwir Eglwys Loegr, mewn dull o holion ac atebion, yr hwn sydd yn dwyn yr un ddelw o eglurdra a symledd, ag sydd yn argraffedig ar ei holl waith. Ac mewn cyfeiriad at rai Ymneillduwyr clauar, ag oedd i'w cael yn awr ac eilwaith y pryd hwnw, dywed yn ei ragymadrodd, "Hyderwyf na ddigia neb wrthyf am hyn o orchwyl, ac os digia rhyw un neu ryw rai, nid oes genyf ewyllys i ddefnyddio esgusiad er llonyddu digllonedd mor ynfyd. Nid rhaid i'r Eglwyswr ddigio wrthyf am gyhoeddi fy egwyddorion, oblegid, onid oes iddo ryddid i wneuthur yr un modd a'r egwyddorion a olygir ganddo yntau fel gwirionedd. Os digia Ymneillduwr wrthyf, ni bydd ei ddigllonedd yn werth sylw. Os nad yw yn gwybod, nac yn ewyllysio gwybod seiliau Ymneillduaeth, gwell iddo brysuro i gynes gol yr Eglwys, ac aros yno mewn llonyddwch difraw hyd ei fedd. Os egwyddorion Ymneillduaeth ydynt egwyddorion gair Duw, ni ddylid cywilyddio eu harddel, nac ofni eu cyhoeddi: ac os nad ydynt yn gyson a meddwl Jehofah, gwell ydyw eu hamlygu fel y caffer cyfleusdra i ddadlenu eu twyll, ac i rybuddio y diniwaid a'r anwybodus o'u hanysgrythyroldeb. Anwybodaeth a thwyll ydyw tybied nad yw adnabyddiaeth o egwyddorion Ymneillduaeth yn dal perthynas a duwioldeb personol. Os yw deall natur teyrnas Crist—os yw deall natur cyfansoddiad, llywodraeth, a dysgyblaeth eglwys-

Digitized by Google

ig—os yw deall unbenaeth Crist ar ei eglwys—os yw deall hawl, rhyddid, a dyledswydd pob dyn i farnu drosto ei hun—os yw deall yr iawn ddull o gyfranu at gynaliaeth achos Crist—os yw deall y pethau hyn, meddaf, yn dal perthynas a duwioldeb personol, y mae deall egwyddorion Ymneillduaeth yn dal y berthynas hyny hefyd."

Dyru y dyfyniad uchod radd o olwg mewnol ar y gwynt a'r llanw oedd gan y rhai oedd yn ymladd rhyfeloedd Ymneillduaeth ddeugain mlynedd yn ol, i rwyfo yn eu herbyn, ac mai gelynion penaf dyn yn hyn, fel mewn peth arall, ydyw tylwyth ei dy ei hun. Ond beth bynag oedd hyder eu hawdwr, digio wrtho wnaed, ac wrth bawb oedd yn cydweithio ag ef. A chan na ellid ateb eu rhesymau, na chosbi eu personau, nid oedd dim i wneyd ond ymdrechu eu gwawdio, ac ymddangosodd ysgrif i'r perwyl hwn yn *Seren Gomer*, dan yr enw Pwnc Ysgol, gan X.Y.Z., yr hon a atebwyd yn yr un cymeriad yn y *Seren Ogleddol*, oedd yn dyfod allan o Gaernarfon. Ond nid oedd hyn nac yma nac acw, gall y gwirionedd hyfforddio y cyfan ac yn ngweddill. Ond pan ddeallodd Mr. Pugh fod gwr o gyfoeth a dylanwad, yn perthyn i'r Trefnyddion Calvinaidd, ac heb fod yn byw yn mhell oddiwrtho, wedi argraffu ysgrif wawdlyd X.Y.Z. ar ei draul ei hun, a'i bod yn cael ei gwasgaru yn ddirgelaidd ar hyd y prif-ffyrdd a'r caeau yn y nos, cymerodd y pwnc i fyny yn ddifrifol, a chyfarchodd y cablwr, a'r Eglwyswr, a'r Trefnydd, ag ychydig eiriau yn y *Dysgedydd;* nid yn gymaint gyda golwg ar gynwysiad yr ysgrif, ond gyda golwg ar garedigrwydd, a gonestrwydd, ac ewyllys da ei gymydog haelionus, oedd wedi bod mor ffyddlawn a chrefyddol i'w gwasgar hyd yr ardaloedd! Yr oedd cyfeiriad wedi ei wneuthur yn yr ysgrif at helbulon un o'r brodyr, yr hyn a ystyriai ein hawdwr yn un o'r ymddygiadau mwyaf isel, ac mewn cyfeiriad at hyn y dywed, "Wrth argraffydd y pum' cant copiau, ac wrth y gwr a'i gosododd ar waith, dywedaf, mai crach foneddrwydd ydyw un o'r helbulon mwyaf chwerw o bob helbulon. O bob ymlysgyn, hwnw ydyw y ffieiddiaf, yr hwn a ddengys orlawnder o wenwyn, ond heb golyn i'w drosglwyddo. O bob dyn, hwnw ydyw y mwyaf dirmygedig, yr hwn a anelo ei saethau at bersonau eraill, ond a ymguddia dan gysgod ffugenw. O bob llofrudd, y mwyaf cnafaidd a pheryglus yw yr argraffydd hwnw, yr hwn, a ollyngo ei wasg yn butain gyffredin i gofleidio y fath gyfansoddiadau, ond heb chwarter

Digitized by Google

digon o ddynoliaeth ynddo i gydymffurfio a chyfraith y tir, trwy osod ei enw wrth ei waith." Wrth anerch yr Eglwyswyr, dywed, "Pwy fu gynt yn gwawdio, yn enllibio, yn lluchio, ac yn dirwyo y Trefnyddion yn eu cychwyniad cyntaf i grefyddoli y wlad? Onid *chwychwi?* Pa beth, ynte, ydyw yr ymlyfu sydd arnoch yn awr? * * Y mae ysbryd yr oes yn ymgodi yn erbyn gormes a thwyll o bob math. Y cymylau a ymgasglasant, y taranau a glywir o bell, arswyd a ymaflodd yn y cedyrn, ac mae pob peth yn arwyddo fod eich ty mewn perygl." Wrth ddybenu, cyfeiriai air at y Trefnyddion, "Gwn am lawer o honynt yn rhy oleu i gymeryd eu twyllo, yn rhy wrol i gymeryd eu brawychu, ac yn rhy gydwybodol i wenieithio. Nid at y dosbarth a grybwyllwyd y cyfeiriaf fy anerchiad, ond at y cyfryw o'r Trefnyddion, y rhai er iddynt gilio o'r Eglwys, etto a broffesant bleidgarwch mawr iddi. Dymunaf yn daer ar y rhai hyn ateb imi y gofyniadau canlynol:—Pa fodd y darfu i chwi gael y rhyddid a'r breintiau sydd genych fel enwad crefyddol, mewn meddiant o ba rai yr ydych yn proffesu, bod yn foddlon heb eisiau a cheisio ychwaneg? Ai gorwedd yn y llwch a ddarfu i chwi wrth draed yr Eglwyswyr, a gwaeddi am drugaredd? A ddarfu iddynt o wir ewyllys da—o wir gariad at egwyddorion rhyddid, ac o wir ddymuniad i ymgadw rhag gormes mewn dim ar gydwybodau eu cydgreaduriaid, eich codi o'r llwch, ac estyn i chwi y rhyddid a'r breintiau hyn fel rhad roddion? Onid trwy ymdrech—cydymdrech—a chydymdrech egniol, yr Ymneillduwyr y cawsoch hwynt? Gwedi ateb y pethau hyn, cewch groesaw i gablu yr Ymneillduwyr, ac i ganmol yr Eglwyswyr nes y blinoch. Gofynaf hefyd, Pa faint yw y ffordd sydd rhwng eich addoldai mewn llan a thref a'r Eglwys? Rhyfedd mor garedig ydych tuag ati. Gan fod ei hegwyddorion mor bur, ei threfn mor ysgrythyrol, a chan ei bod yn mhob llan a thref mor orlawn o wrandawyr, yr ydych chwithau mor bleidgar iddi, ac mor awyddus i'w chynal, er mai prin byth yr ydych yn sengu ei chynteddau, er mwyn yn ddiau i eraill gael digon o le yno; ac yr ydych yn adeiladu addoldai yn ei hymyl, i'r dyben bid siwr o'i chynorthwyo, ac fel y byddo gan y gweddill gwrandawyr a fethant gael lle o fewn ei muriau, gan orlawnder y cynulleidfaoedd, gael lle cyfleus gerllaw i addoli."

Wedi hyn, cyhoeddodd ddarlith a draddodwyd ganddo yn Nghonwy, ddydd coroniad Victoria, ar "Nodwedd, ymgais, a

Digitized by Google

bwriad yr Ymneillduwyr," a thraethawd ar "Hawl a chymwysder pob dyn i farnu drosto ei hun," yn nghyda darlith ar "Draddodiadau," yn mha rai y sylwa fod son am grefydd wladol, yr un fath a son am gredu gwladol, a chyfiawnhau gwladol, a santeiddio gwladol, ac ail-eni gwladol. A bod cyhoeddi deddf i oddef i ddynion addoli Duw, yr un peth a chyhoeddi deddf i oddef Duw i dderbyn addoliad, a'i fod agos mor rhyfygus i alw ar yr Ymneillduwyr i fod yn ddiolchgar i ddynion am gael eu goddef i addoli, ag i alw ar Dduw i fod yn ddiolchgar i ddynion am gael ei oddef i dderbyn addoliad. Wedi hyn ni chyhoeddwyd ganddo ond pregethau ac erthyglau achlysurol i gyhoeddiadau misol a chyfnodolion eraill, pa rai sydd bob amser yn tyngu eu tad yn y symledd a'r ffraethineb sydd yn eu hynodi, ac yn y traiddgarwch meddyliol sydd ynddynt yn cael ei arddangos. Buasem yn mawr hoffi gwneuthur sylwadau manylach ar y traethawd godidog ar "Hawl a chymwysder pob dyn i farnu drosto ei hun," wrth ei fod mor llawn o'r athroniaeth mwyaf pur, ac wedi cynhyrchu effeithiau mor nerthol yn adeg ei gyhoeddiad. Ond gofyna hyn am erthygl yn gwbl iddo ei hun, ac y mae ein gofod ninau i hyn ar ben.

Nid oes weithian, ond prin le wedi ei adael i ni, i ddywedyd gair neu ddau mewn ffordd o ddiweddglo, sef, mai un o'r neillduolion mwyaf amlwg, ag sydd yn nodweddu arddull gryno, ac eglur ein hawdwr ydyw cyferbyniaeth, neu fel y gelwir hi gan y Sais *Antitheses*, yr hon sydd yn cymeryd ei safle ar un o ddeddfau cyntefig y meddwl, ac yn gosod y naill beth ar gyfer y llall, er eu gorfodi i daflu goleuni ar eu gilydd. Mae yn gynyrch naturiol meddwl cyflym, ag sydd yn canfod pob peth yn ei nerth a'i wendid ar darawiad, ac yn ei ddefnyddio fel un o'r bwäau mwyaf dewisol i ollwng ei saethau blaen-llym yn ddiwyrni i'w nod. Nid oes un arddull yn fwy gwasanaethgar i gadarnhau y gwirionedd a dinoethi twyll, nac un sydd yn gwisgo y cyfansoddiad gyda mwy o nerth ac awchlymder, ac yn ei wneuthur mor ddifyr ac ysgafn i'w ddarllen. Ond y mae gofyn iddi fod yn llaw meistr cyn y gellir ei defnyddio yn effeithiol, a hwnw wedi ei eni yn gystal a'i addysgu i'r gorchwyl penigamp o drin yr ysgrif-bin. Mae yn ei arddull amryw o neillduolion eraill, ond dyma y brif, a'r unig un yr ydym yn gofalu yn awr am ei chrybwyll. Ond y neillduolrwydd mwyaf o'r cwbl ydyw y meddwl pendefigaidd ei hun, ac at hwn, yn fwy na'r ffurf trwy ba un y

Digitized by Google

mae yn ymddangos, yr ydym yn dymuno galw sylw y darllenydd.

Yr ydym yn awr yn terfynu ein sylwadau anmherffaith ar nodweddion ein hen gyfaill o Fostyn, gyda dywedyd, ei fod yn llawenydd nid bychan iddo ef, ac eraill a fu yn cyd-lafurio gydag ef yn y gorchwyl bendigedig o oleuo y wlad, i weled cyn eu symud ymaith, y fath ffrwyth i'w llafur, yn y chwyldroad gogoneddus sydd wedi cymeryd lle yn marn y cyffredin gyda golwg ar ryddid gwladol a chrefyddol. Cawsant weled y rhai fu yn eu herlid yn dyfod i'w canmol, a rhai fu yn eu gwawdio fel penboethiaid gwallgof, yn dyfod yn benboethiaid gwallgof atynt, ac yn taflu eu holl ddylanwad i'r glorian, i orphen y gwaith ag yr oeddynt unwaith wedi bod yn sefyll ar ei ffordd. Cawsant weled gwawr dydd perffaith gyfraith rhyddid yn tori o draw, a hen lyffetheiriau traddodiad, a rhagfarn, a dichell offeiriadol, ag oedd unwaith yn santeiddiedig gan grefydd a henafiaeth, yn cael eu taflu i'r wadd a'r ystlymod, a'u dwyn i derfyn yr oesau, lle mae cyfraith y tir wedi dechreu dyfod ati ei hun, i roddi eiddo Cæsar i Cæsar, ac eiddo Duw i Dduw, ac i ymwrthod a'r gwaith ynfyd a didduw o osod i fyny beirianau er cynal y nefoedd rhag syrthio, ac i ysbeilio eraill i'r dyben i'w cadw mewn gwaith. Buont feirw mae'n wir, heb gael myned i fewn eu hunain i wlad y nef newydd a'r ddaear newydd, lle mae cyfiawnder yn cartrefu, na chael rhan yn yr adgyfodiad cyntaf hwn ar achos y gwirionedd. Ond buont feirw ar y terfynau, a'r holl dir dymunol yn y golwg—wedi derbyn yr addewidion am dano, a chael ernes yn y dydd oedd yn dyfod yn llosgi megis ffwrn, ac yn yr ysbryd oedd wedi myned allan i blith y cenhedloedd, yn gystal a'r ysbryd oedd yn tystiolaethu yn eu mynwes eu hunain, fod boreu trydydd dydd adgyfodiad y briodasferch gerllaw, ac nad aeth eu llafur hwythau tuag at ei ddwyn oddiamgylch yn ofer yn yr Arglwydd.

Digitized by Google

# PENNOD V.

## MARWNAD.

O pa fodd y cwympodd cedyrn
  Cymru fâd i lwch y bedd?
Cedyrn Seion fel pe buasent
  Ryw eiddilod gwael eu gwedd
Caled fuost angau creulawn
  Wrth areithfa'n cenedl ni,
Gauaf heb arwyddion gwanwyn
  Fu'r diweddaf iddi hi.

Galar sydd yn nhemlau Seion,
  Yn mhob dyffryn, ar bob dôl,
Adswn lleddf y galar hwnw
  Deifl y bryniau ban yn ol;
Trymach ydyw na'r mynyddoedd,
  Dyfnach na gwaelodion môr,
Galar rwyga galon cenedl—
  Galar gwlad am weision Ior.

Hoffem nesu at eu henwau
  Gyda llaw a chalon lân,
Ac aberthu i'w rhinweddau
  Gyda chysegredig dân,
Ar allorau'u coffadwriaeth
  Yn nghysegrfa calon bur
Sydd o hyd, o gariad atynt,
  Yn dihoeni dan ei chur.

Rees Llanelli, aml ei ddoniau;
  Williams hyawdl o'r Groeswen;
Henry Rees, yr ymherawdwr,
  Dynai'r nefoedd am ein pen;
Dyna enwau rhai o honynt
  Oeddynt gedyrn yn eu dydd,
Ond ynt heddyw wedi tewi
  O dan leni'r bedd yn gudd.

Digitized by Google

Nid y lleiaf o'r enwogion
  Glwyfwyd gan y farwol saeth,
Ac a rifwyd at y meirwon
  . Ydoedd Pugh o Fostyn, ffraeth;
Mae ei fedd yn hudo'r awen
  I ymdroi o gylch ei fin,
Ac i daflu trem ar fywyd
  Y pregethwr mawr ei rin.

Meirion anwyl, glir ei dyfroedd,
  Iach ei hawyr, bur ei moes,
Bia'r clod o fod yn famaeth
  Iddo yn moreuddydd oes;
Hi osododd y planhigyn
  Yn ei wanwyn yn ei gardd,
Dyfodd mewn addfedrwydd oedran,
  Yn gadarnbren ffrwythlon hardd.

Ardal Tywyn aml ei cheinion
  Wylia'r eigion yn ei gryd,
Lle ceir trem ar for a mynydd,
  Lonai gynt ei ieuanc fryd.
Araf li Dysyni swynol
  Ddenai 'i feddwl tirf ac ir,
Hoffai chwarau ar ei glanau
  Gwel'd ei physg a'i dyfroedd clir.

Delw'r golygfeydd a lynodd
  Yn ei feddwl, fel y glŷn
Argraff roi'r ar gwyr toddedig
  Mewn perffeithrwydd maint a llun.
Dysgodd bregeth Cader Idris
  O'i hurddasol uchel sedd
Ar y *rhydd* a'r *annibynol*,
  Ac fe'i cofiodd hyd ei fedd.

Ca'dd. fel Timotheus rinweddol,
  Nain ofalus lawn o rin,
Ddysgai iddo'r gorchymynion
  Pan yn blentyn ar ei glin;
A sychedai'i enaid yntau
  Am wybodaeth fel y bref
Hydd am yr afonydd dyfroedd,
  "Moes" oedd ei barhaol lef.

O dan gysgod pren gwybodaeth
  Yr eisteddai fore a nawn,
Hoffai ddringo ei ganghenau,
  Bwytai ffrwythau addfed, llawn;
Gwelwyd hyny, fe'i haddysgwyd,
  Ac fe aed a'r llencyn teg
I'r Brif-ddinas at gyfreithiwr
  Yn ei dryddedd-flwydd-ar-ddeg.

Digitized by Google

Bu'n fucheddol a darllengar
  Tra bu yn y ddinas fawr,
Fe enillai ymddiriedaeth
  Ac ymloewai fel y wawr;
Ond gadawodd yr ysgrif-fwrdd
  Mewn ewyllys da a hedd,
Ond arhosodd delw Llundain
  Ar ei *waith* ac ar ei *wedd*.

Gwelai y boregwaith cyntaf
  Wedi ei ddod i Gymru'n ol,
Serth glogwyni Craig Aderyn
  Yn lle clochdy ban Sant Paul,
Awyr glir yn lle y caddug,
  Ac yn lle swn trystfawr lu,
Clyw gyfarthiad ci y bugail
  A cherddnodau'r fronfraith gu.

Gwelai storm ar ael y Gadair,
  Cwmwl du, a mellten wen
Yn ymsaethu o'i ddyblygion,
  Tua'r ddaear ar ei phen,
Clywai'r daran groch yn rhuo
  Nes y crynai'r bryniau ban,
Rhedai'i feddwl bywiog yntau
  Tua Sinai yn y fan.

Gwelai yno'r un olygfa,
  Crynai'n nhwrf y daran gref,
A phob mellten fflamgoch wibiai
  A drywanai'i enaid ef;
Dyfroedd adgof gronent ynddo,
  Cludent drwy ei feddwl lleddf
Bob cynghorion gawsai'n blentyn
  A phob gweithred groes i'r ddeddf.

Troes ei olwg i Galfaria
  Yna llonai 'i enaid trist.
Penderfynodd roi ei hyder
  Mwyach yn nghyfiawnder Crist,
Fe ymwasgodd a'r disgyblion
  Gan ystyried hyny yn fraint,
Er mai Saul yn mysg prophwydi
  Ydoedd *twrne* yn mysg y saint.

Buan gwelwyd yn y bachgen
  Wir elfenau gwr o fri,
Meddai feddwl bywiog, treiddgar,
  A ffraethineb fel y lli;
Hynod oedd ei fedr a'i allu
  I drin pynciau dyrus iawn,
Synai pawb at ei wybodaeth,
  Tra eu swynid gan ei ddawn.

Digitized by Google

Llanfihangel a Llwyngwril,
Uchel freintiwyd, tra bu ef
Yn esponio a chyhoeddi
Iddynt genadwri'r nef;
'R Ysgol Sul a'r cyfeillachau
Gawsant ei ymgeledd mad,
A ffynasant dan ei nodded
Megys plant dan ofal tad.

Ond agorwyd gan ragluniaeth,
Faes eangach iddo'n awr—
Ardal Bethel a Llandrillo,
Lle'r ymdrechodd megys cawr;
Mawr fu ei ddylanwad yno,
Ac fe erys byth ei ol,
Gweithiodd Michael Jones ac yntau
Megys Timotheus a Paul.

Mostyn wedi hyny fedodd
Ffrwyth aeddfeta'i ddoniau llawn,
Lle y treuliodd yn llwyddianus
Ei ganolddydd a'i brydnhawn,
Nes daeth adeg i noswylio
Wedi dyfal gario'r groes,
A machludo haul ei fywyd
Dan gysgodion hwyrddydd oes.

Penderfynodd ymegnio
Pan ymafiodd yn ei waith,
Llwyr gysegrodd ei alluoedd
Dros ei Dduw am dymor maith;
Tyngodd, cadwodd, lw ysgariaeth
A segurdod am ei oes,
Ac offrymodd ffrwyth toreithiog,
Ei ddiwydrwydd wrth y Groes.

Nid segurwr, na chwedleuwr
Oedd, yn teithio o dŷ i dŷ,
Ond myfyriwr yn darparu
I'w wrandawyr ymborth cry';
Nid cyffroi'r teimladau byddai
Ond goleuo dylion wyr,
Ceisiai ddryllio'r galon galed
Gyda gordd gwirionedd pur.

Nid aderyn nos mo heno;
Ni thywyllai gyngor byth
Ag ymadrodd heb wybodaeth,
Neu ryw wag iselwael druth;
Cadwai'n mhell o leoedd niwliog,
Hwyliai mewn goleuni o hyd,
Ni tharawai'i lestr yn erbyn
Craig gwirionedd unrhyw bryd.

Digitized by Google

Gwledd ddanteithiol oedd ei wrando
  Yn esbonio geiriau Duw,
Gan egluro cysylltiadau
  Yr adnodau yn ein clyw,
Cloddiai'n ddwfn i dir meddyliau,
  Dygai allan bethau cudd,
Gan eu dangos i'w wrandawyr
  Yn ngoleuni haner dydd.

Y gwirionedd—nid dych'mygion,
  Geid yn ei bregethau coeth,
Ysgrythyrau'n gymhlethedig
  A byr-ddywediadau doeth,
Dorau aur oedd ei wefusau,
  Dros y rhai, y perlau cel
O waelodion mor ei feddwl,
  Dreiglent mewn ffynhonau mel.

Ganwyd ef i fod yn awdwr,
  Meddai ddoniau at y gwaith,
Gwisgai ei feddyliau tlysion
  A dillynion pena'r iaith;
Gwenith pur yw ei ysgrifau
  Wedi nithio i ffwrdd yr us,
O flaen gwyntyll chwaeth goethedig—
  Daliant raith beirniadol lys.

Methodd doniau duwies Awen
  Ei berswadio i fod yn fardd,
Ni wallgofodd dan gyfaredd
  Emrynt yr hudoles hardd:
Duwies Rheswm, orofalus,
  Gadd ei law a'i galon lon,
A chysegrodd ar ei hallor
  Gariad nwyfus ieuanc fron.

Ysgrifenai i ddyrchafu
  Egwyddorion—nid ei hun,
Rhyw wirionedd fyddai'n wastad
  Yn y golwg—nid y dyn;
Ond y pin o dan ei ddwylaw,
  Droes yn allwedd teml clod,
A bydd coffa am ei weithiau
  Tra bo'r iaith Gymraeg yn bod.

Cronglwyd dawel Coed y Bedo
  A gysegrwyd tra y bu'n
Parotoi "Drych y Cymunwr"
  Lawer noswaith ar ddihun;
Drych yw hwnw i ni weled
  Mewnol ddyn ei galon ef
Wedi iddo deimlo'n rymus,
  Ddylanwadau gras y nef.

Digitized by Google

Ond prif destyn ei ysgrifau
  Ydoedd Rhyddid o bob rhyw—
Rhyddid gwladol a chrefyddol—
  Rhyddid i addoli Duw
Yn ol llais cydwybod effro—
  Rhyddid nefroddedig dyn
I gael barnu drosto'i hunan
  Rhwng ei Dduw ag ef ei hun.

Ydoedd ryfedd iddo'n Meirion
  Godi baner Rhyddid wen,
Tra y gwisgai ei mynyddoedd
  Goron Rhyddid am eu pen?
Ai nid dyna iaith y gornant
  A ymlithrai heibio'i droed?
Ai nid noddfa olaf Rhyddid
  Fu y bryniau ban erioed?

Holwch Switzerland fynyddig
  Ydyw Rhyddid yno'n fyw,
Tŷr atebion mil clogwyni
  Iâ yr Alpau ar eich clyw.,
Yn Niagara mawr o 'YDYW'!
  'Byw yw Rhyddid yn ein plith!
'A thra bo ein penau'n wynion
  'Amddiffynwn Ryddid byth'!!

Holwch serth glogwyni Eryri
  P'le gwnaeth Rhyddid Cymru ei fedd
Pan y syrthiodd ein Llewelyn
  Drwy fradwriaeth dan y cledd?
Oni ddringodd ei mynyddau
  Ar ei erlidiedig hynt?
Oni ocheneidiodd yno'i
  Olaf gwyn i glust y gwynt?

Anhawdd peidio colli dagrau
  Uwch golygfa o drallod dwys;
Anhawdd wedyn peidio gwenu
  Ar olygfa brydferth, lwys;
Anhawdd magu y rhinweddol
  Yn aneddau y di-ffydd;
Ond anhawddach magu caethwas
  Ar lechweddau Cymru rydd.

Anhawdd ydoedd iddo yntau,
  Eiste'n dawel mewn mwynhad
Ar y clogwyn ger Tŷ Uchaf,
  I gael golwg ar y wlad;
Heb i Ryddid chwyddo'i fynwes,
  Heb i'w galon guro'n gynt,
Ac heb iddo ddysgu'n berffaith
  Gerddi Rhyddid gan y gwynt.

Digitized by Google

Gweithiai Rhyddid yn ei fynwes
  Fel y lefain yn y blawd,
Penderfynodd yntau'i feithrin
  Drwy waradwydd byd a'i wawd;
Credodd, yna fe lefarodd
  Mewn ymadrodd llawn o ffydd,
Y dylasai crefydd Iesu
  Ddod o'i llyffetheiriau'n rhydd.

Rhoddodd holl adnoddau'i enaid
  I oleuo'r wlad yn hyn,
A chyneuodd ffaglau Rhyddid
  Yn mhob dyffryn, ar bob bryn,
Seiniodd udgorn Rhyddid nerthol
  Hyd i gonglau pella'r wlad,
Galwodd ei fyddinoedd allan
  Ac arweiniodd hwy i'r gâd.

Fe anturiodd i'r diffaethwch,
  Digaregodd yr holl ffyrdd,
Ac arloesodd diroedd anial,
  Er yn mhlith peryglon fyrdd;
Hauodd ynddynt mewn diwydrwydd
  Hadau y gwirionedd llawn,
Ninau fedwn, erbyn heddyw,
  Yno ffrwythau aeddfed iawn.

Bu yn ateb gwrthddadleuon
  Gyda'i bin, o un i un,
Cyn i Edward Miall ddysgu
  Ysgrifenu ei enw'i hun;
Ysgrifenodd ac areithiodd
  Heb ddiffygio na llwfrhau,
Ond parhaodd nerth ei yni
  A'i hyawdledd heb brinhau.

Bu ei enw hoff yn wawdair
  Yn mysg pleidwyr crefydd gaeth,
A bu ei gymeriad purlan
  Yn gyfeirnod llawer saeth,
Bu Merosiaid yn ei boeni—
  Pobl na fynent dynu'n groes,—
Dyna gyfran dyn a anwyd
  Lawer blwydd o flaen ei oes.

Ond fe safodd fel y Wyddfa
  Er yr erlid, er y brad,
Nes dwyn barn i fuddugoliaeth,
  Nid oes bellach neb a wâd
Pan mae'r hyn a amddiffynai,
  Gyda holl egnïon Cawr,
Erbyn heddyw'n gyfraith rymus
  Ar ddeddf-lyfrau Prydain Fawr.

Digitized by Google

Diarhebol oedd o graffus,
  Cynhadleddwr heb ei ail,
Pob ymadrodd a lefarai
  Byddai synwyr iddo'n sail;
Ei sirioldeb wywai ymaith
  Y sarugrwydd sydd yn bla,
Ffrydiau diball ei arabedd
  Ddyfrhaent feusydd tymer dda.

Rhy fawr ydoedd i ymffrostio
  Ac i floeddio, *gwelwch fi*,
A rhy wylaidd i ymwthio
  A physgota clod a bri;
Brenin oedd yn mysg ei frodyr,
  Ond ni thra chwenychai'r sedd;
Poerai wawd am ben corachod
  Ac ymyrwyr gwag dihedd.

Deuai pobl o bell ac agos
  Ato am ei gyngor mad,
Rhoddai yntau gyfarwyddyd
  Gyda phwyll a gofal tad;
Bu yn athraw i athrawon
  Ar faterion dyfnion dwys,
Ac fe fu ei air yn gyfraith,
  Lawer gwaith, ar bwnc o bwys.

'Roedd yn gyfaill cywir, siriol,
  Caredigrwydd lon'd ei fron,
A phelydrau serch yn chwarau
  Yn ei lygaid bywiog, llon;
Ceid yn ei gyfeillach ddifyr
  Adeiladaeth a mwynhad—
Cwpan mwyniant gorlawn ydoedd,
  Heb fod yn ei waddod frad.

Ymollyngai'n mysg cyfeillion
  I ymddiddan llawen, rhydd,
A siriolai ei deimladau
  Loned a goleuni dydd;
Dyna'r adeg y bwrlymai
  Ei arabedd yn ei nerth,
Ac y llifai dros ei wefus
  Ddiarhebion o wir werth.

Gall i londer a didwylledd
  Weithiau'i hudo'n mhell o dir
Phariseaid ffugsanteiddiol—
  Pobl brudd y gwyneb hir;
Ond adwaenai ef y didwyll,
  Gwyddai pwy arferent gnoi—
Gwyddai pwy oedd i'w gofleidio,
  A phwy ydoedd i'w osgoi.

Digitized by Google

Gwybu yntau am ofid u,
  Gwybu beth oedd cystudd blin,
Gwybu beth oedd colli priod
  Anwyl, hawddgar, aml ei rhin;
Ond fe fu yn amyneddgar
  Mewn gofidiau o bob rhyw,
Cafodd nerth i ymwroli
  Ac ymddiried yn ei Dduw.

Os am wybod faint oedd llafur,
  Beth oedd doniau'r athraw cu,
Holwch ddail hen Ddysgedyddion
  Grymus y blynyddau fu,
Pan oedd ef a'i gydlafurwyr
  Doniol, yn cyfodi eu llais
Yn daranau o felldithion
  Ar orthrymder du a thrais.

Os amheuwch ei ffyddlondeb
  A'i ddiwydrwydd gyda'i waith,
Holwch ei eglwysi pruddaidd
  Sydd a'u llygaid eto'n llaith;
Peidiwch amau'u cariad ato
  Tra mae'r dagrau ar eu grudd,
Mud fo tafod drwg amheuaeth
  Yn swn ocheneidiau prudd!

Yntau aeth! Diangodd ymaith!
  Dyna rydd i'r galon glwy'!
Meddwl na chawn yma'i wrando
  Na mwynhau ei gwmni mwy!
Sut yr aeth, nis gwaeth, nis gwyddom;
  Os y gwybu ef ei hun;
Engyl a'i cipiasant adref
  Yn ngherbydau Mab y Dyn.

Ca'dd yr hyn a ddymunasai—
  Marw cyn rhoi heibio'r gwaith,
Diosg ei arfogaeth, yna
  Cychwyn i'r dragwyddol daith;
Bu, ei Sabboth olaf yma,
  Yn cyhoeddi efengyl hedd,
Ond yr oedd y tafod hwnw
  R' Sabboth wed'yn yn ei fedd.

Hedd i'w lwch yn mynwent Seion!
  Gyda'i briod, hyd y dydd
Y cyhoeddo bloedd yr udgorn
  Garcharorion angau'n rhydd.
Gwen rhagluniaeth fawr y nefoedd
  Fo ar ei amddifaid mad,
Dyger hwynt i wir gofleidio
  Ac i ddilyn ffydd eu tad.

GALARWR GWYL EI EIRIAU.

Digitized by Google

## LLINELLAU COFFADWRIAETHOL

AM Y DIWEDDAR BARCHEDIG H. PUGH, MOSTYN.

---

Puw anwyl, pwy i'w enwi—adewaist,
Dywed, i'n blaenori?
Nis ceir yn rhes y cawri
Neb mor wrol ar d'ol di.

Osgo ryfedd dy ysgrifau—ydoedd
Ofnadwy i ffurfiau;
Andwyaist hen gredoau
Yn mhob gwisg, ac yn mhawb gau.

Nod uwchaf gwyr Rhydychain—dynoethaist,
Yn iaith un, wrth olrhain,
Brofodd "fod Pabau Rhufain
Aml eu rhith, yn moliau rhai'n." *

Tra y dygaist ar y Degwm †—lewyrch
Dadleuon gwir reswm,
Yn ei warthrudd a'i orthrwm
Y gwelid trais yn glo trwm.

O'n tir, cynullaist bentyrau—o fud
Ddefodol baderau,
A phrin oedd offerenau
Pob man, yn dy glorian glau.

A phleidiau "anffaeledig"—y gydiol
Gadwen Apostolig,
Hen dadau'n wrthodedig
Trwy brawf, a dynaist o'r brig.

Di laddaist gynadleddau—eglwysig
Lysoedd y caeth-ddeddfau,
A'r gwawl pur i'w heglurhau,
Anfonaist i'n terfynau.

Arabedd, fel cledd, miniog glan—godaist
Gydag ysol dduchan,
Nes torri gormes darian
A throi twyll rhagrith i'r tan.

Yr iaith geid drwy d'areithiau—oedd beraidd
I barabl dy eiriau;
Nid oedd esgob, er pob pau,
Yn goethach ei bregethau.

* Dioddefodd Mr. Pugh, tua 35 mlynedd yn ol, gryn erledigaeth oblegid y dywediad uchod o'i eiddo.

† Y mae yn debygol iawn, mai gwaith Mr. Pugh, ar y Degwm, a ddechreuodd gyffroi yr ysbryd ymofyngar sydd yn ein gwlad yn awr, ar y pwnc.

Digitized by Google

Wrth enau'n llawn ffraethineb—nis celodd
Disgwyliad pob wyneb;
Pan ofynid, nid oedd neb
Barotach, mewn byr ateb.

Go foreu oedd dy gyfeiriad—cawn di
Cyn dy oes yn wastad,
Ac eraill, a'th agoriad,
Efo rhwysg ddaw am fawrhad.

Ein gwyl oedd dydd dy gladdu—o deimlad
Amledd dagrau'n gwlychu,
Galar nad allem gelu
A grudd wleb, greodd i lu.

Yn nhir Seion y croesawyd—dy lwch,
A dy le gyssegrwyd;
Rhaid addef—anrhydeddwyd
Wedi'r loes, ei daear lwyd.

Ti yn hir, fuost yn hau—ond heddyw,
Faint wyddom yw'r ffrwythau?
Bellach, y cyfeillachau
Sy mewn hedd, dos i'w mwynhau!

R. PARRY, (GWALCHMAI.)

---

## ENGLYNION

I'R DIWYDDAR BARCHEDIG HUGH PUGH, MOSTYN, GAN HWFA MON.

---

Pa awdwr fel Hugh Pugh ydoedd—mor graff—
Mor gryf ei alluoedd?
Oracl, doethaf y siroedd,
A thwr Ymneillduaeth oedd.

Ei barod eiriau byrion—a ddalient
Ei feddyliau trymion;
Berwai yn ffrwd, o'i frwd fron,
Arabawl ddiarhebion.

Pugh yrai eiriau purion—yn wynias,
Trwy galonau ffeilsion,
A Phugh a roddai ei ffon
Ar daiog gablwyr duon.

Mynai y twyllwr mantellog—o'i ffau,
Ar draws ei ffordd wyrog;
A'i gledd y rhwygai ei glog,
Brathai y gwyneb rithiog.

Digitized by Google

Deallai ddichellawg dwyllwyr—a gwelai
Ddirgelion rhagrithwyr;
Adwaenai, gwyliai y gwyr
Bradog yn ngwisgoedd brodyr.

Colynog, finiog, ysgrifenydd—fu,
A gwir fawr dduwinydd;
Araf, a doeth gynghorydd,
A phen dadleuwr y ffydd.

Gyrai ini y gwirionedd—yn bur,
Trwy ei bwyll a'i symledd;
O'i gysegrol, swyddol sedd,
Rhoes olau ar ei sylwedd.

Ei gryfion, goethion, bregethau—lluniaidd,
Llawnion o resymau;
Gaed i gyd, gwedi eu gwau,
O hyawdledd, heb chwedlau.

Ond er enw, a bywyd o rinwedd—pur,
Ac er parch a mawredd—
Y gwr galluog orwedd
O dan byrth duon y bedd.

Ar ol ei drwm farwolaeth—o'i henaid,
Griddfanai y dalaeth;
A Seion, mewn cwynion caeth,
Erys dan donau hiraeth.

Digitized by Google

## DAMMEGION.

Cymerwn y dammegion a ganlyn allan o'i anerchiadau dirwestol fel arddangosiad o'i ddullwedd a'i fedrusrwydd i gymhwyso defnyddiau amrywiol at y materion a driniai.

DAMMEG Y TY AR DAN.—Gwr a gwraig grefyddol wedi myn'd i'w gwely. O gylch hanner nos y maent yn clywed rhyw drwst. "Ust! " ebe y gwr, "beth yw'r mater ? Y mae rhyw wraig yn ysgrechian yn groch." Curo mawr wrth y drws, a llais gwraig yn gwaeddi, "Y mae ein tŷ ar dân—y mae fy mhriod wedi rhedeg i'r lloft i geisio achub fy mhlant—y mae y grisiau wedi syrthio—nid oes un ffordd i'w hachub ond trwy gael benthyg eich ysgol chwi—er mwyn y nefoedd codwch heb oedi."

"Rhyw beth rhyfedd iawn yw hyn—mater go ddieithr i mi —ni bu neb erioed o'r blaen yn curo fel hyn wrth fy nrws, ac yn ceisio benthyg fy ysgol hanner nos—rhaid i mi gael gweld beth ddywed yr Ysgrythyr ar ryw fater dyrus fel hyn—estyn y Bibl imi" meddai y gwr crefyddol wrth ei wraig, a'r ty yn myn'd ar dan o hyd.

Y wraig yn codi, yn goleu canwyll, yn estyn Bibl, ac yntau yn gwisgo spectols, ac yn troi dalenau'r Llyfr Santaidd yn bur ddefosiynol, a'r tŷ yn myn'd a'r dân o hyd pan yr oedd ef yn chwilio am orchymyn pendant ar y mater. "A wyddost ti" eb efe wrth ei wraig "dyma adnod *fine* iawn yn taro ar y mater yn union, "*Yr Arglwydd a barodd i drymgwsg syrthio ar Adda ac efe a gysgodd.*" Dyma un arall eto, "*Yr Iesu yn cysgu yn y pen ol i'r llong.*" Dyma un eto, "*Efe a ddaeth at ei ddisgyblion, ac a ddywedodd, cysgwch bellach.*" Dyma un arall, "*Pedr yn cysgu rhwng y ddau filwr*"—A wyddost ti y mae gennyf hawl i gysgu, oes yn wir, y mae'r Bibl o'm plaid i—Duw yw awdwr cwsg—Cysgodd Crist—y disgyblion—Pedr—mi gysgaf inau," a chyda hyn ymollwng ar ei wely, a chysga yn dawel hyd y boreu.

Yn y boreu y mae yn codi ac yn myn'd allan, a phwy sy'n ei gyfarfod bron yn gyntaf un ond y wraig druan fu'n curo wrth ei ddrws; heb briod, heb blant, heb dy, y cwbl ag oedd werthfawr yn ei golwg ac anwyl yn ei chalon, pob gwrthrych ac yr oedd llinynau ei serch wedi ymblethu o'u hamgylch wedi cael eu difa gan y fflamau. "Rho gyngor i'r wraig druan—estyn dipyn o gysur iddi—cynnyg fyn'd dipyn i weddi drosti." A!

Digitized by Google

y mae dy gynghor—dy gysur—dy weddi, fel gwenwyn yn ei golwg—hi a dry atat ac a ofyna "Paham na buasech yn codi ac yn rhoi benthyg eich ysgol pan yr oeddwn yn galw?"

Yn awr nid anhawdd ydyw cymhwyso'r ddammeg. Y mae mil miloedd o wyr gwragedd, a meibion mamau, yn cael eu difa bob blwyddyn yn fflamau meddwdod. Dyma gymdeithas dirwest yn curo wrth eich drysau ac yn gofyn am fenthyg eich ysgol i'w hachub—peidiwch a myn'd i son am eich gweddi, eich cynghor, a'ch proffes—codwch ar frys a rhowch fenthyg eich ysgol. "Mi weddiaf drosoch am eich llwyddiant." Diolch i chwi, ond y mae arnom ni eisieu benthyg eich dawn, eich esiampl, eich dylanwad, ac oni wnewch hyn chwi ellwch gadw eich gweddi i chwi eich hunain; diolch i chwi yr un fath, gwnawn ni y tro hebddi."

Dammeg y Gogleddwynt a'r Haul, *(Aesop)*.—Bu y gogleddwynt a'r haul unwaith mewn dadl a'u gilydd, a thestyn y ddadl ydoedd pa un o honynt oedd y mwyaf nerthol ei effeithiau. Tra yr oedd y gwynt a'r haul yn ymddadlu, digwyddodd fod teithiwr yn ymdaith a chochl wedi ei gwasgu yn dyn am dano, a phenderfynwyd mai y cyntaf o honynt a lwyddai i beri i'r teithiwr ddatod ac ymddiosg o'i gochl, a ennillai y gamp. Dechreuodd y gogleddwynt gyffroi yr awyr, ysgythru heibio y coedydd a'r creigiau, a rhwygo trwy y nentydd a'r gelltydd, nes oedd holl natur mewn braw, a phob creadur yn chwilio am loches i lechu. Ond yn lle taflu ei gochl ymaith, parodd hyn i'r teithiwr ei chau yn dynach oddiamgylch iddo. Rhoddodd y gogleddwynt y gorchwyl i fynu mewn anobaith i lwyddo. Wedi hyn yr oedd tro yr haul i dreio. Daeth allan o'i ystafell fel cawr yn llawenhau i redeg gyrfa, gwenodd yn siriol ar y teithiwr a bwriodd belydr gynes ar ei ben: llaciodd yntau ychydig ar ei gochl. Arllwysodd belydrau cynnes arno eilwaith ac eilwaith a chyfarchodd ef yn siriol ar lwybr ei daith, nes o'r diwedd toddodd y teithiwr a thaflodd ei gochl oddiar ei gefn gan ei chymeryd ar ei fraich, ac felly yr haul a ennillodd y ddadl. Cofiwch fod gan bob dyn ei 'piniwn fel cochl am dano. Ni wna rhuthro ac ysgythru ond peri iddo lapio ei gochl yn dynach am dano. Ymddygiad cynhes a serchog yn unig sydd yn debyg i'w doddi, a pheri iddo ymddiosg o gochl ei ragfarn. Rhaid dysgu bod yn dirion wrth y digllon, ac yn dyner wrth y cyndyn. Llaw esmwyth a dywys yr *Elephant* gerfydd blewyn, ac fe lyfa y Llew y llaw a dyn ddraenen allan o'i balf.

Digitized by Google

DAMMEG DAFYDD A GOLIATH.—Ychydig amser yn ol cychwynodd allan i faes y byd fel Dafydd fychan—yn edrych yn lan a gwridog mae'n wir, ond yn eiddil a gwanaidd iawn, ac yn bur anhebyg o gyflawni gorchestion. O'r ochr arall yr oedd y fyddin feddwol fel Golia Gawr yn ymffrostio mewn nerth a mawrhydri. Beth oedd Dafydd fach i wynebu a Golia fawr? Beth oedd ffon dafl a charreg i wynebu ar gleddyf a gwaewffon a helm a llurig a tharian o brês? Beth oedd pin ac ingc a phapyr, i wynebu ar frâg, a hops, a Rum, a Gin, a Brandy, a Whiskey? Dacw y Philistiad mawr yn ymwroli, yn camru ymlaen, yn chwythu, ac yn chwyrnu, yn ysgyrnygu ac yn lledu ei safn fel pe buasai am lyngcu Dafydd i'w grombil yn fyw. Dacw Dafydd hefyd yn ymwroli, yn nesu yn mlaen, ac yn ei gyfarch, "Tydi gawr beiddgar wyt yn dyfod ataf yn holl nerth brâg a hops, Rum, Brandy, a Whiskey, Chwant, Arferiad, a Rhagfarn yr oes—a minau ydwyf yn dyfod attat tithau yn nerth Arglwydd y lluoedd heb un arf genyf, ond pin ac ingc a phapyr, a chyngor a gweddi." Nerth Brydain ydyw y Dafydd hwn, nerth Dafydd ydyw ei ffydd, a nerth ffydd ydyw Arglwydd y lluoedd. Yn nerth Arglwydd y lluoedd y llwyddodd, ac y llwydda y gymdeithas hon. Lladdodd Dafydd y cawr a charreg—lladdodd Samson y Philistiaid ag asgwrn gên asyn—lladdwn inau gyda bendith yr anghenfil Meddwdod â chwilsen o asgell gwydd. Dim ond cael meddwl ffyddiog Dafydd, a braich rymus Samson, byddwn mor sicr o ladd y gelyn a chwilsen gwydd wedi trochi ei blaen mewn ingc ag y darfu iddynt hwythau ladd eu gelynion a chareg ac ag asgwrn. Bydd rhyw rai yn barod i gynyg yr arf hwn yn niwedd y cyfarfod i bob un a chwenycho wneuthur defnydd o hono i dori ei enw ar bapyr.

DAMMEG Y LLAFURWR A'R MEDDYG.—Daeth llafurwr ag oedd yn byw o fewn ychydig filldiroedd i dref Ludlow mewn brys mawr at feddyg i'w geisio at ei wraig, yr hon oedd wedi clafychu ar enedigaeth un bychan, "Pwy sydd i dalu," ebe y Doctor. Atebodd y llafurwr, "Y mae genyf bapyr pum' punt wedi ei roddi o'r neilldu i'w gadw erbyn yr amgylchiad yr hyn gaiff fod yn gyfan yn eiddo i chwi, lladd neu wella—*kill or cure*." Wedi clywed hyn cychwynodd y meddyg heb oedi, gwnaeth pob gwasanaeth a allodd ar yr achlysur, ond methodd—aflwyddodd pob moddion, a threngodd y wraig druan er pob ymdrech. Yn fuan wed'yn cyfarfu y meddyg a'r gwr, a gofynodd dâl iddo. "Am

Digitized by Google

beth?" ebe y gwr. Attebodd yntau mai am *attendio* ei wraig. "O," ebe y llafurwr, "yr ydych wedi camsynied—nid wyf yn meddwl fy mod yn eich dyled o ddim—a ddarfu i chwi *wella* fy ngwraig?" "naddo," ebe y meddyg, "nid oedd yn ngallu neb i'w gwared." "A ddarfu i chwi ei lladd ynte?" "Och naddo," ebe y meddyg. "Wel," ebe y llafurwr, "y mae yn amlwg nad oes arnaf ddim i chwi—*kill or cure*—lladd neu wella oedd y cytundeb, a chan na wnaethoch yr un o'r ddau, nis gall fy mod yn eich dyled."

Felly pe gofynid i gymedroldeb "a ddarfu i chwi wella rhywun"? Rhaid ateb, "naddo," "a ddarfu i chwi ladd rhywun ynte"? Atebai gydag arswyd, "Och, naddo"! Wel y mae yn amlwg ynte nad yw y byd yn eich dyled ar y pen *hwn* beth bynag.

Dammeg y Samaritan.—Fel yr oedd rhyw ddyn ieuanc yn ymdeithio o ieuengctyd i ddyndod, efe a syrthiodd yn mhlith diodydd meddwol y rhai a'i hysbeiliasant o'i arian, caritor, a chyfeillion, ac a'i gadawsant yn dlawd, yn garpiog, ac yn glwyfus. Ac fe ddigwyddodd i ryw lymeitiwr ddyfod y ffordd hono, a phan y'i canfu ef, efe a'i dirmygodd, ac a aeth heibio yr ochr arall. Daeth hefyd ryw gymedrolwr y ffordd hono, a phan y'i gwelodd efe â aeth heibio yr ochr arall. Ond rhyw ddirwestwr ar ymdaith a ddaeth heibio, a phan y'i gwelodd, efe a dosturiodd, ac a wylodd drosto, ac a ymbiliodd arno trwy ddagrau i edifarhau a diwygio. Ac efe a'i cymhellodd ef i eistedd ar ei anifail ei hun, a elwid llwyrymwrthodiad, ac a'i dygodd at ei deulu, ac a gymerodd ofal am dano. A thranoeth efe a lefarodd yn dirion wrtho, a weddiodd drosto, ac a ymadawodd.

Pa un o'r tri hyn oedd gymydog i'r hwn a syrthiodd yn mhlith diodydd meddwol?

Digitized by Google

## DETHOLION.

### DUW YN DDIGON.

Beth oedd yn peri i Pedr, Andreas, Ioan, a'r Apostolion ereill adael pob peth ond y sicrwydd oedd yn eu mynwes fod Duw yn ddigon? Nis gallasai cig a gwaed eu dysgu i hyn, ond yr Ysbryd Glan a'i dadguddiodd, ac a ddangosodd er iddynt golli pob peth eto y caent y cwbl yn ol, ïe can cymaint. Beth oedd yr achos fod Paul yn myned yn ei flaen pan yr oedd Demas yn cilio? Ffenestr a agorwyd iddo yn y nefoedd i weled trwyddi holl ddigonolrwydd Duw—nid mawr ganddo wed'yn oedd myned o gystudd i gystudd, ac o garchar i garchar.

### CASAU PECHOD.

Dylid casau pechod, nid yn unig fel peth peryglus ond hefyd fel peth aflan. Gall masnachydd yn ei long ar y môr fwrw allan ei eiddo pan mewn perygl am ei einioes, ond nid yw yn casau ei eiddo. Felly gall dyn fwrw ymaith ei bechod pan mewn perygl o farn Duw neu waradwydd dynion. Un peth yw bwrw ymaith bechod, peth arall yw ei gasau.

### OFNI DUW.

Y mae y duwiol yn ofni yr Arglwydd a'i ddaioni (Hos. iii. 5.) Pan y mae diwedd ar gystudd, a phan y del daioni yn ei le, pan y mae Duw yn dechreu dangos trugaredd iddo, ac estyn iddo iechyd, llonyddwch a heddwch, pan y mae yn gadael ei groesau, ei ofid a'i gyfyngder, y mae arno fwy o ofn pechu nag erioed. Po fwyaf o ddaioni a ddengys Duw iddo mwyaf o ofn sydd arno ei ddigio. Po fwyaf a brawf o felusder trugaredd a'i arbediad mwyaf yw ei ofn rhag ei golli.

### "BENDIGEDIG FYDDO DUW."

Pan y mae Duw yn ein bendithio ni, y mae yn rhoddi rhywbeth ini, ond pan yr ydym ni yn bendithio Duw, nid ydym yn rhoddi dim iddo, ond yn unig yn cydnabod ein bod yn derbyn oddiwrtho.

### TRUGAREDD DAN GOCHL.

Nid yw cystudd yn amgen na thrugaredd o dan gochl. Trugaredd yn gwisgo clefyd neu boen fel cochl am dani, nes yr ydym ni yn fynych yn methu ei hadnabod.

Digitized by Google

### CYFRYNGDOD CRIST.

Yr un ffordd sydd i nesau at Dduw i ddiolch ag sydd i nesau ato i grefu ac i dderbyn. Ni rydd efe ddim i ni ond trwy Grist, ac ni dderbyn Efe ddim oddiwrthym ond trwy Grist. Crist ydyw unig lwybr tramwy rhwng nef a daear.

### "PROFWCH A GWELWCH MOR DDA YW YR ARGLWYDD."

Profwch ei felusder, gwelwch ei brydferthwch. Profwch ef fel y mel yn felus, a gwelwch ef fel y goleuni yn brydferth.

Y mae llawer yn y byd hwn yn profi daioni Duw, ond heb ei weled. Yn uffern y maent yn ei weled, ond heb ei brofi. Rhaid bod Duw dâ yn hoffi gweled ei greaduriaid yn ddâ; a rhaid bod pawb sydd yn gweled Duw yn dda, yn hoffi bod yn debyg iddo.

### ABSENOLDEB DUW YDYW Y TRUENI PENAF.

Ni lefodd Crist "Paham y'm coronir â drain, y'm fflangellir, y poerir arnaf, ac y'm hoelir ar bren? Ni chwynodd o dan ei boen. Ni waeddodd "Haul, Haul, paham yr ymguddi? Fy nisgyblion, fy nisgyblion paham y ciliwch?" Dyoddefodd hyn yn ddistaw. Ond pan guddiodd ei Dad ei wyneb rhagddo, dyna holl nerth ei deimlad yn ymgrynhoi ac yn dylifo yn donau cythryblus dros ei enau yn yr ymadrodd, "Fy Nuw, fy Nuw paham y'm gadewaist?" Dylai pechadur ystyried os achosodd absenoldeb ei Dad gymaint gofid i Grist ddiniwaid, beth ddaw o'r euog? Os gwnaed felly i'r pren ir, beth ddaw o'r crin? Gruddfanau hiraethus am bresenoldeb Duw, a brawf gywirdeb crefydd y credadyn. Ie cwynai, "Fy Nuw, fy Nuw, paham yr wyf yn glaf, yn dlawd, yn ofidus?" Arwyddai hyny ysbryd grwgnach. Pe llefai, "Fy Nuw, fy Nuw paham y mae y groes mor drom, y ffordd mor flin, a'r gwaith mor galed?" Amlygai hyny ysbryd anfoddog. Ond pan o dan guddiad wyneb ei Dduw y dolefo o ddyfnder trallod ei enaid, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Amlyga hyny galon rasol wedi rhwymo ei holl ddedwyddwch i fynu yn ei Harglwydd. "Cuddiaist dy wyneb a bum helbulus." Buaswn yn gallu dyoddef cuddiad pob peth arall yn ddystaw. Gallasai parch a chyfoeth a chyfeillion gilio o'r golwg, ni buaswn yn petruso cymaint, ond colli dy wedd di sydd fwy nag a allaf oddef." Teimlad fel hyn a

Digitized by Google

brawf ei fod wedi llwyr ymroddi i fo
Duw yn eiddo yntau.

---

## FFRAETHEIRIAU.

welir fod llawer o ddywediadau pertaf Mr. Pugh wedi eu asgaru trwy y cofiant a'r traethawd ar ei athrylith. Nid anfuddiol efallai fydd ychwanegu rhyw nifer atynt yn y fan hon.

Bu unwaith yn Manchester yn cymeryd cwrs o ymdrochiadau yn y *Turkish Bath* er cael ymwared oddiwrth y Gymalwst (*Rheumatism.*) Derbyniodd lawer o les oddiwrthynt, ond cawsant effaith ryfedd arno. Teneuodd yn anghyffredin, ac aeth yn ysgafnach o lawer o bwysi. Gollyngai ei dafod ffraeth ryw arabedd neu gilydd o hyd yn nghylch yr oruchwyliaeth a'i heffeithiau. Anfonai gyhoeddiad i Liverpool wrth ddychwelyd adref ac archai y cyhoeddwr i ddywedyd y byddai gweddillion (*remains*) Pugh, Mostyn, yn pregethu yno yr wythnos ganlynol. Tystiai yn ddifrifol fod y chwys a gollodd yn y *Bath* yn ddigon i wneud dau neu dri o bregethwyr cynorthwyol da o hono.

Pan yn methu plygu i ddatod carai ei esgid, dywedai wrth weinidog oedd ar ymweliad ag ef, "A wyt ti yn chwenych cael dy anrhydeddu." Attebai hwnw yn ddiniwed, "hoffwn yn wir Mr. Pugh." "Wel," meddai yntau, "dos ar dy liniau o'm blaen, a dattod garai fy esgidiau.

Yr oedd un brawd wedi bod yn siarad llawer am ei lafur gweinidogaethol, a'i orchestion llenyddol nes oedd clustiau yr hen wr call yn dechreu merwino, a dywedai, "yr ydych yn gwneud i mi feddwl am yr iar. Wedi i hono ddodwy, rhed ar draws y buarth dan glwcian, clwcian, nes i bawb ei chlywed, a dywed gyda boddhad mawr iddi ei hun—Welwch chwi fi, dyna fi wedi ychwanegu un *wy* eto at y bydysawd."

Sylwai ar un brawd oedd wedi bod yn ymsythu wrth anerch cynulleidfa heb fod yn llwyddianus iawn i wneud argraff ar feddyliau y gwrandawyr a dywedai wrth fyned adref "A welsoch chwi ef yn sefyll fel *note of interrogation* o flaen y bobl?"

Digitized by Google

wrth bregethwyr teithiol a dywedai eu yddelod tlawd fydd yn dyfod drosodd i'r cynhauaf i enill tipyn o arian i fyned gyda hwynt gartref i dalu y rhent ac i brynu mochyn.

Yr oedd tri dyn wedi bod yn aflonyddu ar heddwch y lwysi am dymhor hir, nes yr oedd amynedd ein cyfaill y llwyr ballu. Ar ol rhyw dro mwy anfad na'i gilydd, c merodd ddefnydd o enwau priodol y tri a dywedodd gyda llymder, "Y mae eisieu gwerthu Joseph i'r Aipht, a bwrw Jonah i'r mor, a llabyddio Stephan, ac ond odid na chawn lonydd wedi hyny."

Mewn cynhadledd o weinidogion dywedai un aflonyddwr mewn dull ymffrostgar—"Diolch i Dduw gallaf fi fyw heb y weinidogaeth." Cyfododd ein cyfaill ar ei draed a dywedodd yn y fan—"Diolch i Dduw gall y weinidogaeth fyw heboch chwithau." Defnyddiai y diweddar Dr. Pye Smith yr ymadrodd yna yn fynych wrth anerch ei fyfyrwyr, a chydnabyddai yn onest ei fod yn ddyledus am dano i weinidog Cymreig.

Pan yr oedd brawd yn y weinidogaeth yn pregethu yn lled ddigynwrf, a'n cyfaill yn eistedd yn ei ymyl yn y pwlpud, digwyddodd i'w oriadur (*watch*) sefyll, a phan y tynodd hi allan ar ddiwedd yr odfa a'i gweled felly, tystiai mai oerder y bregeth oedd wedi rhewi yr olwynion.

Ymddiddanai unwaith ar echryslonrwydd rhyfel, a throdd yr ymddiddan ar y tebygolrwydd y byddai i berffeithiad arfau rhyfel ei dinystrio yn y diwedd. Sylwid fel yr oedd llongau yn cael eu gwneud yn gryfach a'r magnelau yn cael eu gwneud yn drymach ar gyfer hyny, nes yr oedd brwydrau bellach yn dibynu yn fwy ar nerth y peirianau nag ar fedrusrwydd a gwroldeb dynol. "Ie," meddai yntau mewn ton rhwng cellwair a difrifwch, "wedi darfod ar y mor eir i wneud *balloons* i ymladd a'u gilydd, a gwneir y rhai hyny yn gryfach gryfach nes y bydd dynion o'r diwedd yn adeiladu cestyll yn yr awyr!"

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google